**Adroddiad Gwrthwynebiad Atodiad B**

**Cyngor Bro Morgannwg**

**Adroddiad Ymgynghori**

**Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro**

## 1. Gwybodaeth am y Cefndir

### 1.1. Amlinelliad o'r ymgynghoriad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 5 Mawrth 2018 a mis Ebrill 2018, a rhwng 21 Mai 2018 a 9 Gorffennaf 2018 er mwyn ymateb i gynnig y Cyngor i ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro.

Ym mis Mawrth 2018, lansiodd y Cyngor ymgynghoriad a oedd yn ceisio ystyried ddarpariaeth yr ysgolion cynradd yng Ngorllewin y Fro mewn ffordd holistig. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu'r gymuned o'r cynnig i ad-drefnu ysgolion a oedd yn cael ei wneud dan adran 2.2 y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac y cyfeiriwyd atynt fel newidiadau a reoleiddir, fel a ganlyn:

a) newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Llancarfan, sef symud safle'r ysgol o Lancarfan i adeilad ysgol newydd ar dir i'r gogledd o'r rheilffordd yn Y Rhws;

b) newid a reoleiddir i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Llancarfan ar y safle newydd o 126 i 210 o leoedd; a

c) newid a reoleiddir i newid ystod oedran isaf y disgyblion trwy ychwanegu dosbarth meithrin newydd sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser.

Yn ystod yr ymgynghoriad, mynegwyd nifer o bryderon gan aelodau'r gymuned ynghylch yr effaith ar eu hardaloedd lleol, a gofynnwyd cwestiynau ychwanegol am y cynnig, gan geisio sicrhau ein bod yn deall eu safbwyntiau.

O ganlyniad i adborth, cynhaliodd y Cyngor ail ymgynghoriad, a gychwynnodd ar 21 Mai 2018. Roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cynnwys mwy o fanylder yn y ddogfen ymgynghori a chynnig y cyfle i randdeiliaid ystyried hyn o fewn amserlen ymgynghori newydd.

Ystyrir yr adborth a'r safbwyntiau a fynegwyd yn y ddau ymgynghoriad yn yr adroddiad ymgynghori hwn. Roedd y Cyngor yn croesawu unrhyw adborth pellach neu ychwanegol gan unigolion neu sefydliadau am y wybodaeth ychwanegol a gynhwyswyd yn yr ail ymgynghoriad cyn iddo wneud penderfyniad.

Roedd y prosesau ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Roedd y prosesau ymgynghori yn cynnig y cyfle i bobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed safbwyntiau'r holl rai y mae ganddynt ddiddordeb, fel y bydd modd eu hystyried cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau.

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy gyfrwng dogfen ymgynghori a dosbarthwyd ffurflen ymateb yn electronig i ymgyngoreion rhagnodedig ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Bro Morgannwg ar 5 Mawrth ar gyfer yr ymgynghoriad cyntaf ac ar 21 Mai 2018 ar gyfer yr ail. Yn ogystal, rhoddwyd dolen e-bost i wefan Cyngor Bro Morgannwg i ymgyngoreion.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn rhan ganolog o'r broses ymgynghori er mwyn ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Roedd y dogfennau ymgynghori yn amlinellu'r cynnig a oedd yn cael ei ystyried, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb unigol hefyd. Hysbyswyd ymgyngoreion o'r ffaith bod fersiwn ar-lein ar gael iddynt ei llenwi.

## 2. Ymgynghoriad

### 2.1. Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori dwyieithog ar 5 Mawrth 2018 ar gyfer yr ymgynghoriad cyntaf ac ar 21 Mai 2018 ar gyfer yr ail, ac fe'u dosbarthwyd ar-lein, trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol, ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Rhoddwyd copi electronig o'r dogfennau i ymgyngoreion, ynghyd â dolen e-bost i wefan Bro Morgannwg.

### 2.2. Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer y ddau ymgynghoriad am y cynnig gydag ymgyngoreion rhagnodedig, fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Ymgynghorodd y Cyngor gyda'r grwpiau canlynol ar gyfer y ddau ymgynghoriad:

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu a heb fod yn addysgu) yn Ysgol Gynradd Llancarfan | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan | Cyngor Cymuned Llancarfan |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg (EYDCP) |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cynghorwyr Lleol |
| Aelodau Cynulliad (ACau)/ Aelodau Seneddol | Comisiynydd y Gymraeg |

| | |
|---|---|
| (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Consortiwm Canol De Cymru |
| Estyn | Undebau Llafur |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Cyfarwyddwyr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lleol | Cyfarwyddwyr Addysg Eglwysig |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | |

Estynnwyd gwahoddiad i ymgyngoreion llenwi ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, yr oedd modd llenwi copi caled ohoni neu fersiwn ar-lein ar wefan y Cyngor, sef www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration

2.3. **Cyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio**

Cynhaliwyd cyfarfodydd ar gyfer y ddau ymgynghoriad gyda'r staff a'r llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Llancarfan, a fynychwyd gan swyddogion y Cyngor. Amlygwyd prif bwyntiau y ddogfen ymgynghori, yn ogystal ag esboniad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio ar gyfer y ddau ymgynghoriad ar gyfer yr holl randdeiliaid yn Llancarfan ac yn Y Rhws.

2.4. **Ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc**

Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori ar gyfer y ddau ymgynghoriad gyda Chyngor Ysgol Ysgol Gynradd Llancarfan er mwyn ymgysylltu'r disgyblion â'r broses ymgynghori. Gellir gweld adroddiad am ganlyniadau'r sesiynau hyn yn Atodiad D.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

2.5. **Cwestiynau Ymgynghori**

Gofynnwyd i ymgyngoreion i'r ddau ymgynghoriad am eu barn am gwestiwn allweddol:

- A ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ddarparu adeilad ysgol newydd ac uned feithrin newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan o fis Medi 2021?

Yn ogystal, cynigiwyd y cyfle i ymgyngoreion wneud sylwadau pellach:

- Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau amgen i'r cynigion, nodwch fanylion y rhain isod.

- Unrhyw sylwadau eraill?

2.6. **Canlyniadau am yr adborth gan yr holl randdeiliaid**

Cafodd yr awdurdod 1136 o ymatebion unigol erbyn dyddiadau cau yr ymgynghoriad sef 20 Ebrill a 9 Gorffennaf 2018. O blith cyfanswm yr ymatebion unigol a gafwyd, sef 1136, roedd 82 o blaid y cynnig, roedd 1046 yn erbyn y cynnig, nid oedd 8 wedi mynegi barn y naill ffordd neu'r llall. Roedd corff llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan, Ysgol Gynradd Y Rhws ac Estyn wedi ymateb yn ffurfiol.

Nodwyd nad oedd yr holl ymgyngoreion wedi darparu ymateb i bob un o'r cwestiynau, ac nas llanwyd rhai ffurflenni yn llawn. Yn yr achosion hyn, rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Ni chaiff adborth o'r cyfarfodydd ymgynghori a'r sesiynau galw heibio ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, oherwydd y nodwyd yn glir yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond ymatebion a fyddai'n defnyddio'r ffurflen ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad y byddai'r Cyngor yn eu derbyn. Hysbyswyd ymgyngoreion o hyn yn ystod y sesiynau galw heibio.

**2.7 Proffil yr ymatebwyr**

Cafodd y Cyngor gyfanswm o 1136 o ymatebion. Mae'r tabl isod yn cynnig **dadansoddiad o'r ymatebion:**

| | Cyfanswm yr ymatebion | Cytuno â'r cynnig | Anghytuno â'r cynnig | Dim barn | Datganiad yr ymatebydd o'r ffurflen ymateb ar-lein | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arolwg Ar-lein | 1049 | 82 | 961 | 6 | Rhiant | 28.5 |
| | | | | | Disgybl | 5 |
| | | | | | Llywodraethwr | 1.5 |
| | | | | | Staff | 2 |
| | | | | | Preswylydd Lleol | 47 |
| | | | | | Arall | 16 |
| | | | | | | |
| Gohebiaeth Ysgrifenedig | 87 | 0 | 85 | 2 | | |

Cafodd yr awdurdod ddeiseb hefyd, sef Achubwch Ysgol Gynradd Llancarfan rhag cael ei Chau, a lofnodwyd gan 1959 o bobl.

<u>Mynegai yr Atodiadau</u>

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Crynodeb o'r prif themâu a'r materion a godwyd gan ymgyngoreion statudol i'r ddau ymgynghoriad a'r ymateb i'r materion hynny gan Gyngor Bro |

| | |
|---|---|
| | Morgannwg. |
| Atodiad B | Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig. |
| Atodiad C | Sylwadau a wnaethpwyd am gwestiynau cyffredin. |
| Atodiad D | Ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda phobl ifanc |
| Atodiad E | Ymatebion gan gyrff llywodraethu Ysgolion Cynradd Llancarfan a'r Rhws. |
| Atodiad F | Ymateb gan Estyn.  Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghori at Estyn. |
| Atodiad G | Arolwg Rhieni Llancarfan, a gynhaliwyd ac a ddadansoddwyd gan breswylwyr lleol |
| Atodiad H | Cofnodion Ysgol Gynradd Llancarfan mewn perthynas â'r ymgynghoriad |
| Atodiad I | Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant am y cynnig |

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd

**Atodiad A**

**Ymgynghoriad gydag ymgyngoreion statudol**

1. **Themâu yr adborth**

Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r prif faterion/pryderon a fynegwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.  Mae'r materion yn cynnig trosolwg o'r ymatebion ac ni fwriedir iddynt fod yn gofnod gair am air.  Bu'r holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau'r Cabinet.

**Mater 1**

**Trefniadau cludiant i'r ysgol**

Mynegwyd pryderon gan breswylwyr am blant ifanc yn teithio ar gludiant ysgol hyd at 5 milltir i safle yr ysgol a drosglwyddir, a pha gludiant fyddai'n cael ei ddarparu.  Yn ogystal, roedd ymatebydd wedi mynegi pryderon am y ffaith na fyddai modd cerdded plant i'r ysgol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant y Cyngor, sy'n cynnig cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i blant cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch ddynodedig neu'r ysgol addas agosaf iddynt.  Ni ddarparir cludiant am ddim i'r ysgol i blant sy'n mynychu uned feithrin mewn ysgol.

Felly, byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan nes yr adeg pan symudir i'r safle newydd ac y maent yn byw 2 filltir neu fwy o safle'r ysgol newydd, yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Ni fyddai unrhyw ddisgyblion nad ydynt yn byw 2 filltir o safle newydd Ysgol Gynradd Llancarfan mwyach ar ôl iddi symud, yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Byddai'r trefniadau pontio ar gyfer derbyn disgyblion presennol y byddent ar y gofrestr tan y byddai'r ysgol yn symud i'r safle newydd a brodyr a chwiorydd y byddent yn mynychu Llancarfan yn y dyfodol, a gynigiwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, yn cael eu hadlewyrchu yn y ddarpariaeth cludiant.

Mae'n debygol y byddai dwy fws mini yn gwasanaethu'r ysgol, un o ardal Llancarfan a'r llall yn gwasanaethu Llancatal a Llanbydderi, er y byddai'r union drefniadau yn cael eu pennu gan yr adran trafnidiaeth ysgolion. Yn gyffredinol, darparir hybryngwr ar fysiau mini sy'n cynnwys 16 sedd neu fwy er mwyn goruchwylio plant ar eu taith i'r ysgol ac oddi yno. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn rhedeg sawl bws i ysgolion cynradd ar draws Bro Morgannwg, sy'n teithio dros 5 milltir i ysgol. Nid yw hi'n anarferol i blant cynradd ifanc pedair i un ar ddeg oed fod yn teithio ar gludiant ysgol. Mae asesiadau risg, hyfforddiant a phrosesau diogelu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn cael eu hymgorffori'n gadarn yn narpariaeth y gwasanaeth. Mae nifer y plant sy'n gallu cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd yn fach o ganlyniad i'r lonydd cul a nifer isel y disgyblion sy'n byw o fewn pellter cerdded. Dim ond 17 disgybl sy'n byw yn y pentref ei hun. Byddai mwy o ddisgyblion yn byw o fewn pellter cerdded i safle newydd yr ysgol o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn agos i'r datblygiadau tai newydd yn Y Rhws. Mae disgyblion o'r Rhws sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar hyn o bryd yn byw o fewn pellter cerdded i safle arfaethedig yr ysgol hefyd.

Er na fydd modd i rai rhieni gerdded eu plant i'r ysgol mwyach, byddai'r ffaith bod bws ysgol ar gael yn galluogi rhieni i ddefnyddio cludiant ysgol ac i blant deithio gyda'i gilydd.

**<u>Mater 2</u>**

**Clybiau brecwast ac ar ôl ysgol/allgyrsiol**

Roedd ymatebydd yn pryderu na fyddai cludiant ar gael i glybiau brecwast ac ar ôl ysgol/allgyrsiol, ac y bydd hyn yn golygu y bydd gofyn i breswylwyr Llancarfan yrru mwy neu bydd y plant yn colli'r cyfle i fanteisio ar y clybiau hyn. Bydd hyn yn effeithio ar drefniadau gofal plant a threfniadau gwaith.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant ysgol i blant cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch ddynodedig neu eu hysgol addas agosaf er mwyn hwyluso'r presenoldeb at ddibenion addysg statudol. Ni fyddai cludiant yn cael ei ddarparu i ddarpariaeth feithrin nac ar gyfer gofynion brecwast ac ar ôl ysgol.

Mae presenoldeb plant mewn clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol cwricwlaidd a chlybiau ar ôl ysgol yn benderfyniadau i rieni, yn ogystal â threfniadau gofal plant.

Mae'r Cyngor yn deall y pryderon;  mae nifer o rieni mewn sefyllfaoedd tebyg ar draws Bro Morgannwg, y mae eu plant yn mynychu ysgolion dros 5 milltir o'u cartref.

Byddai cyfleusterau gofal cofleidiol yn parhau yn yr ysgol, a byddent ar gael i rieni plant sy'n mynychu'r ysgol.

**Mater 3**

**Trefniadau Derbyn**

Roedd ymatebwyr yn bryderus am y trefniadau ar gyfer ysgolion bwydo a'r dalgylchoedd ar gyfer yr ysgol, gan gyfeirio'n arbennig at gysylltiadau bwydo i Ysgol Gyfun y Bont-faen.  Mynegwyd pryderon am y niferoedd yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr yn y dyfodol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Caiff yr holl drefniadau bwydo ac ynghylch dalgylchoedd ym Mro Morgannwg eu hadolygu'n rheolaidd a chynhelir adolygiad eang yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.  Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad a gynhelir yn y dyfodol am drefniadau derbyn.  Os bydd unrhyw newidiadau i drefniadau derbyn yn cael eu gwneud o ganlyniad i'r broses hon, byddai'r trefniadau pontio canlynol yn berthnasol.

Bwriad y Cyngor yw anrhydeddu'r trefniadau bwydo a'r cysylltiadau dalgylch gyda'r Bont-faen ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl symud i safle newydd, nes iddynt adael yr ysgol.  Rhoddir blaenoriaeth uchel i frodyr a chwiorydd disgyblion sy'n mynychu'r ysgol nes y symudir i safle newydd er mwyn eu derbyn i Ysgol Gynradd Llancarfan hefyd pan fyddant yn cyrraedd oedran mynychu'r ysgol.

Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau derbyn pontio ar gyfer disgyblion ar y gofrestr nes y symudir i safle newydd yr ysgol.  Ni fyddai'r trefniadau pontio hyn yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion y byddent yn ymuno â'r ysgol ar ôl y bydd yr adeilad newydd yn weithredol, oni bai bod ganddynt frawd neu chwaer y maent eisoes ar gofrestr yr ysgol yn ystod y flwyddyn pan fyddant yn ymuno, ac roedd y brawd neu'r chwaer hwnnw/honno ar y gofrestr ar y dyddiad pan symudwyd i'r safle newydd.

Mae'r Cyngor yn cynnig cadw'r cyswllt bwydo a dalgylch gydag Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer disgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd Llancarfan nes y dyddiad pan symudir i safle newydd, ac ar gyfer eu brodyr a'u chwiorydd.  Nid yw'r Cyngor yn cynnig newid dalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen fel rhan o'r cynnig hwn, ond mae'n cynnig newid dalgylch Ysgolion Cynradd Llancarfan, Llanfair, Y Rhws a'r Eglwys yng Nghymru St Nicholas.

Ar ei safle newydd, byddai Ysgol Gynradd Llancarfan yn bwyo Ysgol Uwchradd Whitmore neu ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr ar gyfer yr holl newydd-ddyfodiaid i'r ysgol ar ôl y dyddiad pan symudir i safle newydd, ac eithrio cysylltiadau brodyr a chwiorydd plant sydd eisoes yn yr ysgol fel rhan o drefniadau derbyn pontio, y byddent yn cynnal cysylltiadau bwydo neu frodyr a chwiorydd i Ysgol Gyfun y Bont-faen.

**Mater 4**

**Ysgolion bwydo crefyddol**

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr bod mynediad ysgolion bwydo yn tueddu o blaid crefydd ac y bydd y cynnig yn lleihau nifer yr ysgolion bwydo nad ydynt yn rhai crefyddol ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen. Mynegwyd pryderon bod dewis heb fod yn ddewis ffydd yn cael ei waredu.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae gan Ysgol Gyfun y Bont-faen ddeg ysgol gynradd bwydo sy'n gwasanaethu'r ysgol, y mae pedair ohonynt yn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru sy'n rheoli eu polisi derbyn eu hunain a'u derbyniadau eu hunain i'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn ysgolion cynhwysol, a bydd ganddynt eu meini prawf eu hunain ar gyfer achosion pan geir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, a fydd yn cynnwys agwedd grefyddol er mwyn neilltuo lleoedd, yn ôl y gofyn. Mae dwy ysgol fwydo bellach yn ysgolion gwirfoddol a reolir yr Eglwys yng Nghymru, y mae'r Cyngor yn awdurdod derbyn ar eu cyfer ac y mae'r meini prawf derbyn ar gyfer achosion pan geir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, yr un fath â'r 4 ysgol gynradd anenwadol arall.

Mae'r holl ysgolion bwydo yn ysgolion cynhwysol sy'n gwasanaethu Ysgol Gyfun y Bont-faen heb unrhyw duedd o blaid credoau crefyddol. Mae'r ysgolion enwadol yn gwasanaethu eu pentref a'u cymunedau lleol, waeth beth fo'r ffydd a'r enwad. Gall rhieni y mae eu plant yn mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru ddewis i'w plant fynychu ysgol uwchradd enwadol neu anenwadol.

**Mater 5**

**Gostyngiad mewn niferoedd disgyblion**

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch gostyngiad posibl mewn niferoedd dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i'r cynnig.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r Cyngor o'r farn bod hwn yn gyfle unigryw i symud Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad sy'n addas i'r unfed Ganrif a hugain a hefyd, cynnig lle i blant o'r datblygiad tai newydd yn Y Rhws. Byddai symud yr ysgol i safle mwy, cael adeilad mwy o faint a dalgylch newydd gyda niferoedd cynaliadwy yn galluogi'r ysgol i ddatblygu'r cynnydd y mae eisoes wedi'i sicrhau, gan fodloni poblogaeth mwy o faint yn yr ysgol. Bydd y cynnig yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng cyflenwad lleoedd ysgol a'r galw amdanynt dros y tymor hir.

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y capasiti dros ben yn cynyddu i 28 lle (22%) dros y bum mlynedd nesaf. Nid yw hyn yn ystyried unrhyw effaith y cam o symud Ysgol Gynradd Llancarfan i'r safle newydd. Ceir gostyngiad yn y nifer sy'n cychwyn yn y dosbarth derbyn yn Llancarfan ym mis Medi 2018, ond ni ellir priodoli hyn i'r cynnig.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r dosbarth derbyn oedd 8 Ionawr 2018, a oedd cyn lansio'r cynllun. Gallai'r niferoedd ostwng yn y dyfodol o ganlyniad i'r ymgyrch leol yn erbyn y dybiaeth bod yr ysgol yn cael ei chau. Gallai hyn arwain at rai rhieni yn dewis ysgolion amgen. Gan gydnabod hyn, mae'r Cyngor wedi cynnig diogelu'r cyllid i'r Corff Llywodraethu er mwyn cynnal yr ysgol yn y cyfamser.

**<u>Mater 6</u>**

**<u>Amcanestyniadau disgyblion a'r niferoedd a fydd yn deillio o'r tai</u>**

Cwestiynodd yr ymatebwyr y niferoedd y mae gofyn iddynt gael lleoedd ysgol o ganlyniad i'r datblygiadau tai arfaethedig, a mynegwyd pryderon bod y fformwla a ddefnyddiwyd er mwyn pennu amcanestyniadau disgyblion sy'n deillio o'r datblygiadau yn ormodol. Ni cheir tystiolaeth gadarn i gefnogi amcanestyniadau'r Cyngor ynghylch niferoedd y disgyblion.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae methodoleg y Cyngor er mwyn llunio amcanestyniadau disgyblion yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Archwilio ac mae'n seiliedig ar ddefnyddio cymarebau ysgolion Dalgylch/Bwydo a chyfraddau goroesi cohortau (y berthynas rhwng nifer y disgyblion mewn un cohort mewn un blwyddyn ysgol, a'r un cohort yn y flwyddyn ysgol ddilynol). Mae amcanestyniadau disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth ac maent hefyd yn ystyried data cyfredol a hanesyddol ysgol, cyfraddau genedigaethau, datblygiadau tai a gynlluniwyd a symudiadau traws-dalgylch. Adroddodd Arolygiad yn 2013 gan Estyn am Wasanaethau Bro Morgannwg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc "Mae gan yr awdurdod systemau priodol mewn grym er mwyn rhagweld niferoedd disgyblion a'r gofynion o ran nifer y lleoedd mewn ysgolion gan ddefnyddio ystod addas o ddata".

O ran datblygiadau tai, cyfrifir nifer ragamcanol y disgyblion sy'n dod o ddatblygiad gan ddefnyddio fformwla sy'n deillio o ddata cyfrifiad deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Caiff y fformwla ei gynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio. Ar lefel feithrin, caiff hyn ei gyfrifo ar sail 0.1 disgybl fesul uned a 0.287 fesul uned ar lefel gynradd. Byddai'r datblygiadau o 350 o dai yn arwain at 35 o blant meithrin a 97 o blant cynradd. Ar gyfer y 700 o unedau sy'n cael eu hadeiladu at ei gilydd, byddai'r Cyngor yn disgwyl gweld tua 70 o blant meithrin a 194 o blant cynradd.

Asesir unedau preswyl gyda chynnydd net o 10 annedd neu fwy er mwyn pennu faint o ddisgyblion newydd fydd yn deillio o ddatblygiad. Ni chaiff fflatiau stiwdio a fflatiau un ystafell wely eu cynnwys mewn unrhyw waith cyfrifo am ddatblygiadau tai, fel sy'n digwydd gyda'r datblygiadau tai yn Y Rhws. Mae'r ffactor ynghylch nifer y disgyblion a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai ym Mro Morgannwg yn debyg i'r fethodoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill. Mae'r niferoedd yn ddibynnol ar ddemograffeg ardal y Cyngor.

Mae methodoleg y Cyngor er mwyn cyfrifo niferoedd y disgyblion a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai ac amcanestyniadau disgyblion yn gyson ac mae'r Cyngor yn teimlo'n fodlon ei bod yn adlewyrchu'r amodau cyfredol at ddibenion cynllunio

lleoedd ysgol. Mae cymariaethau o dro i dro o niferoedd go iawn y disgyblion yn erbyn y niferoedd a amcangyfrifwyd wedi dangos bod y tybiaethau ynghylch niferoedd disgyblion a ddefnyddir gan y Cyngor yn briodol, a'u bod yn cydnabod y gallai rhai plant aros yn yr ysgolion y maent ynddynt ar hyn o bryd.

Er enghraifft, amcanestyniadau'r Cyngor ynghylch niferoedd y disgyblion yn Nhrwyn y Rhws ar draws y sectorau meithrin, cynradd ac uwchradd oedd 398. Pan gymharir hwn gyda niferoedd go iawn y disgyblion hyd yn hyn, sef 410, mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth o 3% yn unig.

**Mater 7**

**Datblygiad i'r gogledd-orllewin**

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch y ffaith na fydd y datblygiad i'r gogledd-ddwyrain yn mynd yn ei flaen. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith na fyddai'r ysgol yn cael ei hadeiladu tan 2021, ac y bydd plant o'r datblygiad yn y Gogledd-orllewin eisoes yn y system, a bod posibilrwydd y byddai lleoedd gwag yn yr ysgol newydd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae amcanestyniadau'r Cyngor ynghylch niferoedd y disgyblion wedi ystyried y datblygiadau tai yn Y Rhws, gan dybio y bydd y datblygiad yn y gogledd-ddwyrain yn cychwyn yn 2020. Barnwyd ei bod yn fwy effeithiol cynllunio ar gyfer y datblygiad tai heb ei gadarnhau fel rhan o'r cynnig, o ganlyniad i hyd yr amser sy'n ofynnol er mwyn ymgynghori am, cytuno ar ac os caiff ei chymeradwyo, adeiladu ysgol newydd, yn enwedig o ran y gofynion sydd mewn grym er mwyn sicrhau'r cyllid angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru. Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen cyn i'r ysgol gael ei hadeiladu, efallai y bydd plant sy'n dod o'r datblygiad yn y gogledd-orllewin yn mynychu ysgolion y tu allan i'r ardal o ganlyniad i'r ffaith nad oes capasiti ar gael yn ardal Y Rhws. Byddai modd i rieni ddewis symud i Ysgol Gynradd Llancarfan pan gaiff yr adeilad newydd ei gwblhau er mwyn eu galluogi i fynychu ysgol sy'n agosach i'w cartref.

**Mater 8**

**Y galw am dai yn yr ardal gylchynol**

Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai datblygiadau tai yn y dyfodol yn ardal gyfagos Sain Tathan, symudiadau personél y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r ffaith y byddai Aston Martin yn symud i'r ardal, hwyluso'r galw yn Llancarfan. Gallai datblygiadau yng Nghroes Sycamorwydd gael effaith hefyd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Byddai unrhyw ddatblygiad newydd a symudiadau i ardal Sain Tathan a'r galw dilynol am leoedd ysgol yn cael eu hwyluso gan Ysgol Gynradd Sain Tathan. Mae gan Ysgol Gynradd Sain Tathan y capasiti i fodloni'r galw ychwanegol am leoedd ysgol yn yr ardal a byddai modd bodloni unrhyw ofynion o ran datblygu adeilad yr ysgol

trwy gyfrwng cyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn gallu creu capasiti ychwanegol yn yr ysgol er mwyn ymateb i'r galw ychwanegol am leoedd ysgol.

Mae datblygiad Croes Sycamorwydd yn gysylltiedig ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas, ac mae cyfraniadau datblygu ar gael i ehangu'r ysgol yn ôl yr angen er mwyn rheoli'r galw yn yr ardal yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas. Byddai plant yn yr ardal yn gysylltiedig â'u hysgol ddalgylch leol, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas.

**Mater 9**

**Datblygiad yn Llancarfan**

Nododd ymatebwyr bod tai yn cael eu hadeiladu yn Llancarfan ger yr ysgol bresennol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Cafodd y Cyngor ymholiad a oedd yn gofyn am gyngor cyn ymgeisio ynghylch tai fforddiadwy am tua 10 o unedau cymwys at ddibenion niferoedd disgyblion, ond ni wnaethpwyd unrhyw gais cynllunio swyddogol. Ni fyddai niferoedd y disgyblion a fyddai'n deillio o ddatblygiad o'r fath, sef 1 disgybl meithrin a 3 disgybl cynradd, yn cael effaith arwyddocaol ar nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Llancarfan.

**Mater 10**

**Cyfraddau genedigaethau**

Roedd ymatebydd yn teimlo bod y tybiaethau ynghylch cyfraddau genedigaethau yn yr ardal yn anghywir.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cael detholiadau blynyddol data genedigaethau yn ardal Bro Morgannwg yn rheolaidd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Trefnir y data ynghylch genedigaethau a geir i ardaloedd dalgylchoedd ysgolion er mwyn cynorthwyo gweithgarwch cynllunio lleoedd ysgol. Mae'r data a ddarparwyd i'r Cyngor yn dangos y ganwyd pedwar plentyn yn nalgylch Llancarfan bob blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r tabl canlynol yn dangos y data genedigaethau yn ardal Llancarfan ar gyfer y tri grŵp derbyn o fis Medi 2019 i 2021.

**Genedigaethau yn nalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan**

| Blwyddyn academaidd | Nifer y genedigaethau yn ystod y flwyddyn academaidd | Blwyddyn y niferoedd derbyn ar gyfer genedigaethau |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Medi 2014 – Awst 2015 | 3 | Medi 2019 |
| Medi 2015 – Awst 2016 | 2 | Medi 2020 |
| Medi 2016 – Awst 2017 | 6 | Medi 2021 |

**Mater 11**

**Tybiaethau ynghylch trosglwyddo i'r ysgol**

Pryderon ymatebwyr ynghylch tybiaeth y Cyngor y bydd rhieni yn trosglwyddo eu plant i safle newydd yr ysgol. Honnir y byddant yn gwneud cais am le mewn ysgolion eraill mewn ardaloedd mwy gwledig. Ceir amheuaeth ynghylch nifer y disgyblion sy'n debygol o symud i'r safle newydd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r ffigurau ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan ar safle newydd yn Y Rhws yn seiliedig ar niferoedd presennol y disgyblion yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr arolwg a gynhaliwyd er mwyn darganfod dymuniadau rhieni ynghylch symud i safle newydd yr ysgol. Gellir gweld yr arolwg yn atodiad G yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, er bod gan rieni yr hawl i fynegi eu dewis fel rhieni a newid ysgolion, ni ellir gwarantu y bydd modd bodloni'r dewisiadau hynny. Mae derbyn cais i drosglwyddo i ysgol amgen yn dibynnu ar y ffaith bod lleoedd ar gael mewn ysgolion eraill. Er mai'r gobaith yw y bydd pob disgybl yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl symud i safle newydd, dylid nodi bod argaeledd lleoedd cynradd er mwyn hwyluso trosglwyddiad i ysgol amgen yn gyfyngedig yng Ngorllewin y Fro.

**Mater 12**

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

Cwestiynodd ymatebydd a ystyriwyd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y strategaeth.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agwedd bwysig ar Raglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B. Bu'r Cyngor yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu capasiti yn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg dan Fand A Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Er mwyn datblygu'r llwyddiant hwn, mae cynyddu'r capasiti yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol, yn ogystal ag ystyried datblygiadau pellach ar lefel gynradd. Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi sylw i darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd y Cyngor yn cynnal rhaglen weithredol er mwyn rhoi sylw i'r angen o ran addysg Gymraeg a Saesneg fel rhan o'i raglen.

Ystyriwyd yr effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg yn y rhan hon o Orllewin y Fro yn y broses o ddatblygu'r cynnig hwn. Disgwylir tua 14 o blant cynradd cyfrwng Cymraeg

o'r datblygiad, a cheir capasiti digonol yn yr ysgol ddalgylch, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, er mwyn bodloni'r galw.

**Mater 13**

**Cynllun Datblygu Lleol**

Dywedodd ymatebydd bod Llancarfan wedi cael ei nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor fel ardal y mae gofyn ei hehangu yn y dyfodol

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Seiliwyd papur cefndir y Papur Cyfleusterau Addysg a gyhoeddwyd fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor ym mis Medi 2013 ar amcanestyniadau ysgolion cynradd tan 2017/18. Er 2014, mae'r nifer ar y gofrestr yn Llancarfan wedi gostwng o 116 i 101 o blant. Ni chynlluniwyd unrhyw ddatblygiadau tai ar gyfer ardal Llancarfan y byddent yn cynyddu niferoedd y disgyblion, gan olygu y byddai gofyn ehangu'r ysgol. Ni fyddai modd ehangu'r ysgol ar ei safle presennol.

**Mater 14**

**Darpariaeth Feithrin**

Roedd gan ymatebwyr bryderon ynghylch y ffaith bod gofyn cael 70 o leoedd meithrin o ganlyniad i'r datblygiad, ond mai dim ond 48 fyddai ar gael yn yr ysgol. Awgrymodd ymatebydd y byddai modd sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Llancarfan.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Bydd nifer gyffredinol y lleoedd meithrin a fydd yn ofynnol yn cynyddu yn yr ardal gymaint ag oddeutu 70 lle, o ystyried y datblygiadau tai newydd a gynlluniwyd. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bodlonir y galw ychwanegol yn Ysgol Gynradd Y Rhws ac Ysgol Gynradd Llancarfan. Yn ogystal, mae capasiti ar gael yn Ysgol Gynradd Y Rhws am 22 o blant meithrin ychwanegol. Nid oes modd cynnwys uned feithrin yn ysgol Gynradd Llancarfan oherwydd cyfyngiadau ar y safle. Hyd yn oed pe bai modd sicrhau lleoliad priodol yma, nid oes cyllid ar gael i ddarparu uned feithrin ym mhentref Llancarfan.

Er bod rhai ymatebwyr wedi nodi y byddai modd cynnig darpariaeth feithrin yn neuadd y pentref, byddai gofyn gwneud addasiadau i'r neuadd a'r safle y tu allan yn unol â gofynion a rheoliadau Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ni fyddai darpariaeth feithrin yn neuadd yr ysgol yn darparu ar gyfer integreiddio llawn plant yn y cyfnod sylfaen ac ni fyddai'n ddewis ymarferol o ganlyniad i gyfyngiadau'r adeilad a'i leoliad wrth fodloni gofynion Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

**Mater 15**

**Newidiadau i ddalgylchoedd**

Mynegwyd pryder gan ymatebwyr y bydd y dalgylchoedd newydd yn dinistrio'r ymdeimlad o gymuned rhwng pentrefi Llancarfan, Llanbydderi, Llancatal a Llanthrydd wrth i ddisgyblion o bob pentref fynychu gwahanol ysgolion.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Cynhelir y rhan fwyaf o ddalgylch presennol Llancarfan o fewn dalgylch newydd yr ysgol, gan gynnig parhad o ran cyfeillgarwch a phlant sy'n mynychu'r ysgol. Yr unig ddiwygiadau yw'r rhai a wneir i ardaloedd Tre Aubrey a Whitton, y byddant yn cael eu cynnwys yn nalgylchoedd ysgolion Llanfair a St Nicholas. Ar hyn o bryd, mae 8 o blant cynradd yn byw yn yr ardaloedd hyn, ac nid oes unrhyw un ohonynt yn mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan.

**<u>Mater 16</u>**

**<u>Materion ymgynghori</u>**

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr bod yr ymgynghoriad cychwynnol yn cyflwyno achos camarweiniol, ei bod yn amlwg bod y broses ymgynghori yn ddiffygiol ac yn unochrog a bod y Cyngor wedi methu bodloni gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r Cyngor yn deall pryderon rhieni, preswylwyr a disgyblion mewn perthynas â'r cynnig cyntaf a gyflwynwyd gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi cyflwyno'r achos mewn ffordd ddigonol er mwyn galluogi ystyriaeth ddeallus a chyfrifol.

Mynegwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyntaf ynghylch yr effaith ar yr ardal leol, yn ogystal â chwestiynau ychwanegol am y cynnig. Felly, cynhaliwyd ail ymarfer ymgynghori er mwyn rhoi sylw i bryderon ac er mwyn cynnig mwy o fanylder yn y ddogfen ymgynghori am y cynnig, gan gynnig y cyfle i randdeiliaid ystyried hyn cyn dyddiad cau newydd ar gyfer yr ymgynghoriad. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth ychwanegol yn rhoi sylw i faterion megis dyfodol adeilad yr ysgol, Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddaru ac ategu'r newid a reoleiddir i'r ysgol i safle newydd, gan nodi mwy o fanylion am y dewisiadau amgen a ystyriwyd. Mae'r Cyngor yn hyderus bod yr ail ymgynghoriad yn rhoi sylw i nifer o bryderon a fynegwyd yn fanylach, a'i fod wedi cynnig rhywfaint o sicrwydd i'r gymuned leol.

Ymgynghorwyd ag Estyn am y cynnig ac maent wedi ymateb mewn ffordd gadarnhaol i'r cynnig, gan ddynodi bod Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn dros y cynnig i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, gan ychwanegu 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar safle newydd yn Y Rhws. Mae Estyn wedi nodi hefyd bod y ddogfen ymgynghori a'r cynnig yn nodi manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig yn glir.

Gwnaethpwyd y sylw pellach hwn gan Estyn :

*Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i safonau addysgol, lleoedd dros ben mewn ysgolion, trefniadau teithio i ddisgyblion, hygyrchedd y ddarpariaeth,*

*ansawdd a chynaladwyedd adeiladau ysgolion, buddsoddiad ariannol a chostau rhedeg. Mae'r cynnig wedi ystyried y canlyniadau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn Ysgol Gynradd Llancarfan mewn ffordd briodol. Mae wedi manteisio ar ystod addas o dystiolaeth er mwyn gwneud hyn, gan gynnwys dadansoddiad byr o ddata ynghylch perfformiad yr ysgol dros y 3 blynedd ddiwethaf."*
Caiff asesiad llawn o'r ymateb i'r cynnig gan Estyn ei gynnwys yn Atodiad F y ddogfen hon.

Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chan gydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Ceisiwyd cyngor cyfreithiol gan adran gyfreithiol y Cyngor wrth baratoi'r ddogfen, ynghyd â chanllawiau priodol gan Lywodraeth Cymru yn ôl y gofyn. Mae'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd yn ymwneud â newid a reoleiddir, h.y. symud i safle newydd heb fod o fewn 1.609344 cilomedr (un filltir) o unrhyw brif fynedfa yr ysgol ar ei safle presennol – para 2.2 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Wrth gynnal yr ail ymarfer ymgynghori, hysbyswyd ymgyngoreion y byddai safbwyntiau a fynegwyd cyn yr adeg honno yn cael eu hystyried yn yr adroddiad ymgynghori terfynol am y cynnig.

Mae'r Cyngor yn teimlo'n fodlon ei fod wedi dilyn y gofynion statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn ymgynghori am y cynnig, a oedd yn cynnwys ymgynghori gyda disgyblion. Mae'r broses ymgynghori wedi cynnig rheswm a gwybodaeth ddigonol er mwyn galluogi ystyriaeth ac ymateb deallus.

**<u>Mater 17</u>**

**<u>Rhagdybiaeth ynghylch cau ysgolion gwledig</u>**

Cwestiynodd ymatebwyr a oedd y Cyngor yn ymwybodol o reolau a gyflwynir gan Kirstie Williams, sy'n nodi rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn cau ysgol, yn hytrach na symud yr ysgol i safle newydd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r cynnig yn newid a reoleiddir ar gyfer ysgol dan adran 2.2 y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn, ac nid yw'n cau ysgol.

a) newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Llancarfan, sef symud safle yr ysgol o Lancarfan i adeilad ysgol newydd ar dir i'r gogledd o'r rheilffordd yn Y Rhws;

d) newid a reoleiddir i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Llancarfan ar y safle newydd o 126 i 210 lle; a

e) newid a reoleiddir i newid ystod oedran isaf y disgyblion trwy ychwanegu dosbarth meithrin newydd sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser.

Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yw'r cod presennol sydd mewn grym. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori am y cynigion mewn perthynas â Llancarfan dan y trefniadau dan y cod presennol sydd mewn grym.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru am God Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig rhwng mis Mehefin a mis Medi 2017. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, ac roedd yn rhestru ysgolion a ystyriwyd yn rhai gwledig at y diben hwn. Defnyddiwyd Dosbarthiad Trefol – Gwledig Ystadegau Gwladol at ddibenion dynodi ysgolion gwledig. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig, fel lleiafswm, y dylai ysgolion yng nghategorïau 3 a 4 ("pentref mewn cyd-destun mwyaf prin" a "cyd-destun mwyaf prin arall") y dosbarthiadau manwl dan y Dosbarthiad Trefol-Gwledig isod gael eu dynodi yn rhai gwledig at ddibenion rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn yr ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth yng Nghymru.

1. Tref fawr yn y cyd-destun mwyaf prin
2. Tref fach yn y cyd-destun mwyaf prin
3. Pentref mewn cyd-destun mwyaf prin
4. Arall (pentref bach neu wasgaredig) mewn cyd-destun mwyaf prin
5. Tref fawr mewn cyd-destun llai prin
6. Tref fach mewn cyd-destun llai prin
7. Pentref mewn cyd-destun llai prin
8. Arall (pentref bach neu wasgaredig) mewn cyd-destun llai prin

Nid oedd gan Fro Morgannwg unrhyw ysgolion yn rhestr gychwynnol yr ysgolion dynodedig.

Yn dilyn ymgynghoriad, cynigiodd Llywodraeth Cymru ymestyn dynodiad ysgolion gwledig i gynnwys categori pellach sef "Arall (pentref bach neu wasgaredig) mewn cyd-destun llai prin", elfen 8 y dosbarthiad trefol-gwledig uchod. O ganlyniad, tynnwyd Ysgol Gynradd Llancarfan i fewn i ddynodiad "gwledig". Gofynnodd Llywodraeth Cymru am sylwadau Awdurdodau Lleol am y cynnig i gynnwys categori ychwanegol ym mis Mai 2018.

Roedd y ddogfen ymgynghori gychwynnol yn esbonio'r rheswm dros wneud y newid:

*"Rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac unrhyw elfennau gorfodol o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac mae'n rhaid iddynt ystyried amrediad o ffactorau wrth gynnig newidiadau sylweddol i ysgolion, a'r ystyriaeth bennaf yw budd y dysgwyr.*

*Ar hyn o bryd, ni cheir rhagdybiaeth o blaid neu yn erbyn cau unrhyw fath o ysgol. Mae'r Cod presennol yn cydnabod mai prif ddiben ysgolion yw darparu addysg a dylai unrhyw achos dros gau ysgol fod yn gadarn ac er budd pennaf y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r Cod presennol yn cydnabod hefyd y gallai ysgol fod yn brif ganolbwynt gweithgarwch cymunedol mewn ardaloedd gwledig, ac y gallai ei chau gael goblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg, yn enwedig os defnyddir adeiladau'r ysgol fel man er mwyn darparu gwasanaethau i'r gymuned leol.*

*Yn aml, bydd cau ysgol wledig yn golygu y bydd yn rhaid i blant deithio y tu hwnt i'w cymuned leol i'r ysgol nesaf sydd ar gael, ac ar yr un pryd, gall y gymuned golli defnydd o adeiladau a chyfleusterau'r ysgol. Mewn rhai ardaloedd gwledig, efallai bod yr ysgol yn un o blith ychydig iawn o wasanaethau sydd ar ôl yn y gymuned o hyd, ac mae'n cyflawni rôl canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol. Felly, gallai ei chau gael goblygiadau ar gyfer cynaladwyedd y gymuned gyfan yn y dyfodol, ymhell y tu hwnt i ddarparu addysg."*

Gan bod y cynnig hwn yn newid a reoleiddir i'r ysgol o'i safle presennol yn Llancarfan i safle newydd yn Y Rhws, ac nid proses o gau'r ysgol, nid yw paragraffau uchod y Cod yn berthnasol.

Mae'r Cod yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion digonol yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran eu nifer, eu cymeriad a'u hoffer er mwyn cynnig y cyfle i bob disgybl gael addysg briodol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardaloedd. Yn ogystal, mae'r Cod yn cydnabod y dylid rhoi'r ystyriaeth bennaf i addysg. Mae hyn gysylltiedig mewn ffordd uniongyrchol â dyletswydd awdurdod lleol i geisio gwell safonau addysg.

Yr ystyriaethau hyn sy'n golygu bod gofyn i awdurdodau lleol ystyried ffactorau ehangach megis yr angen i reoli'r ystad ysgolion mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys rheoli niferoedd gormodol o leoedd gwag, sy'n rhwymo adnoddau mewn ffordd anghynhyrchiol – adnoddau nad ydynt ar gael wedyn i'w defnyddio er mwyn codi safonau a gwella ansawdd addysg yr holl ddisgyblion. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt geisio lleihau niferoedd gormodol y lleoedd gwag mewn ysgolion lle y ceir tanfeddiant sylweddol. Er bod y Cod yn annog awdurdodau lleol i reoli lleoedd gwag, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cau ysgolion. Mae'r Cod yn eu hannog i ystyried dewisiadau amgen i'r cam o gau ysgol, gan gynnwys cydweithio neu ffederaleiddio, cynyddu defnydd cymunedol o adeiladau'r ysgol neu gydleoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol er mwyn gwrthbwyso costau.

Mae'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng dymuniadau a phryderon dilys cymunedau gwledig a rhieni, gyda chyfrifoldebau awdurdodau lleol dros ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth ystyried ai cau ysgol yw'r cam priodol, mae'r Cod presennol yn nodi *y dylid rhoi sylw arbennig i ddewisiadau amgen i'r cam o gau* ac wrth ymgynghori am gynigion, rhaid i'r ddogfen ymgynghori *gynnwys disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a'r rhesymau pam eu bod wedi cael eu diystyru.*

"Nid yw rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig yn golygu na fydd ysgolion gwledig fyth yn cau. Fodd bynnag, mae'n golygu bod yn rhaid i'r achos dros gau fod yn un cadarn ac na ddylid gwneud hynny nes bod yr holl ddewisiadau posibl eraill wedi cael eu hystyried mewn ffordd gydwybodol, gan gynnwys ffederaleiddio."

Fel y nodwyd uchod, mae'r cynnig yn newid a reoleiddir ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, nid proses o gau'r ysgol dan adran 2.2 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Ni fydd elfennau diwygiedig y Cod newydd mewn perthynas â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig bach yn berthnasol i'r cynnig hwn. Er hyn, cydnabyddir y gallai tynnu ysgol o'i chymuned leol gael effaith debyg i'r cam o gau ysgol, felly ystyriwyd hyn yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

Rhagwelir y gosodir y Cod diwygiedig yn y Cynulliad yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 17 Medi 2018. Rhaid gosod y Cod am 40 diwrnod, ac yn ystod y cyfnod hwn, gall y Cynulliad benderfynu peidio cymeradwyo'r Cod. Os gosodir y Cod ar 17 Medi, bydd y 40 diwrnod yn dod i ben ar 26 Hydref 2018. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu peidio cymeradwyo'r Cod, gallai ddod i rym mor gynnar ag 1 Tachwedd 2018. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r amseriadau hyn newid. Os bydd unrhyw ddiwygiadau i'r Cod yn dod i rym, bydd ganddynt ddarpariaethau pontio er mwyn i Awdurdodau Lleol eu dilyn. Wrth gwrs, bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion gorfodol unrhyw God diwygiedig wrth iddynt a phan fyddant yn dod i rym.

Dim ond at ddiben rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig y mae rhestr yr ysgolion gwledig yn berthnasol. Er bod Llancarfan wedi cael ei chynnwys yn y rhestr wledig, dim ond pe bai'n cael ei chau ar ôl i'r cod diwygiedig ddod i rym y byddai'n cael ei hystyried dan y categori hwn. Ni fyddai hyn yn digwydd mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Llancarfan dan y Cod presennol na'r Cod diwygiedig.

**<u>Mater 18</u>**

**<u>Mae labelu'r cynnig fel proses o symud yn gamarweiniol</u>**

Mae ymatebwyr yn teimlo bod y cynnig yn cyfateb â'r cam o gau'r ysgol gynradd, a bod symud yr ysgol 5 milltir i ffwrdd yn hurt. Teimlir nad yw'r trosglwyddiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Ni ellir galw'r ysgol arfaethedig yn ysgol Llancarfan gan nad yw yn Llancarfan.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Defnyddiwyd y term symud yn yr ymarfer ymgynghori cyntaf. Gan gydnabod ychydig ddryswch a fynegwyd mewn perthynas â'r term hwn, mae'r ail ymarfer ymgynghori yn ailgadarnhau'r newid a reoleiddir i Ysgol Gynradd Llancarfan, gyda throsglwyddiad o safle presennol yr ysgol i safle newydd.

Nid yw'r Cyngor yn cynnig cau Ysgol Gynradd Llancarfan. Y cynnig yw symud yr ysgol bresennol i safle newydd, a fydd yn cynnwys adeilad ysgol gwell a mwy o gapasiti, yn ogystal ag ystod oedran estynedig. Cyfeirir at newid a reoleiddir o safle ysgol fel newid a reoleiddir dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, rhif dogfen cod statudol: 006/2013. Mae'r cynnig hwn yn cadw'r ysgol bresennol, ei staff, ei disgyblion a'i llywodraethwyr. Byddai enw'r ysgol yn aros yr un fath, oni bai y byddai corff llywodraethu yr ysgol yn dewis gofyn am gael newid ei henw, y byddai'n rhaid i Gabinet y Cyngor ei gymeradwyo.

Er bod y lleoliad newydd arfaethedig tua 4.7 milltir i ffwrdd o adeilad presennol yr ysgol, yn Y Rhws, nid yw'r cynnig hwn yn un unigryw i Gyngor Bro Morgannwg. Mae awdurdod lleol cyfagos wedi llwyddo i symud ysgolion i safleoedd newydd hyd at bedair milltir y ffwrdd yn flaenorol.

Ar hyn o bryd, mae 35% o'r plant yn yr ysgol yn byw yn ardal Y Rhws. Byddai'r cynnig hwn yn golygu y byddent yn teithio llai o bellter. Mae 37% pellach o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar hyn o bryd ac sy'n byw yn Y Barri, Llanilltud, y Bont-faen a thu allan Bro Morgannwg eisoes yn gwneud eu trefniadau teithio eu hunain a byddent yn gwneud yr un fath i'r safle newydd. Byddai 29% y disgyblion sy'n byw yn Llancarfan ac y byddai angen iddynt deithio i'r safle newydd, yn cael cludiant am ddim i'r ysgol a fyddai'n cael ei ddarparu gan y Cyngor, er mwyn hwyluso'u presenoldeb yn yr ysgol.

## Mater 19

## Mae dewisiadau amgen ar gael

Cwestiynodd ymatebwyr pa ddewisiadau amgen i'r cynnig a ystyriwyd ac a oedd y rhain yn cynnwys ffederaleiddio. Roedd ymatebydd yn holi am ddewis amgen a ystyrir isod.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Ystyriwyd dewisiadau amgen i'r cynnig a rhoddwyd mwy o fanylion amdanynt yn yr ail ddogfen ymgynghori, fel a ganlyn.

**Dewisiadau amgen a ystyriwyd:**

### Ymestyn Ysgol Gynradd Llancarfan

Byddai Ysgol Gynradd Llancarfan yn cael ei hehangu i fod yn ysgol mynediad un dosbarth, a byddai'n cynnwys darpariaeth feithrin o 48 o leoedd er mwyn ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn niferoedd y disgyblion yng Ngorllewin y Fro. Byddai'r dewis hwn yn golygu y byddai angen ehangu'r ysgol bresennol ar ei safle presennol.

Nodwyd nad hwn oedd y dewis a ffafriwyd am y rhesymau canlynol:

- Mae'r safle yn safle cyfyngedig ac yn rhy fach i'w ehangu er mwyn bodloni'r gofynion. Mae Bwletin Adeiladu 99 (a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain) yn darparu fformwla er mwyn cyfrifo maint lleiaf safleoedd ysgolion. Ar gyfer 126 o blant, dylai'r safle gofynnol fod rhwng 6736m2 a 7540m2. Fodd bynnag, mae safle'r ysgol yn llai na'r maint a argymhellir ar gyfer ysgol fel hon, sef 3,700m2. Mae hyn yn cymharu â maint y safle a argymhellir ar gyfer ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd, sef 10,000m2.

- Mae llethr ar gyfran sylweddol o'r safle cyfyngedig hefyd, sy'n cyfyngu ymhellach ar y posibiliadau i ymestyn yr ysgol ar ei safle presennol neu i ddarparu meysydd chwaraeon neu ardaloedd dysgu allanol ar safle yr ysgol. Byddai modd adeiladu adeilad aml-lawr ar y safle, ond nid yw hyn yn cyd-fynd ag ymddangosiad yr ardal, ac mae'n annhebygol iawn o sicrhau cefnogaeth yr adran gynllunio, neu breswylwyr lleol.

- Mae'r ysgol ar safle bach, a gaiff ei wrthbwyso rhyw ychydig trwy ddefnyddio cyrtiau'r clwb tenis sydd gerllaw. Nid yw'r pedwar adeilad ar wahân a'r safle bach sy'n cynnwys llethr, yn bodloni safonau canllawiau dylunio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ysgolion cynradd, a ddefnyddiwyd ar gyfer yr holl waith adeiladu newydd a gyflawnwyd trwy raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

- Byddai gofyn cael y lle ychwanegol er mwyn ymateb i niferoedd cynyddol y disgyblion y byddent yn dod o ardal Y Rhws. Byddai teithio i'r ysgol yn anodd a byddai'n cyfrannu at dagfeydd traffig trwy'r pentref ac ar hyd y lonydd sy'n arwain at Lancarfan.

- Mae Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cynnwys adeilad un neu ddau lawr hollol hygyrch (Deddf Cydraddoldeb 2010) ac sy'n darparu'r holl swyddogaethau addysgol gofynnol o fewn un adeilad, wedi'i leoli ar dir sy'n bodloni'r anghenion presennol o ran y cwricwlwm ar gyfer y safle tu allan. Ni fyddai modd cyflawni hyn o ystyried cyfyngiadau presennol y safle yn Llancarfan. Er mwyn sicrhau cyllid Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofyniad bod protocolau adeiladau ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cael eu bodloni.

- Nid oes digon o fynediad a lle ar y safle presennol i gynnal yr ysgol bresennol wrth i'r gwaith adeiladu gael ei wneud ar ysgol newydd.

## Ymestyn Ysgol Gynradd Y Rhws

Byddai Ysgol Gynradd Y Rhws yn cael ei hehangu ar ei safle bresennol er mwyn cynnwys estyniad 8 ystafell ddosbarth a neuadd fwyta. Byddai hyn yn golygu y byddai gofyn adeiladu adeilad pellach wrth ymyl yr estyniad a adeiladwyd yn 2009, ac y byddai angen ail-fodelu'r dosbarthiadau presennol ac ymestyn y cyfleusterau meithrin presennol.

Nodwyd nad hwn oedd y dewis a ffafriwyd am y rhesymau canlynol:

- Adeiladir yr adeiladau ychwanegol ar gaeau chwarae presennol, gan beri i'r safle edrych a theimlo'n orlawn;

- Gallai'r ffaith bod adeilad presennol yr ysgol yn adeilad rhestredig gradd 2 arwain at oedi a chyfyngiadau dylunio;

- Oherwydd y lle cyfyngedig y tu allan sydd ar gael yn yr ysgol ar hyn o bryd, mae gwaith dichonolrwydd cychwynnol wedi amlygu'r ffaith y bernir y bydd y safle yn rhy fach, yn unol â phroses gyfrifo Bwletin Adeiladu 99 Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd. Mae'r Bwletin yn nodi mai maint y safle sy'n ofynnol ar gyfer ysgol gynradd sy'n cynnwys 630 o leoedd a darpariaeth feithrin yw 28,650 m2. Maint safle Ysgol Gynradd Y Rhws yw 14,600 m2, felly mae 14,050 m2 yn fyr o'r lle gofynnol ar gyfer ysgol gynradd sy'n cynnwys 630 o leoedd. Byddai hyn yn cyfyngu ar ddyluniad a chynllun y safle ar gyfer unrhyw estyniad arfaethedig;

- Dan ofynion y Bwletin Adeiladu, mae safle Ysgol Gynradd Y Rhws yn rhy fach ar gyfer poblogaeth bresennol yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai gofyn i ysgol a fyddai'n cynnwys capasiti ar gyfer 375 o blant a darpariaeth feithrin gael rhwng 16,315 a 18,115 m2. Maint y safle presennol yn Ysgol Gynradd Y Rhws yw 14,648, sy'n is na'r safon gofynnol.

- Trwy ymestyn y capasiti yn yr ysgol, bydd y tagfeydd traffig yn y pentref yn cynyddu ar adegau allweddol yn ystod y dydd;

- Ni cheir cyfle i roi sylw i sialensiau mewn perthynas â mynediad hanner dosbarth yn Ysgol Gynradd Llancarfan, na'r gostyngiad rhagamcanol mewn niferoedd disgyblion;

- Byddai adeiladu ar y safle presennol yn amharu ar y dysgu am o leiaf 9 mis gan na fyddai modd cyflawni'r holl waith yn ystod y gwyliau ysgol. Gallai hyn effeithio ar ddeilliannau dysgu;

Byddai'r ysgol mwy o faint yn rhy fawr, gan beri sefyllfa lle y byddai 19% o leoedd gwag yn 2021. Yn ogystal, efallai y bydd rhieni o'r datblygiadau newydd yn dewis caniatáu i'w plant aros yn eu hysgolion presennol. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r holl alw a ragwelwyd yn digwydd yn y tymor byr, a byddai hyn yn cynyddu'r potensial o weld capasiti dros ben yn yr ysgol. Wrth adeiladu neu ymestyn ysgolion, bernir bod angen ymestyn neu adeiladu mewn lluosrifau o 30 ar gyfer ysgol mynediad un, dau a thri dosbarth o saith grŵp blwyddyn, sef derbyn i flwyddyn 6. Mae hwn yn fodel cyflawni mwy effeithlon a chynaliadwy sy'n rheoli trefniadaeth dosbarthiadau, strwythur yr ysgol a chynllunio'r cwricwlwm yn well, gan ddileu'r angen am ddysgu oedrannau cymysg a chynorthwyo wrth reoli cyfyngiadau maint dosbarthiadau statudol o 30 o blant.

### Adeiladu ysgol newydd yn Y Rhws, heb wneud unrhyw newidiadau i Ysgol Gynradd Llancarfan

Byddai ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn cael ei hadeiladu ar safle 1 hectar yn natblygiad Trwyn y Rhws.

Ni fyddai gofyn gwneud unrhyw newidiadau i'r cyfleusterau neu'r capasiti presennol yn Ysgol Gynradd Y Rhws, ond byddai gwaith yn cael ei wneud i roi sylw i'r materion a amlygwyd yn arolwg 2014 am gyflwr yr ysgol.

Rhagwelir y byddai'r ysgol newydd yn aelod o ffederasiwn gydag ysgol Gynradd bresennol Y Rhws. Byddai'r ffederasiwn yn cael budd o rannu Pennaeth, tîm arwain a chorff llywodraethu o ansawdd uchel, gan ganiatáu hyblygrwydd ychwanegol a mwy o weithgarwch rhannu adnoddau, gan olygu y byddai modd arbed costau ychwanegol. Byddai'r ysgolion yn parhau i fod ar wahân, ac yn cynnal eu dyraniadau cyllideb eu hunain, a byddent yn adrodd canlyniadau ar wahân.

Nodwyd nad hwn oedd y dewis a ffafriwyd am y rhesymau canlynol:

- O ystyried y galw rhagamcanol presennol sef 135 o blant, byddai ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn cynnwys nifer sylweddol o leoedd

gwag, ac ni fyddai'n cynrychioli rheolaeth effeithiol o adnoddau neu leoedd mewn ysgolion.

- Nid oes potensial i roi sylw i'r sialensiau sy'n ymwneud â mynediad hanner dosbarth yn Ysgol Gynradd Llancarfan.

- Bydd gofyn cael arweinyddiaeth ragorol er mwyn creu ffederasiwn rhwng yr ysgol newydd a'r ysgol bresennol. Bydd angen cynnwys gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth pellach er mwyn sicrhau bod y berthynas hon yn cael ei chynnal dros y tymor canolig a hir.

- Bydd angen i'r arweinwyr reoli'r ddwy ysgol ar draws safleoedd, a fyddai'n golygu mwy o gymhlethdod.

- Byddai gofyn cael cyllid refeniw ychwanegol o tua £725,000 er mwyn gweithredu ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd. Byddai angen sicrhau'r swm hwn o'r Gyllideb Ysgolion Unigol bresennol, gan leihau'r cyllid sydd ar gael i ysgolion eraill ym Mro Morgannwg.

### Cynnal y sefyllfa fel ag y mae

Mae Llancarfan yn cynnwys adeilad ysgol Fictoraidd a bloc ar wahân a adeiladwyd yn 2000, ynghyd â dau floc ar wahân o ystafelloedd dosbarth dros dro. Lleolir yr ysgol ar safle bach ac mae'r mynediad iddi yn anodd. Nid oes gan yr ysgol ddarpariaeth feithrin ac mae ganddi nifer derbyn o 18, sy'n golygu bod gofyn addysgu oedrannau cymysg.

Lleolir yr ysgol ym mhentref Llancarfan, sy'n darparu ethos ysgol fach. Mae'r plant yn mynychu o nifer o wahanol ardaloedd ac o blith y rhain, mae 29% yn byw yn nalgylch yr ysgol. Mae poblogaeth dalgylch yr ysgol yn cynnwys 55 o ddisgyblion, o'i gymharu â'r capasiti ar gyfer 126 o blant. Mae'r ysgol yn y grŵp melyn o fewn system Genedlaethol Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r gost refeniw fesul plentyn yn yr ysgol yn uchel o'i chymharu â'r gost gyfartalog yn y Fro.

Ni ystyrir bod cynnal y sefyllfa fel ag y mae yn ddewis posibl. Ar sail yr amcanestyniadau presennol, erbyn 2023, disgwylir y bydd diffyg o 90 o leoedd cynradd yn ardal Y Rhws. Yn ogystal, mae nifer y plant sy'n byw yn Llancarfan yn gostwng, a bydd hyn yn herio effeithlonrwydd a chynaladwyedd Ysgol Gynradd Llancarfan ymhellach. Yn ôl y gyfraith, mae gofyn i Gyngor Bro Morgannwg sicrhau darpariaeth ddigonol o ran lleoedd ysgolion o fewn ei derfynau, er mwyn bodloni'r galw. O ystyried yr uchod, ni fernir bod y dewis hwn yn ddewis amgen posibl.

Byddai'r cynnig a'r dewis a ffafrir o adeiladu adeilad newydd ar leoliad newydd yn caniatáu datblygiad pellach cwricwlwm a fyddai'n llawn profiadau cyfoethog sy'n herio plant, sy'n codi lefel eu cyrhaeddiad ac sy'n meithrin perthnasoedd rhyngbersonol. Bydd hyn yn cynorthwyo datblygiad darpariaeth feithrin a fydd yn ymestyn yr ysgol i ddarparu addysg i ddisgyblion 3 – 11 oed, gan ganiatáu i bob dysgwr sicrhau llwyddiant.

**Mater 20**

**Ymraniad yn Y Rhws**

Mae nifer o ymatebwyr yn Y Rhws yn teimlo'n bryderus am effeithiau posibl cael ysgol arall yn yr ardal ar y gymuned. Nododd ymatebwyr na fydd y cynnig yn cynnig budd i'r Rhws gyfan, ac y byddai'n rhannu'r gymuned. Mae angen i'r Cyngor ystyried ehangu Ysgol Gynradd Y Rhws. Ni fydd Ysgol Gynradd Y Rhws yn cael unrhyw arian A106.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i reoli'r galw am leoedd ysgol yn ardal Bro Morgannwg. Mae poblogaeth Y Rhws yn tyfu o ganlyniad i'r datblygiad y cyfeiriwyd ato yn y ddogfen ymgynghori. Nid yw cael un ysgol cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu poblogaeth o'r maint hwn yn ddatrysiad cynaliadwy. Felly, mae gofyn cael ysgol yn ardal Y Rhws er mwyn bodloni'r galw am leoedd ysgol a fydd yn deillio o'r datblygiadau tai newydd yn Y Rhws. Yn ogystal, mae'r cynnig yn gyfle i symud Ysgol Gynradd Llancarfan i'r lleoliad lle y mae tua 35% o'r plant sydd eisoes yn mynychu'r ysgol yn byw ar hyn o bryd.

Mae arian A106 ar gael i gynyddu nifer y lleoedd ysgol mewn ardal, megis trwy ehangu neu adeiladu ysgol newydd. Nid oes arian Adran 106 ar gael ar gyfer Ysgol Gynradd Y Rhws gan nad yw'n gallu ehangu ar ei safle presennol er mwyn bodloni'r galw ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad tai newydd, ac am y rhesymau canlynol:

- Byddai'r adeiladau ychwanegol yn cael eu hadeiladu ar gaeau chwarae presennol, a byddai'r safle yn ymddangos ac yn teimlo'n orlawn o ganlyniad;
- Gallai'r ffaith bod adeilad presennol yr Ysgol yn adeilad rhestredig gradd 2 arwain at oedi a chyfyngiadau dylunio;
- Oherwydd y lle cyfyngedig y tu allan sydd ar gael yn yr ysgol ar hyn o bryd, mae gwaith dichonolrwydd cychwynnol wedi amlygu'r ffaith y bernir y bydd y safle yn rhy fach, yn unol â phroses gyfrifo Bwletin Adeiladu 99 Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd. Mae'r Bwletin yn nodi mai maint y safle sy'n ofynnol ar gyfer ysgol gynradd sy'n cynnwys 630 o leoedd a darpariaeth feithrin yw 28,650 m2. Maint safle Ysgol Gynradd Y Rhws yw 14,600 m2, felly mae 14,050 m2 yn fyr o'r lle gofynnol ar gyfer ysgol gynradd sy'n cynnwys 630 o leoedd. Byddai hyn yn cyfyngu ar ddyluniad a chynllun y safle ar gyfer unrhyw estyniad arfaethedig;
- Rhaid i'r holl ysgolion a gaiff eu cynnwys yn Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain fodloni rheoliadau'r Bwletin Adeiladu. Ni fyddai estyniad i Ysgol Gynradd Y Rhws ar y safle presennol yn bodloni gofynion Bwletin Adeiladu 99, ac ni fyddai'n gymwys i fanteisio ar 50% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru;
- Mae'r gost o ymestyn ysgol weithredol lawer yn uwch na'r gost o adeiladu ar safle maes glas. Mae hyn o ganlyniad i fesurau iechyd a diogelwch ychwanegol er mwyn sicrhau diogelwch plant, staff a rhieni, cyfyngiadau ar amseroedd cyflenwi ac oriau gwaith a chyfyngiadau mynediad. Gallai

adeiladu estyniad gostio dwy waith yn gymaint fesul $m^2$ nag adeiladu adeilad newydd;

- Bydd ymestyn yr ysgol ar y safle presennol yn cynyddu nifer y staff addysgu a'r staff cymorth yn yr ysgol, a bydd hyn yn golygu y bydd gofyn cael lleoedd parcio ychwanegol, a fydd yn lleihau maint y safle sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu. Caiff hyn ei gynnwys yng nghanllawiau maint Bwletin Adeiladu 99;
- Trwy ymestyn y capasiti yn yr ysgol, bydd y tagfeydd traffig presennol yn y pentref yn cynyddu ar adegau allweddol yn ystod y dydd;

Byddai Ysgol Gynradd Y Rhws a fyddai'n fwy o faint yn rhy fawr, gan beri sefyllfa lle y byddai 19% o leoedd gwag yn 2021. Yn ogystal, efallai y bydd rhieni o'r datblygiadau newydd yn dewis caniatáu i'w plant aros yn eu hysgolion presennol. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r holl alw a ragwelwyd yn digwydd yn y tymor byr, a byddai hyn yn cynyddu'r potensial o weld capasiti dros ben yn yr ysgol.

Ystyrir bod y cynnig o fudd i gymuned Y Rhws. Mae gofyn cael tua 90 o leoedd ar gyfer preswylwyr Y Rhws sy'n byw yn y datblygiad newydd, ac ynghyd â'r ysgol ar safle newydd, byddai tua 60% o'r plant y byddent yn mynychu'r ysgol yn byw yn ardal Y Rhws. Byddai'r ddwy ysgol yn parhau i wasanaethu cymuned Y Rhws.

Byddai'r ysgol gynradd bresennol, Ysgol Gynradd Y Rhws, yn gweld buddsoddiad parhaus yn yr ysgol gan y Cyngor, yn unol â'i ymrwymiadau y rhoddir blaenoriaeth iddynt a'r meini prawf er mwyn cynnal ysgolion.

Ceir cyfle i'r ysgolion gydweithio a pharhau i wasanaethu'r gymuned. Byddent yn cael eu hannog i feithrin perthnasoedd gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod cymuned y Rhws yn cael ei gwasanaethu'n dda yn y dyfodol, gan ymestyn y cyswllt gyda'r gymuned.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnodd ymatebydd a fyddai modd ystyried dewis i leihau maint Ysgol Gynradd Y Rhws i 210 o leoedd, gan ychwanegu ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn Y Rhws ar y tir i'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd, a gadael Ysgol Gynradd Llancarfan yn Llancarfan.

Capasiti presennol ysgol gynradd Y Rhws yw 375 o leoedd mewn 8 ystafell ddosbarth yn y bloc ysgol gwreiddiol, bloc ystafelloedd dosbarth deulawr sy'n cynnwys pedair ystafell ddosbarth, ystafell ddosbarth ddwbl dros dro a bloc meithrin ar wahân. 374 yw'r nifer sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.

Byddai modd lleihau'r capasiti i 315, ysgol mynediad un dosbarth a hanner, trwy gael gwared ar yr ystafell ddosbarth dros dro a chaniatáu i'r safle hwn fod yn lle chwarae unwaith eto. Amcangyfrifir y byddai'n costio tua £25,000 i gael gwared ar yr ystafell ddosbarth dros dro.

Wrth adeiladu neu ymestyn ysgolion, bernir bod angen ymestyn neu adeiladu mewn lluosrifau o 30 ar gyfer ysgol mynediad un, dau a thri dosbarth o saith grŵp blwyddyn, sef derbyn i flwyddyn 6. Cydnabyddir yn eang bod hwn yn fodel cyflawni mwy effeithlon a chynaliadwy sy'n rheoli trefniadaeth dosbarthiadau, strwythur yr

ysgol a chynllunio'r cwricwlwm yn well, gan ddileu'r angen am ddysgu oedrannau cymysg a chynorthwyo wrth reoli cyfyngiadau maint dosbarthiadau statudol o 30 o blant.

Byddai modd lleihau'r capasiti ymhellach trwy ail-ddynodi ystafelloedd presennol bach neu lai addas yn y prif adeilad er mwyn lleihau'r capasiti i 210. Byddai modd defnyddio'r hen ystafelloedd dosbarth fel llyfrgell ar gyfer yr ysgol, ystafell TG, ystafell CPA, ystafelloedd grŵp/AAA neu ar gyfer addysgu peripatetig e.e. cerddoriaeth.

Byddai angen lleihau capasiti yr adeilad meithrin hefyd, er mwyn cyd-fynd ag ysgol mynediad 1 dosbarth newydd. Byddai modd cyflawni hyn trwy ail-ddynodi safleoedd, ac ni fyddai cost i hyn.

Byddai'r costau i ail-ddynodi ystafelloedd dosbarth yn dibynnu ar raddau'r gwaith i'w gyflawni, ond gallai fod yn hyd at £80,000 ar gyfer addasiadau amrywiol i bedair ystafell ddosbarth os bydd gofyn cael TG a phwyntiau trydan ychwanegol, ynghyd ag adnoddau a dodrefn rhydd a gosodedig newydd.

Trwy leihau'r capasiti, byddai cyllideb yr ysgol yn lleihau hefyd, ac er y byddai'r costau staffio yn is, ni fyddai'r costau o gynnal a chadw a rhedeg yr adeilad yn lleihau'n sylweddol, hyd yn oed pe byddai'r adeilad dros dro yn cael ei waredu.

Yn y bôn, ni fyddai'r galw am leoedd cynradd yn ardal Y Rhws yn cael eu bodloni, ac ni fyddai nifer ddigonol o leoedd cynradd er mwyn bodloni'r galw yn y dyfodol. Ar sail amcanestyniadau presennol i gynnwys datblygiadau tai yn y Rhws ar dir i'r gogledd-orllewin ac ar dir i'r gogledd-ddwyrain o'r rheilffordd, byddai gofyn cael 465 o leoedd ysgol er mwyn bodloni'r galw dros y 5 mlynedd nesaf. Dim ond 420 o leoedd ysgol i wasanaethu'r ardal y byddai'r model hwn yn eu cynnig. Ni fyddai nifer ddigonol o leoedd i fodloni'r galw gan ddatblygiad tai newydd yn yr ardal.

Byddai gostyngiad yng nghapasiti yr ysgol yn golygu y byddai gofyn i'r Cyngor ddilyn proses statudol o ran gweithgarwch ymgynghori a chynigion statudol. Byddai gorfod cyfiawnhau cynnig nad yw'n bodloni'r galw am leoedd ysgol mewn ardal yn peri problemau, ac ni fyddai'n bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Ni fyddai ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn cael ei ystyried fel dewis posibl; mae'r Pennaeth profiadol yn ysgol Gynradd Y Rhws wedi ymddeol a bydd Pennaeth newydd, parhaol yn cychwyn yn y rôl ym mis Ionawr 2019. Mae ffederaleiddio yn gofyn am Bennaeth profiadol o ganlyniad i'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chael 2 ysgol neu fwy ar wahanol safleoedd.

Ni fyddai'r dewis yn golygu y byddai modd cyflawni'r cynnig i drosglwyddo ysgol Llancarfan. Mae gan yr ysgol 25 o leoedd gwag (19.8%), a disgwylir i'r ffigwr hwn fod i 28 lle (22%) dros y bum mlynedd nesaf. Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion er mwyn cyflawni targed y cytunwyd arno ac sy'n ofyniad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y darparir addysg mewn ffordd effeithlon. Yn y sector cynradd, mae hyn yn cyfateb â tharged a gytunwyd o heb fod dros 10%.

Bydd gostyngiad mewn niferoedd disgyblion yn cael effaith niweidiol ar allu'r ysgol i reoli ei chyllideb. Byddai gostwng y nifer ar y gofrestr i 210 yn lleihau cyllideb yr ysgol gymaint â £397,815 ar sail AWPU (Uned Disgybl wedi'i Phwysoli yn ôl Oed). Mae gan yr ysgol nifer o gostau sefydlog sy'n werth £267,515 at ei gilydd, na fyddent yn lleihau pe byddai nifer y disgyblion yn is. Mae'r rhain yn cynnwys y pennaeth, costau gweinyddol, gofalwr, y safle, cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau allanol. Cydnabyddir y byddai gostyngiad bach mewn costau ynni o ganlyniad i'r cam o waredu'r adeilad dros dro.

Mae'r ysgol yn cael swm ychwanegol o £48,677 at y £267,515 ar ffurf costau sefydlog tuag at yr adeiladau a'r safle, sy'n seiliedig ar niferoedd y disgyblion. Fel yr uchod, byddai'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion yn lleihau'r elfen hon, fodd bynnag, ni fydd yr adeiladau eu hunain yn newid. Fel adeilad rhestredig, mae gofyn gwneud gwaith cynnal a chadw ychwanegol yn yr ysgol hefyd.

Costau sefydlog cyfartalog ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd yw £189,282. Mae hyn £78,233 yn llai drud na'r gost o redeg Ysgol Gynradd Y Rhws gyda 210 o leoedd, o ystyried y safle presennol.

Er mwyn bodloni'r angen am leoedd ar gyfer disgyblion, byddai modd lleihau Ysgol Gynradd Y Rhws i ysgol sy'n cynnwys 255 o leoedd, yn hytrach na 210. Byddai hyn yn golygu y byddai cyllideb yr ysgol yn lleihau o hyd, gymaint â £289,320.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y goblygiadau i'r refeniw ar sail fformwla cyllido ysgolion y brif ffrwd rhwng y cynnig presennol o drosglwyddo Llancarfan i safle newydd sy'n cynnwys 210 o leoedd yn Y Rhws, a chynnal Ysgol Gynradd Y Rhws gyda'i chapasiti presennol o 375 o leoedd, o'i gymharu â'r dewis o gynnal Ysgol Gynradd Llancarfan, gan leihau capasiti Ysgol Gynradd Y Rhws ar ei safle presennol i 255 o leoedd, a chreu ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn Y Rhws, er mwyn bodloni'r galw a ragwelir:

| **Cynnig Presennol** | | **Cost Refeniw** |
|---|---|---|
| | | |
| Ysgol Gynradd Y Rhws (375) | | £ 1,262,651 |
| Ysgol 210 Newydd | | £ 931,028 |
| | | |
| **CYFANSWM** | | **£ 2,193,679** |

| **Y Dewis Uchod** | | **Cost Refeniw** |
|---|---|---|
| | | |
| Ysgol Gynradd Llancarfan | | £ 544,631 |
| Ysgol Gynradd Y Rhws (255) | | £ 1,208,767 |
| Ysgol 210 Newydd | | £ 931,028 |
| **CYFANSWM** | | **£ 2,684,426** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Gwahaniaeth** | | **£ 490,747** |

Mae'r tabl yn amlygu'r ffaith y byddai'r dewis a amlinellir uchod yn cynyddu'r costau refeniw gymaint â £490,747 o'i gymharu â'r cynnig presennol o drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i safle mwy o faint yn Y Rhws a chynnal Ysgol Gynradd Y Rhws gyda'i chapasiti presennol.

- Yr unig ffordd o sicrhau gostyngiad o 374 o ddisgyblion ar y gofrestr i gapasiti newydd o 255 o blant yn Ysgol Gynradd Y Rhws yw trwy leihau'r nifer derbyn ar gyfer y niferoedd i'r dosbarth derbyn fesul cam. Ni fyddai maint y gostyngiad yn cael ei wireddu tan tua 2026 yn dilyn gwaith ymgynghori priodol am Bolisi Derbyn yr Ysgol.

- Y rhif derbyn presennol i Ysgol Gynradd Y Rhws yw 53. Pe byddai'r ysgol yn cael ei lleihau i ysgol o 255 o leoedd, 36 fyddai'r rhif derbyn. Mae rhif derbyn o 36 yn ei gwneud hi'n anodd rheoli trefniadaeth dosbarthiadau, strwythur yr ysgol, cynllunio ar gyfer y cwricwlwm, a byddai'n golygu y byddai angen addysgu oedrannau cymysg wrth ystyried y cyfyngiadau statudol i faint dosbarthiadau, sef 30 o blant.

- Byddai angen llunio dalgylchoedd newydd er mwyn rhannu poblogaeth disgyblion Y Rhws mewn ffordd a fyddai'n cyd-fynd â'r capasiti newydd yn y ddwy ysgol, neu y byddai'r ddwy ysgol yn rhannu'r dalgylch, a blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ysgol newydd ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r dalgylch.

**Mater 21**

**Tagfeydd Traffig yn Y Rhws**

Mynegwyd pryderon gan breswylwyr ynghylch tagfeydd traffig cynyddol yn ardal Y Rhws.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Cymeradwyodd y Cyngor ddatblygiad yn ardal Y Rhws fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol 2011 – 2026 y Cyngor.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r goblygiadau i draffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu ar gyfer yr ysgol. Fel rhan o'r broses ddylunio, byddai cynllun rheoli trafnidiaeth yn cael ei ddatblygu, a fyddai'n cynnwys mewnbwn gan swyddogion priffyrdd. Byddai darpariaeth barcio ar y safle yn cael ei hystyried wrth ddylunio'r ysgol newydd.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, cyflwynir cais cynllunio i adeiladu ysgol a fydd yn cynnwys 210 o leoedd ar y datblygiad newydd. Mae adran y priffyrdd yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio, a fydd yn cynnig sylwadau diduedd manwl am y cynnig. Byddai hyn yn cynnwys argymhellion pe byddai gofyn gwneud gwelliannau i rwydwaith y ffyrdd, oherwydd y byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu i'r ysgol o ardal Llancarfan, Llancatal a Llanbydderi.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cael cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer gwaith ar y priffyrdd ac ar gyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy mewn perthynas â'r datblygiad i'r gogledd-orllewin. Mae cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy yn cynnwys gwybodaeth, cyfleusterau, gwasanaethau neu brosiectau sy'n darparu neu sy'n gwella'r mynediad i gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, beiciau modur, tacsis neu'r rhai sy'n rhannu teithiau mewn car yng nghyffiniau'r safle ac o fewn terfynau ward Y Rhws. Bydd hyn yn cynnwys mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn Y Rhws.

Fel rhan o gais cynllunio, byddai asesiad o'r effaith ar draffig yn cael ei gynnal er mwyn ystyried pa welliannau y byddai angen eu gwneud i seilwaith presennol y ffyrdd.

Mae'r datblygiad newydd a lleoliad yr ysgol arfaethedig ar gyrion dwyrain Y Rhws a lleolir Ysgol Gynradd Y Rhws ymhellach tuag at ganol Y Rhws ar Ffordd Fontygary. Oherwydd y byddai mwyafrif y plant a fyddai'n mynychu'r ysgol yn byw yn ardal Y Rhws ac o fewn pellter cerdded i'r ysgol, rhagwelir y byddai rhieni yn ystyried cerdded eu plant i'r ysgol. Byddai'r ysgol yn datblygu cynllun teithio er mwyn lleihau nifer y teithiau mewn car gymaint ag y bo modd.

Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar rieni yn Y Rhws oherwydd y byddai rhai plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ac sy'n cael eu cludo yno gan rieni ar hyn o bryd, yn byw o fewn pellter cerdded i safle newydd yr ysgol. Mae plant sy'n byw yn Y Rhws o fewn pellter cerdded i leoliad Ysgol Gynradd Y Rhws a lleoliad arfaethedig safle newydd yr ysgol.

Cydnabyddir y byddai symud Ysgol Gynradd Llancarfan i safle newydd yn cynyddu'r traffig gan geir yn ardal Y Rhws. Fodd bynnag, mae seilwaith newydd y ffyrdd o gwmpas safle arfaethedig yr adeilad ysgol newydd mewn sefyllfa well i ddelio â'r traffig cynyddol nag y mae'r lonydd cul o gwmpas Llancarfan.

**Mater 22**

**Seilwaith**

Roedd gan breswylwyr bryderon y byddai mwy o geir yn teithio i'r Rhws. Gwelir diffyg seilwaith yn y pentref er mwyn cynnal y llif traffig cynyddol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r goblygiadau i draffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu ar gyfer yr ysgol.


Bydd cyfraniadau datblygwyr dan Adran 106 yn cynorthwyo datblygiadau i seilwaith y ffyrdd er mwyn lleihau effeithiau negyddol trafnidiaeth datblygiadau gymaint ag y bo modd o ganlyniad i ddatblygiadau cynllunio a gymeradwyir. Mae hwn yn fater y byddai'r adran gynllunio wedi ei ystyried wrth gymeradwyo datblygiadau tai.

Byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n byw yn ardaloedd Llancarfan, Llancatal a Llanbydderi trwy ddarparu dau fws mini a fyddai'n

gwasanaethu'r ardaloedd i'r ysgol, felly ni fyddai angen i rieni o'r ardaloedd hyn ddefnyddio'u trafnidiaeth eu hunain er mwyn cyrraedd yr ysgol yn Y Rhws. Gan bod 35% o'r disgyblion sydd eisoes yn mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan yn byw yn ardal Y Rhws, byddai rhieni yn llai tebygol o deithio mewn car, gan ystyried cerdded eu plant i'r ysgol. Ar hyn o bryd, mae 36 o blant yn mynychu Llancarfan o'r tu allan i'r dalgylch, o'r Barri, Llanilltud a'r Bont-faen, ac y maent yn debygol o barhau i gael eu cludo i'r ysgol gan eu rhieni, ac ystyrir y byddai hyn yn cael effaith fach iawn ar yr ardal.


Mae mapiau o'r llwybrau a awgrymir wedi cael eu cynnwys isod:

Llwybr o Lancarfan i'r safle arfaethedig:




Y pellter rhwng Llancarfan a'r safle arfaethedig yw tua 4.7 milltir.

Llwybr o Lanbydderi i'r safle arfaethedig trwy Llancatal:




Y pellter rhwng Llancarfan a'r safle arfaethedig yw tua 4.9 milltir.

Mae'r Cyngor wedi cael cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer gwaith ar y priffyrdd a chyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy mewn perthynas â'r datblygiad i'r gogledd-orllewin.

Mae cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy yn cynnwys gwybodaeth, cyfleusterau, gwasanaethau neu brosiectau sy'n darparu neu sy'n gwella'r mynediad i gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, beiciau modur, tacsis neu'r rhai sy'n rhannu teithiau mewn car yng nghyffiniau'r safle ac o fewn terfynau ward Y Rhws. Bydd hyn yn cynnwys mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn Y Rhws.

Mae Cynlluniau Teithio, Asesiadau Trafnidiaeth a Datganiadau oll yn ffyrdd o asesu a lleddfu effeithiau negyddol datblygiad ar drafnidiaeth gymaint ag y bo modd, er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Maent yn ofyniad ar gyfer pob datblygiad y mae ganddo y potensial i arwain at nifer sylweddol o symudiadau.

**Mater 23**

**Ehangu ar y safle presennol**

Cwestiynodd ymatebwyr pam nad oes modd i Lancarfan ehangu ar ei safle presennol. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi nad yw'r adeilad yn bodloni safonau adeiladu presennol ac maent yn awgrymu bod hyn yn gamarweiniol, oherwydd y bernir bod adeilad yr ysgol yn dda yn y ddogfen.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn cynnwys adeilad ysgol Fictoraidd gwreiddiol sy'n cynnwys dwy ystafell ddosbarth. Mae gan yr adeilad waliau cerrig solet a tho ar oleddf wedi'i orchuddio â llechi. Ceir dau floc ar wahân o ystafelloedd dosbarth dros

dro, un ystafell ddosbarth sengl ac un dwbl, y maent mewn cyflwr da. Yn ogystal, ceir bloc a adeiladwyd yn 2000 ac a estynnwyd yn 2006, sy'n darparu'r neuadd, ceginau, ystafell ddosbarth fach a lle i'r staff.

Mae'r ysgol ar safle bach a chaiff hyn ei wrthbwyso rhyw ychydig gan y defnydd a wneir o gyrtiau cyfagos y clwb tenis. Nid yw'r ysgol yn bodloni'r safonau adeiladu cyfredol ac ar ôl ystyried lleoliad a maint cyfyngedig y safle, nid oes modd disodli'r ysgol gydag adeilad newydd yn ei lleoliad presennol. Mae her ychwanegol yn ymwneud â'r mynediad anodd a gorlawn i'r ysgol trwy'r pentref a'r lonydd sy'n arwain i Lancarfan. Nid yw'r pedwar adeilad ar wahân a'r safle bach ar oleddf yn bodloni safonau canllawiau dylunio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ysgolion cynradd, a ddefnyddiwyd ar gyfer pob adeilad newydd a gwblhawyd trwy raglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain y Cyngor. Mae'r ysgolion hyn yn cynnwys adeilad un neu ddau lawr hollol hygyrch, sy'n darparu'r holl swyddogaethau addysgol gofynnol o fewn un adeilad wedi'i leoli ar dir sy'n bodloni anghenion y cwricwlwm presennol ar gyfer y safle allanol. Isod, gweler llun o Bentref Llancarfan a safle'r ysgol o'r awyr.



Ni ystyrir bod modd adeiladu estyniad ar gyfer yr ysgol am y rhesymau canlynol;

- Mae'r safle yn safle cyfyngedig ac yn rhy fach i fodloni gofynion. Mae Bwletin Adeiladu 99 (a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain) yn darparu fformwla er mwyn cyfrifo maint lleiaf safleoedd ysgolion. Ar gyfer 126 o blant, dylai maint gofynnol y safle fod rhwng 6736m2 a 7540m2. Fodd bynnag, mae safle'r ysgol yn llai na maint y safle a argymhellir, sef 3,700m2. Mae hyn yn cymharu â'r maint a argymhellir ar gyfer ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd, sef 10,000m2.

- Mae cyfran sylweddol o'r safle cyfyngedig ar oleddf hefyd, sy'n cyfyngu ymhellach ar y posibiliadau i ehangu'r ysgol ar y safle presennol neu i ddarparu meysydd chwaraeon neu safleoedd dysgu ychwanegol y tu allan ar safle'r ysgol. Byddai modd adeiladu adeilad aml-lawr ar y safle, ond nid yw hyn yn cyd-fynd ag edrychiad yr ardal, ac mae'n annhebygol iawn o sicrhau cefnogaeth yr adran gynllunio, neu breswylwyr lleol.

- Mae'r ysgol ar safle bach a chaiff hyn ei wrthbwyso rhyw ychydig gan y defnydd a wneir o gyrtiau cyfagos y clwb tenis. Nid yw'r pedwar adeilad ar wahân a'r safle bach ar oleddf yn bodloni safonau canllawiau dylunio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ysgolion cynradd, a ddefnyddiwyd ar gyfer yr holl adeiladau newydd a gwblhawyd trwy gyfrwng rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hunain.

- Mae Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cynnwys adeilad un neu ddau lawr hollol hygyrch, sy'n darparu'r holl swyddogaethau addysgol gofynnol o fewn un adeilad, ac wedi'i leoli ar dir sy'n bodloni anghenion presennol y cwricwlwm o ran safleoedd y tu allan. Ni fyddai modd sicrhau hyn o ystyried y cyfyngiadau presennol ar y safle yn Llancarfan. Er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofyniad y bodlonir protocolau adeiladu ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

- Nid oes digon o fynediad a lle ar y safle presennol er mwyn cynnal yr ysgol bresennol a chyflawni'r gwaith o adeiladu ysgol newydd ar yr un pryd.

**Mater 24**

**Safon Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain**

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod nifer o ysgolion cynradd yn debyg i Lancarfan, sef nad ydynt yn bodloni Safonau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystad addysgol ar draws Cymru. Mae'n gynllun cydweithio unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau.

Er bod cyflwr adeilad ysgol Llancarfan yn dda ac nid oes angen gwneud rhyw lawer o fuddsoddiad ynddo, nid yw'n bodloni gofynion dylunio ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Er nad yw ysgolion eraill yn bodloni safonau ysgolion yr Unfed ganrif ar Hugain, mae'r cynnig hwn yn gyfle i fanteisio ar gyllid er mwyn darparu adeilad ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan. Disgwylir i'r Cyngor gael cyllid cyfatebol Band B trwy gyfrwng Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer y cynnig.

**Mater 25**

**Maint yr Ysgol**

Cwestiynodd yr ymatebwyr ai ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd yw'r isafswm sy'n ofynnol er mwyn gwneud Cais am Grant yr Unfed Ganrif ar Hugain gan LlC. Mynegwyd pryder gan ymatebydd y gallai'r cynnig gael effaith niweidiol ar blentyn ac i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, oherwydd effaith y newid. Mae dosbarthiadau llai o faint yn cynorthwyo plant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn well. Mae ysgol fach yn cynnig budd i blant.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Nid yw'r Cyngor wedi awgrymu mai ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd oedd yr ysgol isaf o ran maint er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am grant gan LlC. Mae'r Cyngor yn deall yr ystyrir prosiectau yn ôl eu haeddiant, a bod yn rhaid iddynt ddangos eu bod yn strategol, yn fforddiadwy, bod modd eu cyflawni a'u bod yn cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth, gan gynnig gwerth am arian. Mewn siroedd gwledig fel Powys, lle y mae cymunedau gryn bellter o ysgol addas, byddai modd ystyried bod ysgol llai o faint yn hyfyw.

Mae'r Cyngor o'r farn mai adeilad sy'n cynnwys 210 o leoedd yw'r maint lleiaf o bersbectif effeithlonrwydd a chynaladwyedd. Byddai adeilad a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn gallu ymateb i'r cynnydd rhagamcanol mewn niferoedd disgyblion o'r datblygiad tai newydd yn Y Rhws, yn ogystal â'r niferoedd disgyblion rhagamcanol o Ysgol Gynradd Llancarfan.

Yn gyffredinol, mae ysgolion llai yn wynebu mwy o bwysau mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth, datblygu staff a chynllunio'r cwricwlwm. Po leiaf yw'r ysgol, y mwyaf heriol yw hi yn aml i'r athrawon gyfateb gwaith gydag anghenion dysgu pob disgybl.

Mae'r Cyngor o'r farn y byddai symud yr ysgol i safle mwy o faint gyda dalgylch newydd a fyddai'n cynnwys niferoedd cynaliadwy yn;

- Galluogi'r ysgol i sicrhau gwelliant pellach, gan gynnig darpariaeth ar gyfer poblogaeth mwy o faint o ddisgyblion.

- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol y gellir eu haddasu i newid, ac y byddant yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu potensial llawn.

- Cynyddu lefel mynediad y gymuned a rhyngweithio gyda'r gymuned trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol wrth fodloni anghenion yr ysgol.

- Sefydlu uned feithrin sy'n cynnig model darparu addysg mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain, sy'n bodloni safonau adeiladu cenedlaethol ac sy'n lleihau costau rheolaidd ac ôl troed carbon adeiladau addysg. Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau Rhagorol BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) a chaiff ei adeiladu mewn ffordd a fydd yn sicrhau sgôr AEPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).

- Datblygu ethos a diwylliant yr ysgol ymhlith plant iau, gan arwain at berthnasoedd rhyngbersonol effeithiol a lefelau hunan-barch uwch.

- Darparu dull gweithredu cyson i blant 3-11 oed er mwyn hyrwyddo a chynnig sylfaen ar gyfer parhad a dilyniant disgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.

- Byddai'r holl waith o gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm yn datblygu gwybodaeth a phrofiad blaenorol disgyblion, gan ennyn eu diddordeb.

- Cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a defnyddio eu gwybodaeth am bwnc mewn ffordd fwy cadarnhaol a chreadigol ar draws continwwm dysgu.

- Gwella'r trefniadau da sy'n bodoli eisoes ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion o oedran iau.

- Ymestyn a datblygu partneriaethau gyda theuluoedd o'r cyfle cynharaf er mwyn cryfhau'r pontio rhwng y cartref a'r ysgol.

Byddai'r broses o adnabod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u cynorthwyo yn parhau yn yr ysgol. Gan nad yw'r Cyngor yn cynnig cau'r ysgol, byddai'r staff o Ysgol Gynradd Llancarfan yn ymwybodol iawn o anghenion unigol disgyblion a byddent mewn sefyllfa i gydweithio'n agos gyda'r Cyngor yn ystod y cam dylunio er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn cynorthwyo pob disgybl, gan gynnwys y rhai y byddent yn cael budd o gael amgylchedd dysgu tawelach.

Byddai elfennau dylunio yn cael eu cynnwys yn yr ysgol megis ystafell fach rhwng pâr o ystafelloedd dosbarth, y byddai modd ei defnyddio ar gyfer dysgu unigolion / grwpiau bach neu y byddai modd ei defnyddio fel lle ymneilltuo pe byddai angen i ddisgybl adael yr ystafell ddosbarth. Byddai'r ysgol yn cynnwys lleoedd hyblyg y byddai modd eu haddasu trwy ddefnyddio dodrefn ar gyfer gweithgareddau penodol, y byddent yn cynnwys safleoedd tawel ar gyfer dysgu unigol. Byddai'r adeilad cyfan yn cael ei ddylunio mewn ffordd a fyddai'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol ar gyfer mynediad i'r anabl.

Mae unrhyw dystiolaeth bod cael dosbarthiadau llai o faint yn cael effaith ar gyrhaeddiad yn gyfyngedig. Dylanwadir ar gyrhaeddiad disgyblion sydd ag

Anghenion Dysgu Ychwanegol gan ansawdd yr addysgu a'r dysgu a'r cymorth y maent yn ei gael mewn perthynas â'u hanghenion. Nid yw maint dosbarthiadau neu faint ysgolion yn dylanwadu ar hyn. Mewn rhai achosion lle y mae gan blant anghenion cymhleth iawn, efallai y bydd gofyn iddynt gael lleoliadau mewn dosbarthiadau bach gyda lefelau uchel o gymorth gan oedolion, fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, byddai gofyn iddynt gael lleoliad yn un o ganolfannau adnoddau arbenigol yr ALl.

**Mater 26**

**Anghywirdeb mewn dogfennau**

Cwestiynodd ymatebydd y ffaith bod gwybodaeth wedi cael ei hepgor o'r ail ddogfen ymgynghori ynghylch newid i derfyn dalgylch Sain Tathan, y cyfeiriwyd ato yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Mae ffigurau a ddiweddarwyd ar gyfer St Nicholas a Llanfair yn wahanol yn yr ail ymgynghoriad.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Bu angen diweddaru'r holl ddata am ysgolion ar gyfer yr ail ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r data yn adlewyrchiad cywir o ddosbarthiad y disgyblion sy'n byw ar draws dalgylchoedd St Nicholas a Llanfair. Roedd camgymeriad yn y data yn y ddogfen gyntaf, sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng y ddau ffigwr. Y data a ddarparir yn yr ail ddogfen ymgynghori sy'n gywir.

Cynigir gwneud mân newid gwellhaol i ran bach o ffin dalgylch ysgol Gynradd Llancarfan i'r gogledd-orllewin er mwyn cynorthwyo'r newidiadau i ffin dalgylch Llanfair er mwyn cynnwys Sain Tathan. Nid yw hon yn ardal breswyl ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddisgyblion, ac nid yw'n ystyriaeth sy'n berthnasol i'r cynnig, ac nid yw'n cael unrhyw effaith ar niferoedd y disgyblion mewn unrhyw ysgol.

**Mater 27**

**Mae'n ysgol felyn sydd eisoes yn gwneud yn dda**

Cwestiynodd ymatebydd broses Llywodraeth Cymru er mwyn categoreiddio ysgolion. Mae Llancarfan yn Felyn. Mae hyn yn dystiolaeth bod yr Ysgol yn gwneud yn dda (uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru). Roeddent yn dymuno mynegi eu bod yn ei chael hi'n anodd gweld sut y mae modd gwella'r addysg yn yr ysgol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Gwerthuswyd y gallai Ysgol Gynradd Llancarfan gael budd o gael cymorth ychwanegol gan Gonsortiwm Canol De Cymru, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion eraill.

Mae gan yr ysgol y targedau canlynol er mwyn sicrhau gwelliant:

- Parhau i weithio ar gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n sicrhau Lefel 5

- Gweithredu strategaethau er mwyn sicrhau bod perfformiad disgyblion ar Lefel 5 yn uwch na'r canolrif ac yn unol â'r perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth.
- Gwella presenoldeb er mwyn symud i safle meincnod sy'n uwch na'r canolrif
- Parhau i weithio gydag ysgolion clwstwr er mwyn symud addysgu Da i ragorol
- Diweddaru ei hadroddiad Hunanwerthuso yn unol â'r safonau diweddaraf
- Datblygu trefniadau pontio gwell ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6
- Ymgysylltu â NACE er mwyn gwella'r arfer ar gyfer y rhai Mwy Abl a Thalentog ymhellach ar draws yr ysgol.

Dan y system genedlaethol er mwyn categoreiddio ysgolion, gosodir pob ysgol mewn un o bedwar categori cymorth (gwyrdd, melyn, oren neu wyrdd) ac mewn un o blith 4 grŵp er mwyn gallu sicrhau gwelliant, (A-D), gydag A yn cynrychioli'r un uchaf o ran y capasiti i sicrhau gwelliant. Mae'r categori cymorth yn pennu lefel y cymorth y mae'r ysgol ei gael gan Gonsortiwm Canol De Cymru. Yn 2017-18, gosodwyd Llancarfan yn y grŵp melyn, a barnwyd bod y gallu i sicrhau gwelliant yn B, ar ôl iddi fod mewn categori cymorth oren yn flaenorol. Yn 2017-2018, gosodwyd 28 o blith 56 o ysgolion ym Mro Morgannwg yng nghategori cymorth gwyrdd. Am wybodaeth bellach am y cynllun categoreiddio, trowch at y canllaw i rieni am y System Genedlaethol Categoreiddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru:
http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pd

**Mater 28**

**Cyfiawnhad gwael dros welliannau addysgol**

Nododd ymatebydd mai'r effaith fwyaf ar gyrhaeddiad addysgol plant yw ansawdd yr addysgu, nid y cyfleusterau, nid mynediad Wi-Fi. Ceir cyfiawnhad gwael dros y gwelliannau addysgol a nodwyd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae ansawdd yr addysgu yn bwysig iawn wrth gwrs, ac mae'n werth nodi bod y staff wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau bod yr amgylchedd dysgu sydd ar gael iddynt yn cynrychioli'r amgylchedd gorau y gall fod dan yr amgylchiadau. Un o fanteision ychwanegol y cynnig hwn yw y byddai gofyn i'r staff neilltuo llai o amser, creadigrwydd ac ymyrraeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio. Byddai hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio yn fwy ar gyflawniad, presenoldeb ac addysgeg, yn unol â'r targedau a restrwyd uchod.

Mae'r seilwaith a'r amgylchedd dysgu, gan gynnwys y cyfleusterau y tu mewn a'r tu allan a'r lle dysgu yn elfennau allweddol wrth gynorthwyo athrawon a dysgwyr. Adlewyrchir hyn yn nodau'r cwricwlwm cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ac yn uchelgais y Cyngor ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain sydd â mynediad llawn i dechnolegau'r Unfed Ganrif ar Hugain. Roedd Wi-Fi yn bwynt a drafodwyd yn ystod digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar, o ganlyniad i'r hanes gwael a fu yn Ysgol Llancarfan hyd yn hyn mewn perthynas â chysylltedd. Fodd bynnag, nid yw uchelgais y Cyngor i wella'r cyfleoedd er mwyn datblygu dysgwyr sy'n gymwys ar lefel ddigidol yn ymwneud â gwella mynediad Wi-Fi yn unig. Paratowyd FfCD er mwyn sicrhau datblygiad llythrennedd, cymhwysedd

a sgiliau digidol yn gynnar. "Cymhwysedd digidol yw'r set o sgiliau a'r wybodaeth a'r agweddau sy'n galluogi'r defnydd hyderus, creadigol a beirniadol o dechnolegau a systemau. Mae'n hanfodol i ddysgwyr os ydynt yn mynd i fod yn wybodus, yn alluog ac yn meddu ar y potensial i fod yn llwyddiannus yn ein cymdeithas heddiw." Bydd angen i syniadau am dasgau yn yr ystafell ddosbarth "newid a datblygu er mwyn adlewyrchu technolegau newydd a'r profiad a'r arbenigedd cynyddol o fewn y maes dysgu digidol". O fis Medi 2018, disgwylir y canlynol gan ysgolion:

- Y bydd ganddynt weledigaeth glir er mwyn darparu cymhwysedd digidol yn yr ystafell ddosbarth ar draws y cwricwlwm
- Y byddant wedi pennu cyfrifoldebau ar gyfer y staff dros ymgorffori cymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm
- Eu bod yn adolygu'r gofynion o ran caledwedd a meddalwedd ac anghenion dysgu proffesiynol staff yn barhaus
- Eu bod yn mapio cymhwysedd digidol yn erbyn adran/ blwyddyn y cwricwlwm presennol
- Y byddant wedi cynllunio ar gyfer ac yn darparu datblygiad proffesiynol i staff mewn perthynas â chymhwysedd digidol, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol.

Mae canllawiau FfCD Mehefin 2018 yn nodi "o fis Ionawr 2020, bydd y trefniadau asesu a'r cwricwlwm newydd ar gael. Bydd disgwyliadau digidol yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm newydd a bydd ysgolion a lleoliadau yn:

- cymharu dulliau gweithredu presennol tuag at weithredu FfCD gyda'r cwricwlwm newydd
- ymgorffori cymhwysedd digidol ar draws cwricwlwm yr ysgol
- rhannu arfer da o fewn yr ysgol a thu allan yr ysgol
- ymgysylltu â'r cyngor ysgol a gyda llais y disgybl
- gwerthuso sut y mae'r dull gweithredu presennol tuag at gymhwysedd digidol yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd.

O fis Medi 2022, bydd lleoliadau ac ysgolion yn darparu cymhwysedd digidol ar sail trawsgwricwlaidd. Byddant:

- wedi ymgorffori cymhwysedd digidol ar draws cwricwlwm yr ysgol
- yn parhau i addasu dulliau gweithredu cymhwysedd digidol presennol i'r cwricwlwm newydd
- yn parhau i adolygu a mireinio'u dull gweithredu tuag at gymhwysedd digidol.

Felly mae darparu'r adnoddau a'r technolegau priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cynorthwyo dysgwyr i fodloni amcanion y fframwaith yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adeiladau ysgol newydd fel rhan o'n strategaeth ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**Safonau ac Adroddiad Estyn**

**Mater 29**

Dywedodd ymatebydd nad oes unrhyw beth yn adroddiad arolygiad Estyn sy'n awgrymu bod gofyn symud i safle newydd neu y byddai gwneud hynny o fudd wrth fodloni'r meysydd a nodwyd er mwyn gwella'r ysgol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae gan Estyn gyfrifoldeb dros adrodd am eu canfyddiadau mewn ysgol. Nid oes gofyn iddynt argymell y dylid symud i safle newydd. Maent, fodd bynnag, wedi cydnabod yn eu hymateb i'r cynnig hwn "nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau a nodir yn y fframwaith statudol ar gyfer adeiladau ysgol a dylunio yng Nghymru, a bod y llwybrau trwy'r pentref a'r lonydd er mwyn cyrraedd yr ysgol yn orlawn." Yn ogystal, maent yn cydnabod bod "maint safle yr ysgol yn gyfyngedig".

**Mater 30**

Ymholiad gan ymatebydd- mae adroddiad diweddaraf Estyn yn amlygu'r ffaith bod disgyblion yn gwneud defnydd da o gyfoeth yr ardaloedd allanol. Mae'r adroddiad yn nodi bod "yr amgylchedd dysgu yn amrywiol ac yn ysgogol", ac roedd archwiliad y Cyngor o ystad yr ysgol yn disgrifio safle presennol Llancarfan fel safle sydd mewn "Cyflwr Da".

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Cydnabyddir bod y staff a'r disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r safle yn Llancarfan yn heriol, fodd bynnag, a cheir enghreifftiau o'r athrawon yn cael anhawster wrth reoli darpariaeth y cwricwlwm. Amlinellwyd pryderon TGCh ym mater 27, ac mae enghraifft arall yn ymwneud â chwaraeon. Cafwyd adborth yn ystod y digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar ynghylch yr anawsterau wrth addysgu rhai chwaraeon tîm fel Criced ar gwrt tenis cyfyngedig. Yn ogystal, mae cyfyngiadau safle'r ysgol yn golygu y bu'n rhaid i staff osod matresi yn erbyn y waliau am resymau iechyd a diogelwch yn ystod y diwrnod mabolgampau er mwyn atal disgyblion rhag rhedeg i mewn i waliau ac anafu eu hunain yn ystod rasys. Budd ychwanegol y cynnig hwn yw y byddai'r amgylchedd dysgu a fyddai'n cael ei ddarparu yn yr adeilad ysgol newydd yn gofyn am lai o ymyrraeth gan staff er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio. Byddai hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio'n fwy ar gyflawniad, presenoldeb ac addysgeg.

**Mater 31**

Ymholiad gan ymatebydd- Nid yw symud i adeilad newydd yn gwarantu y bydd ansawdd safonau'r addysg yn gwella. Mae newid yn peri risg i'r safonau da presennol, nad oes modd ei gyfiawnhau. Dywedodd ymatebydd na fyddent yn dymuno i addysg plant gael ei effeithio yn ystod y cyfnod pontio wrth adeiladu ysgol newydd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu model dylunio Adeiladu Optimwm ar gyfer adeiladu ysgolion newydd ar draws Bro Morgannwg. Mae ansawdd yr amgylchedd lle'r ydym yn dysgu yn cael effaith gref iawn ar y deilliannau addysgol a gyflawnir gan ddisgyblion yn yr ysgol.

Mae'r dull dylunio optimwm yn rhoi'r amgylchedd dysgu wrth wraidd yr adeilad, gan gynnig datrysiadau hyblyg o ran cynllun a dyluniad ystafelloedd dosbarth. Mae dyluniad yr ysgol yn bodloni gofynion Rhagorol BREEAM. Mae dyluniad adeiladau carbon isel yn lleihau cyfanswm yr ynni a ddefnyddir gymaint ag y bo modd trwy wella perfformiad amlen yr adeilad, yn ogystal â gwneud y defnydd mwyaf ag y bo modd o olau dydd naturiol ac awyru, gan ychwanegu at integreiddiad ehangach amrediad o dechnolegau carbon isel a dim carbon. Mae gan y dyluniad optimwm yr hyblygrwydd o ran ei ddyluniad i greu amgylcheddau dysgu nad ydynt yn cynorthwyo ac yn gwella'r deilliadau a'r profiad dysgu yn unig, ond hefyd, mae'n ddatrysiad cost-effeithiol i ddyluniad ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain.

**Mater 32**

Pan fydd ysgolion yn uno, ceir tystiolaeth bod safonau yn aml yn oedi neu'n llithro'n ôl. Felly, ni all y Cyngor warantu y bydd y cynnydd a'r safonau addysgol yn gwella yn yr ysgol newydd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Ceir rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod gostyngiad yn gallu digwydd yn y perfformiad pan fydd dwy ysgol neu fwy yn uno. Nid yw hon yn agwedd ar y cynnig hwn. Ym Mro Morgannwg, yn ein profiad ni, pan fydd ysgolion yn cael adeiladau newydd, mae hyn wedi arwain at welliant o ran y safonau.

Byddai'r cynnig hwn yn cynorthwyo arweinyddiaeth yr ysgol trwy barhau i fod yn effeithiol ac yn gyson iawn, gan ddatblygu dulliau gweithredu er mwyn cynorthwyo dysgu trwy gydol y cyfnod pontio. Byddai hyn yn cynnwys gwaith cynllunio gofalus cyn y cyfnod pontio arfaethedig ac yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn osgoi unrhyw risg o ran tynnu sylw a allai effeithio ar ddeilliannau addysgol.

**Mater 33**

Adroddodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (Hydref 2017) bod "y dystiolaeth am y graddau y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r manteision ehangach a fwriadwyd ganddi yn llai clir […] mae'r dystiolaeth ynghylch cyrhaeddiad yn aneglur. Mae'n anodd cadarnhau cyswllt achosol rhwng adeiladau ysgol a chyrhaeddiad addysgol. Mae cyflawniadau ysgol o ganlyniad i'r ysgol fach, y teimlad cymunedol a'r cysylltiadau gyda'r pentref prydferth.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Gyfalaf Addysg ac Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain er mwyn creu "amgylcheddau dysgu a gynlluniwyd i wella darpariaeth addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hon yn rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr a strategol dros y tymor hir, ac maent yn nodi mai ei nod yw darparu:

- Amgylcheddau dysgu yng Nghymru a fydd yn galluogi gweithrediad llwyddiannus strategaethau er mwyn sicrhau gwelliant a deilliannau addysg gwell
- Mwy o ddarbodaeth ac effeithlonrwydd ar gyfer amgylcheddau dysgu trwy wneud defnydd gwell o adnoddau
- System addysg gynaliadwy yng Nghymru sy'n bodloni safonau adeiladu cenedlaethol ac sy'n lleihau costau rheolaidd ac ôl troed carbon adeiladau addysg.

Mae ail don y buddsoddiad yn mynnu bod y Cyngor yn bodloni'r amcanion buddsoddi canlynol:

- rhoi sylw i'r twf yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- gostyngiadau mewn lleoedd gwag ac aneffeithlonrwydd yn y system;
- ehangu ysgolion mewn ardaloedd lle y gwelir mwy o alw am wasanaethau addysgol;
- rhoi sylw i gyflwr asedau addysgol; a
- sicrhau bod asedau ar gael at ddefnydd cymunedol pan welir y galw am hyn.

Caiff y datganiad gan yr archwilydd cyffredinol y cyfeiriwyd ato gan ymatebwyr, ei wneud yn ei adroddiad am Ysgolion yr Unfed Ganrif a'r Hugain a'r Rhaglen Addysg a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, y mae modd troi ato trwy'r ddolen ganlynol:
http://www.audit.wales/system/files/publications/21st%20century%20school%20-%20English.pdf

Isod, nodir y dyfyniad perthnasol o'r adroddiad:

*Nid yw'r Cyswllt rhwng cyflwr ysgol a gwella cyrhaeddiad addysgol yn glir ond gallai buddsoddiad yn y dyfodol ddysgu o'r gwaith ymchwil sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ac mewn mannau eraill.*

*2.26 Nododd Llywodraeth Cymru ar y dechrau y dylai'r Rhaglen arwain at gyrhaeddiad addysgol gwell. Ar yr adeg hon, mae'n rhy gynnar i asesu pa effaith, os o gwbl, y mae'r rhaglen wedi'i chael ar gyrhaeddiad. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar gyrhaeddiad dysgwyr, ac mae ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth yn effeithio arno yn arbennig. O ganlyniad, bu'n anodd cadarnhau'r berthynas achosol rhwng ansawdd adeiladau a chanlyniadau dysgu. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil academaidd a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Brifysgol Salford – Prosiect Clever Classrooms – wedi dechrau darparu tystiolaeth o'r cyswllt rhwng yr amgylchedd dysgu ffisegol (golau, lliwiau, arddangos gwaith ac ati) a*

*chynnydd academaidd disgyblion. Dangosodd yr ymchwilwyr y gall ystafell ddosbarth a gynlluniwyd yn dda roi hwb o hyd at 16% mewn un blwyddyn i'r cynnydd a gaiff ei sicrhau wrth ddysgu ymhlith disgyblion cynradd. Gall y gwaith ymchwil hwn gyfrannu at ddyluniad ysgolion newydd yn y dyfodol. Bydd dull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru tuag at werthuso ar ôl symud yn darparu mwy o dystiolaeth o unrhyw gyswllt rhwng dyluniad a chyrhaeddiad yr ysgol trwy gysylltu data am yr ysgol gyda deilliannau addysgol.*

Mae'n amlwg y gwneir yr arsylwadau uchod mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, yn hytrach na phrosiectau unigol Awdurdodau Lleol. Roedd Bro Morgannwg wedi pennu targedau ar ôl symud ar gyfer y cynlluniau a gynhaliodd dan Fand A y rhaglen, ac mae wedi monitro'r deilliannau. Bodlonwyd mwyafrif y targedau ar gyfer cynlluniau unigol, er y cydnabyddir bod gwella cyrhaeddiad yn ddibynnol iawn ar arweinyddiaeth effeithiol ac ansawdd yr addysgu, ac na ellir ei briodoli i adeilad yr ysgol yn unig.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi targedau presennol yr ysgol er mwyn sicrhau gwelliant, ac mae'n esbonio sut y byddai'r cynnig yn cynorthwyo'r ysgol i wella.

**<u>Mater 34</u>**

Mynegwyd pryder gan ymatebydd am yr amgylchedd addysg ar y safle arfaethedig o ystyried y llygredd i'r aer a'r sŵn sy'n dod o Faes Awyr Caerdydd.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae sŵn ac ansawdd yr aer yn faterion a ystyriwyd yn ystod y broses o bennu'r cais cynllunio ar gyfer y datblygiad preswyl a'r ysgol newydd – Cyfeirnod y cais 2014/00550/OUT. Er gwaethaf y ffaith nad yw'r ardal o fewn ardal ansawdd aer arbennig neu reolaeth ansawdd sŵn, cyflwynwyd asesiad o ansawdd yr aer gyda'r cais cynllunio, ynghyd ag asesiad sŵn a dirgryndod. Ystyriwyd y dogfennau hyn yn ystod y cais ac ni wnaeth adran Iechyd yr Amgylchedd (Rheoli Llygredd) y Cyngor (Cydwasanaethau Rheoliadol bellach) unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad ar ôl ystyried canfyddiadau'r adroddiadau hyn. Gellir gweld y cais, y dogfennau perthnasol ac adroddiad y swyddog trwy droi at gofrestr Cynllunio y Cyngor, sef: http://vogonline.planning-register.co.uk/Plastandard.aspx

**<u>Mater 35</u>**

**Meithrin**

Nododd ymatebwyr nad oes gan Lancarfan ddarpariaeth feithrin ac nad yw hyn wedi effeithio ar addysg ei disgyblion. Mae Estyn yn nodi bod 'bron pob disgybl yn sicrhau cynnydd da o'u man cychwyn', gan awgrymu felly nad yw'r ffaith bod y disgyblion yn dod o ddarpariaethau meithrin amrywiol yn effeithio ar eu haddysg.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Bydd y cynnig hwn yn datblygu parhad a dilyniant yn nysgu plant o'r adeg pan fyddant yn dair oed. Byddai dull cyson tuag at gynllunio a darparu'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) yn cael ei wella trwy sefydlu uned feithrin. Byddai modd ymgorffori'r dull holistig a ddatblygwyd yn dda eisoes o oedran iau.

Fel rhan o'u hymateb i'r ymgynghoriad, mae Estyn wedi nodi "Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys darpariaeth feithrin yn cynorthwyo parhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu disgyblion o'r oedran cyn mynychu'r ysgol i oedran ysgol statudol. Mae ychwanegiad cyfleusterau y tu allan yn debygol o wella lles disgyblion trwy gynnig cyfleoedd gwell iddynt ddatblygu eu hiechyd a'u sgiliau corfforol. Yn ogystal, mae mynediad i ddarpariaeth o ansawdd uchel y tu allan yn un o brif egwyddorion addysgeg y cyfnod sylfaen".

**<u>Mater 36</u>**

**Mwy o faint**

Trwy gynyddu nifer y disgyblion mewn ysgol, nododd un ymatebydd nad yw'r Cyngor wedi rhoi pwys digonol i'r colledion a fydd yn deillio o hyn. Mewn ysgol mwy o faint, gwasgarir y cyfleoedd hyn ar draws nifer uwch o blant, felly bydd pob unigolyn yn gwneud llai ac yn dysgu llai.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Maint yr adeilad ysgol newydd arfaethedig yw safle sy'n cynnig lle i 210 o ddisgyblion ac uned feithrin sy'n cynnwys 48 o leoedd. Caiff hon ei diffinio fel ysgol o faint canolig yn adroddiad Estyn, "Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol" Rhagfyr 2013, lle y nododd bod "ysgolion bach yn wynebu mwy o bwysau mewn meysydd megis arweinyddiaeth a rheolaeth, datblygiad staff a chynllunio'r cwricwlwm". Bydd ysgol mwy o faint yn gallu cynnig cwricwlwm ehangach a mwy o amrediad o ran y cyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion. O adroddiad Estyn a ddyfynnwyd uchod, roeddent yn cydnabod bod y perfformiad ar lefel 5 yn CA2 ychydig yn well mewn ysgolion mwy nag y mae mewn ysgolion bach; mae gwella'r perfformiad ar lefel 5 yn un o brif flaenoriaethau'r ysgol er mwyn sicrhau gwelliant. Yn 2017-2018, cynhaliwyd 8 o arolygiadau ar ysgolion cynradd yn y Fro. Mae'r 8 ysgol dan sylw yn ysgolion canolig neu fawr a nodwyd arfer rhagorol mewn 6 o blith yr 8 ysgol.

**<u>Mater 37</u>**

**Addysgu oedrannau cymysg**

Gall addysgu oedrannau cymysg gynnig nifer o fanteision. Bydd nifer o blant yn ffynnu mewn grwpiau blwyddyn cymysg yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Roedd disgyblion wedi cael budd o'r amgylchedd llai y mae ysgol bentref yn ei gynnig, gyda dosbarthiadau llai.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Ceir tystiolaeth o berfformiad a deilliannau da yn Llancarfan, y cyfeiriwyd atynt yn yr Adroddiad Ymgynghori. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod bod dosbarthiadau

oedrannau cymysg yn dwyn sialensiau i athrawon, yn enwedig mewn ysgolion llai. Mae Estyn wedi nodi yn flaenorol yn eu hadroddiad “Maint Ysgolion ac Effeithiolrwydd Addysgol” (Rhagfyr 2013) nad yw ysgolion llai “yn gwneud cystal ag ysgolion eraill yn gyffredinol ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth, datblygiad staff a chynllunio'r cwricwlwm.” Daethant i'r casgliad hefyd “po leiaf yw'r ysgol, y mwy heriol yw hi yn aml i'r athro gyfateb y gwaith gydag anghenion dysgu pob disgybl.” Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i ddosbarthiadau oedrannau cymysg. Trwy gynyddu maint yr ysgol i ysgol mynediad un dosbarth gyda rhif derbyn a gyhoeddir o 30 fesul grŵp blwyddyn, byddai'r gofyniad am ddosbarthiadau oedrannau cymysg yn lleihau wrth i boblogaeth yr ysgol dyfu.

**<u>Mater 38</u>**

**Ethos ysgol fach / ysgol wledig**

Mynegwyd pryderon o ran cael gwared â'r dewis i rieni sy'n awyddus i gael addysg mewn ysgol fach wledig. Mae buddion addysg wledig yn dra hysbys. Mae disgyblion yn gwneud defnydd helaeth o'r cyfoeth o ardaloedd awyr agored eang sydd ar gael (e.e. coetiroedd, tiroedd fferm, pyllau ac ati).

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod y bydd gan rieni nifer fawr o ffactorau i'w hystyried wrth wneud cais am ysgol ar gyfer eu plentyn. Ar gyfer rhieni sy'n dymuno ysgol wledig, mae ysgolion eraill mewn lleoliadau gwledig y gallai rhieni ddewis megis Llan-gan, Llanfair, Pendeulwyn, Llanbedr y Fro, Llansanwyr, St David's, Y Wig a Marcroes ac Ysgol Gynradd Sant-y-brid yr Eglwys yng Nghymru. Gall rhieni wrth gwrs fynegi dewis dros ysgol benodol ac mae'r Cyngor yn falch iawn o'r ffaith bod mwy na 90% o rieni yn llwyddo i gael lle yn yr ysgol sy'n ddewis cyntaf iddynt. Fodd bynnag, ni ellir sicrhau y cynigir lle i'r ysgol sydd ar frig rhestr pob plentyn, hyd yn oed os yn cyflwyno cais yn brydlon.

Fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer adeiladau ysgol newydd, bydd pob safle ysgol newydd yn cynnwys ardal goedwig er mwyn sicrhau bod y profiad dysgu yn manteisio i'r eithaf ar yr awyr agored. Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Goedwig Cymru i sicrhau bod darpariaeth Ysgol Goedwig gynaliadwy ar gael a gefnogir gan rwydwaith genedlaethol a fydd yn meithrin y gwaith o ddatblygu projectau, cynnig cyngor, darparu adnoddau, llywio arfer gorau a pharhau i gynnig datblygiad proffesiynol parhaus yn yr ysgol.

Mae nifer o enghreifftiau o ysgolion modern sydd ag ardaloedd awyr agored effeithiol dros ben sy'n cael eu defnyddio'n arbennig o dda er budd dysgu ac addysg disgyblion. Yn y Fro, Ysgol y Ddraig yw'r ysgol gynradd ddiweddaraf i'w hadeiladau ac, o fewn llai da dwy flynedd, mae arweinwyr a staff yr ysgol wedi llunio ardaloedd dysgu awyr agored effeithiol dros ben.

**Adeilad ysgol newydd a deilliannau addysgol gwell**

**<u>Mater 39</u>**

Gwnaed cyfeiriad at siaradwr (Dr Chris Llewelyn) ym Mhwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cymru a ddywedodd “mae'n anodd cadarnhau cysylltiad achosol rhwng ysgolion newydd a chanlyniadau addysgol gwell ond... po fwyaf y mae cymunedau’n cymryd rhan ym mywyd ysgol ym mhob ffordd, yna mae hynny yn cael effaith gadarnhaol ar y deilliannau." Ychwanegodd ymatebwr bod y Cyngor yn bwriadu anwybyddu tystiolaeth gadarn o’r cysylltiad rhwng cyflawniad addysgol a ddaw yn sgil ymwneud gan y gymuned drwy gau Ysgol Gynradd Llancarfan.

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a fynegwyd**

Cynhaliwyd y cyfarfod o’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y cyfeiriwyd ato ar 11 Mehefin 2018. Mae’r Pwyllgor, ar ôl ystyried yr adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, wedi gofyn am dystiolaeth gan Lywodraeth Leol. Roedd Dr Chris Llewelyn (Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) a Paula Ham (Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg) yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau. Gellir gweld y sesiwn drwy’r ddolen isod:

http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/de75bb6c-6118-4114-81eb-73cbb43d4eb9?autostart=True

Roedd aelod o’r Pwyllgor wedi gofyn cwestiwn am hygyrchedd i ddisgyblion a mynediad y gymuned i ysgolion. Yn benodol roedd hi am wybod beth yw'r rhwystrau i sicrhau bod ysgolion yn hygyrch a sut y gall Ysgolion yr 21ain Ganrif oresgyn y rhwystrau hynny. Atebodd Paula Ham y cwestiwn yma.

Gofynnwyd cwestiwn pellach i Dr Chris Llewelyn:

“Ydych chi’n creu y byddai CLlLC yn croesawu cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru parthed dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gyda golwg ar wneud adeiladau’n fwy hygyrch neu a ydych chi o’r farn fod y sefyllfa sydd ohoni yn dderbyniol?".

Ymateb Dr Chris Llewelyn:

“Byddai’n rhaid i mi ystyried hwnnw. O ran galluogi’r gymuned i ddefnyddio ysgolion, ar y dechrau roedd hynny’n uchelgais yn y rhaglen oherwydd graddfa'r buddsoddiad i lawer o gymunedau. Ysgol gynradd £5 miliwn neu ysgol uwchradd £20 miliwn yw'r mwyaf y gallant ei chael yn eu cymuned ac felly byddwch am sicrhau eich bod yn cael y budd mwyaf posibl o'r buddsoddiad hwnnw a cheisio cyfuno cynifer o gronfeydd buddsoddi mor effeithiol â phosibl. Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, nodir ei bod yn anodd cadarnhau cysylltiad achosol rhwng ysgolion newydd a chanlyniadau addysgol, ond mae tystiolaeth yn dangos po fwyaf y mae cymuned yn cymryd rhan ym mywyd ysgol ym mhob ffordd yna bod hynny'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau".

Mae sylw Dr Llewelyn yn cyfeirio at ddefnydd cymunedau ar ysgolion. Yn ôl yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned dim ond yn achlysurol iawn y mae'r ysgol yn cael ei defnyddio (2 achlysur y flwyddyn). Er bod nifer fach o wirfoddolwyr yn helpu yn yr ysgol, nid yw mynediad a chyfraniad y gymuned wedi ei ddatblygu’n llawn.

**Mater 40**

Bydd yr ysgol yn colli cefnogaeth gwirfoddolwyr o'r pentref a'r ardaloedd cyfagos.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Byddai Corff Llywodraethu ac uwch arweinyddion yr ysgol yn cael eu hannog i ddal gafael yn y cysylltiadau hyn â'r gymuned a sefydliadau pan fo'r rheiny yn cefnogi'r ethos a'r gwaith o reoli'r ysgol yn gadarnhaol. Bydd gwirfoddolwyr yn dal i allu cefnogi'r ysgol ar ei safle newydd a byddant yn cael eu hannog i wneud hynny. Mae'r ysgol wedi dweud mai ychydig iawn o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol, ac eithrio'r Corff Llywodraethu.

**Mater 41**

Codwyd effaith colli defnyddio'r ysgol ar gyfer cyfleusterau a digwyddiadau lleol (ras hwyaid, sioe'r pentref) gan lawer o ymatebwyr. Roedd rhai yn teimlo y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar fusnesau, clybiau a chymdeithasau, gan gynnwys yr eglwys.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn cydnabod y byddai hyn yn cael rhywfaint o effaith negyddol ar y gymuned a busnesau lleol. Cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i gael rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r mater hwn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi ein cymunedau a bydd yn ceisio cydweithio â'r sefydliadau a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i liniaru unrhyw effaith negyddol. Byddai Corff Llywodraethu'r ysgol hefyd yn cael ei annog i ddal gafael yn y cysylltiadau hyn â'r gymuned a sefydliadau pan fo'r rheiny yn cefnogi'r ethos a'r gwaith o reoli'r ysgol yn gadarnhaol. Byddai Ysgol Gynradd Llancarfan ar ei safle newydd yn rhydd i ddewis a pharhau'r berthynas gref â chymuned Llancarfan i leihau'r effaith. Mae 8 llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Llancarfan sy'n byw ym mhentref Llancarfan. Bydd hyn yn cynorthwyo â'r gwaith o ddal gafael yn y cysylltiad â'r gymuned.

Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, byddai'r Cyngor hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol ac aelodau'r gymuned i gefnogi busnesau a digwyddiadau lleol gan gynnwys, pan fo'n briodol, rhoi gwybodaeth ar wefan yr ysgol. Byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi cymuned Llancarfan drwy ei fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, lle y mae'r Cyngor yn cefnogi cymunedau a mentrau i ddatblygu projectau a syniadau arloesol a fydd yn creu buddiannau cymdeithasol ac economaidd hirdymor.
Mae'r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned tuag at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i ategu gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf gyda dyfodol disglair". Mae gan y gronfa gyfanswm o £672,000 o arian grant am dair blynedd tan fis Mawrth 2020. Nod y gronfa yw:

- Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy ariannu gweithgareddau sy’n ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol a lleihau eu dibyniaeth ar arian grant yn y dyfodol.

- Cynnig arian cychwynnol tuag at fentrau sy’n dangos eu bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

- Gwneud gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i lunio cynigion ar gyfer gweithgareddau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.

- Talu costau cyfalaf cynlluniau drwy brynu peiriannau, offer neu asedau eraill.

- Gwneud gwaith a fyddai’n galluogi darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial i greu incwm.

- Gwneud cyllid Adran 106 yn agored i gymunedau penodol pan fo datblygiadau wedi'u cyflawni. Caiff cyllid ar gyfer cyfleusterau a phrojectau mannau agored mewn ardaloedd penodol eu cyhoeddi wrth agor pob rownd i geisiadau.

- Cefnogi projectau bach ac arloesol.

Cynnig addysg yw’r cynnig hwn sy’n ceisio mynd i’r afael â phroblemau penodol yn ymwneud â nifer y lleoedd ysgol yng Ngorllewin y Fro. Prif ddiben ysgol yw addysgu disgyblion i’r safonau gorau, ac nid yw’n rhesymol disgwyl i ysgolion a disgyblion gario baich ehangach yr effaith ar y gymuned. Yn y pen draw, nid yw ffactorau economaidd a chymdeithasol yn faterion addysgol, ac ni ellir caniatáu iddynt gyfaddawdu addysg plant. Byddai’r Cyngor, fodd bynnag, yn parhau i gefnogi’r cymunedau dan sylw mewn gwahanol ffyrdd, petai’r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, er mwyn sicrhau y bydd unrhyw effaith niweidiol a nodwyd yn cael ei lliniaru.

**Cryfder teimladau’r gymuned**

**<u>Mater 42</u>**

Mae’r Cyngor yn anwybyddu teimladau dwys a chryf y gymuned a’r cysylltiad rhyngddi â'r ysgol.

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a fynegwyd**

Mae’r Cyngor hwn yn deall teimladau’r gymuned o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae’r Cyngor wedi ystyried yr effaith ar y gymuned yn ofalus ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd gan y Cyngor, yn benodol yng nghyd-destun y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.
Y brif swyddogaeth yw addysgu plant i’r safonau gorau posib, a darparu adeiladau ysgol sy'n bodloni safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae’r cynnig yn cyflwyno model mwy effeithlon a chynaliadwy gyda golwg ar wella’r gwaith o ddarparu addysg ar gyfer y 21ain Ganrif.

Mae’r Cyngor wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bartïon â diddordeb ymgysylltu fel rhan o'r broses ymgynghori er mwyn cael adborth ar y cynnig. Mae’r adborth a gyflwynwyd hyd yn hyn wedi bod yn werthfawr dros ben, wedi'i ystyried yn ofalus ac wedi'i grynhoi yn yr adroddiad hwn ac yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb. Caiff yr holl adborth gan unigolion a sefydliadau ar y wybodaeth ychwanegol ei ystyried cyn y bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau fod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu’r weledigaeth hon. Mae’r ymarfer ymgynghori diweddar yn edrych ar y ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro wedi bod yn werthfawr ac yn bwysig o ran llywio’r camau nesaf.

**Ethos a maint ysgol**

**<u>Mater 43</u>**

Mae ethos a maint ysgol fach wedi denu teuluoedd i’r ardal.

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a fynegwyd**

Mae’r ffaith bod rhai rhieni wedi dewis anfon eu plant i Lancarfan yn sgil ei hethos a'i maint fel ysgol fach yn cael ei gydnabod. Fodd bynnag, mae’r heriau sy’n gysylltiedig â gormod o leoedd gwag mewn ysgolion yn bryder gwirioneddol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, ar gyfartaledd mae 4 o blant wedi cael eu geni yn nalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan bob blwyddyn o gymharu â’r 18 o leoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn. Mae gan yr ysgol boblogaeth o 55 o blant yn y dalgylch ac 126 o leoedd. Dim ond 29 o’r 55 o blant oedran cynradd sy’n byw yn y dalgylch sy’n mynychu’r ysgol. Mae’r ysgol yn gweithredu gyda 25 o leoedd gwag (19.8%) a fydd yn cynyddu i 28 o leoedd gwag (22%) dros y cyfnod pum mlynedd nesaf. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r pryderon o ran nifer y lleoedd gwag, nod y cynnig hwn yw cadw disgyblion, staff a llywodraethwyr presennol, a thrwy hynny gadw gwerthoedd ac ethos presennol yr ysgol.

**Prisiau tai**

**<u>Mater 44</u>**

Byddai’r adleoli a gynigir yn cael effaith andwyol ar brisiau tai.

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a fynegwyd**

Nid yw’r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth mai dyna fydd y sefyllfa.

Mae lleoliad gwledig yn atyniadol i rai pobl oherwydd nifer fawr o ffactorau. Mae’r adborth ddaeth i law fel rhan o’r ymgynghoriad yn awgrymu na fyddai Llancarfan yn ddeniadol i deuluoedd mwyach oherwydd safle’r ysgol newydd. Fodd bynnag, mae’r

Cyngor yn nodi bod nifer o gymunedau cryf ledled Bro Morgannwg nad ydynt o fewn pellter cerdded i ysgol sy’n ddeniadol dros ben i deuluoedd. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan boblogaeth Llandŵ, Sain Dunwyd a Llanddunwyd oed cymedrig tebyg i Lancarfan, er nad oes ysgol gynradd yn y pentref.

**Gwasanaethau Cyngor / Treth Gyngor**

**Mater 45**

Tynnu gwasanaeth arall o’r ardal (eisoes yn talu Treth Gyngor uchel)

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a fynegwyd**

Bydd darpariaeth addysg gynradd yn parhau i fod ar gael i'r holl drigolion; nid yw’r gwasanaeth hwn yn cael ei dynnu’n ôl. Bydd Ysgol Gynradd Llancarfan yn parhau i fod yn ysgol y dalgylch ar gyfer pentref Llancarfan. Gan nad yw’r gymuned yn defnyddio adeilad yr ysgol, ni fyddai colli’r ysgol fel cyfleuster cymunedol yn cael unrhyw effaith o gwbl.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

**Mater 46**

Roedd ymatebwr yn teimlo bod y Cyngor wedi methu ag ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a fynegwyd**

Nid yw'n amlwg i ba raddau y mae'r trigolyn dan sylw yn credu nad yw'r cynnig yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno fframwaith o saith nod ddatblygu a diogelu llesiant cymdeithasol, economaidd, datblygiadol a diwylliannol Cymru a phum dull o weithio i sicrhau datblygiad cynaliadwy.

Mae’r ffordd y mae amcanion llesiant y Cyngor yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2016 – 2020. Mae pedwar nod llesiant yn darparu'r fframwaith ar gyfer rhaglen weithgareddau'r Cyngor. Mae'r Rhaglen Ad-drefnu Ysgolion a Buddsoddi yn dod o dan y canlyniad llesiant: Bro Uchelgeisiol a Bywiog ei Diwylliant - Mae holl ddinasyddion Bro Morgannwg yn cael cyfleoedd i gyrraedd eu llawn botensial. Mae dau amcan yn dod o dan y canlyniad hwn: Codi safonau cyflawniad yn gyffredinol a gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth. Nodir y rhaglen moderneiddio ysgolion yn y Cynllun fel un o 9 cam gweithredu allweddol sy’n cyfrannu tuag at godi safonau cyflawniad yn gyffredinol.

Sut mae’r cynnig yn adlewyrchu’r 5 dull allweddol o weithio:

| Dulliau Gweithio | Sylwadau |
|---|---|
| Hirdymor | Nod y cynnig yw llunio ateb hirdymor a fydd yn cynnal Ysgol Llancarfan yn y dyfodol yn ogystal â bodloni’r cynnydd yn y galw am leoedd ysgol a ragwelir yn yr |

| | |
|---|---|
| | ardal.<br><br>Byddai'n galluogi'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ac yn hwyluso'r gwaith o sefydlu a rhoi'r Fframwaith Hyfedredd Digidol ar waith. |
| Atal | Mae'r cynnig yn ategu nodau polisi cenedlaethol ehangach mewn cysylltiad ag ymyriadau blynyddoedd cynnar gan gynnwys defnyddio'r ysgol i gynnig cyfleusterau cymunedol i deuluoedd. Mae'r cynnig yn cynnwys darparu adeilad ysgol sy'n gallu cyflwyno'r cwricwlwm modern ac ategu cyflawniad a thrwy hynny baratoi disgyblion ar gyfer bywyd. |
| Integreiddio | Nod y cynnig yw integreiddio'r rhaglen adeiladu ysgol gyda'r galw am leoedd ysgol a chydag anghenion addysgol ehangach. Mae'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cymunedol a dysgu gydol oes ychwanegol yn deillio o gyfleusterau newydd a dyluniad pwrpasol yn cynnig mwy o integreiddio gyda chyfleoedd dysgu i gynulleidfa ehangach. |
| Cydweithio | Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn enghraifft o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chynghorau gyda'r ddau barti yn darparu 50% o'r cyllid ar gyfer y cynllun. Mae dyluniad yr adeilad ysgol a'r safle yn cael ei wneud ar y cyd â'r ysgol a'r Corff Llywodraethu. Mae rhaglen o gydweithio rhwng y datblygwyr a disgyblion o ran cynllunio, cynnydd a chyfleoedd dysgu yn ystod y camau datblygu ac adeiladu wedi bod yn llwyddiannus mewn rhaglenni eraill a byddai'n cael ei ailadrodd o dan y cynnig hwn. Byddai galluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau newydd yn ffactor i'w ddatblygu ymhellach a byddai cydweithio â grwpiau cymunedol i ddeall y galw a'r angen yn rhan hanfodol o'r cam datblygu. |
| Ymgysylltu | Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r gwaith o ddylunio a gweithredu'r cynllun yn cael ei wneud mewn |

| | |
|---|---|
| | ymgynghoriad, a thrwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol. Byddai'r Corff Llywodraethu, staff a disgyblion yn cael cyfle i wneud cyfraniad sylweddol yn unol â'n harfer dan yr holl gynlluniau a gyflawnwyd hyd yma. Y bwriad fyddai ymgysylltu â'r gymuned drwy nodi anghenion cymunedol nas bodlonir y gellid o bosib eu bodloni drwy'r adeilad ysgol newydd. |

**Arian ychwanegol ar gyfer atgyweiriadau**

**<u>Mater 47</u>**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau arian ychwanegol ar gyfer atgyweiriadau felly nid y Cyngor sy'n talu am y gwaith o gynnal a chadw'r ysgol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant refeniw un tro'n uniongyrchol i ysgolion ym mlwyddyn ariannol 2017/18 i gefnogi costau cynnal a chadw safleoedd ysgol. Y grant a roddwyd i Ysgolion Bro Morgannwg oedd £610,807, y cafodd £5,238 ohono ei roi'n uniongyrchol i Ysgol Gynradd Llancarfan. Nid oes unrhyw arwydd wedi bod gan Lywodraeth Cymru y bydd yr arian hwn ar gael yn y dyfodol.

Amlinellir y cyfrifoldeb dros gynnal a chadw ysgolion ac atgyweiriadau ynddynt yn adran 11 Cynllun Ariannu Teg Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Ariannu Ysgolion. Yn gyffredinol, pan nad yw'r ysgolion yn rhai gwirfoddol a gynorthwyir, y Cyngor sy'n gyfrifol am waith o natur cyfalaf sydd yn unol â chod Ymarfer CIPFA ar gyfrifyddu'r Cyngor. Fodd bynnag, fel y nodir yn y Cynllun Ariannu Teg, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am ariannu costau refeniw atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw o ran o gyllideb yr ysgol sydd wedi'i ddirprwyo.
Mae rhestr lawn o'r categorïau gwaith y gallai Cyrff Llywodraethu ddisgwyl arian o gyllidebau ysgolion wedi'u dirprwyo ar eu cyfer yn Atodiad 4 y Cynllun Ariannu Teg.

**<u>Mater 48</u>**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith trwsio, felly nid y Cyngor fydd yn talu am gynnal a chadw'r ysgol.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu grant refeniw yn uniongyrchol i ysgolion yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 er mwyn eu cynorthwyo i dalu'r costau o gynnal a chadw eu safleoedd. Cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i Ysgolion Bro Morgannwg oedd £610,807, y neilltuwyd £5,238 i Ysgol Gynradd Llancarfan yn uniongyrchol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw awgrym y bydd y cyllid hwn ar gael yn y dyfodol.

Amlinellir y cyfrifoldeb dros gynnal a chadw a gwneud gwaith trwsio mewn ysgolion yn adran 11 Cynllun Cyllido Teg Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Cyllido Ysgolion. Yn gyffredinol, pan na fydd ysgolion yn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, mae'r Cyngor yn gyfrifol am waith o natur gyfalaf, sy'n cyd-fynd â chod Ymarfer CIPFA ynghylch gweithgarwch cyfrifyddu Cynghorau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Cynllun Cyllido Teg, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am ariannu costau refeniw gwaith trwsio a chynnal a chadw o gyfran cyllideb ddirprwyedig yr ysgol

Nodir rhestr lawn o'r categorïau gwaith y gall Cyrff Llywodraethu ddisgwyl eu hariannu o gyllidebau dirprwyedig ysgol yn Atodiad 4 y Cynllun Cyllido Teg.

**Mater 49**

**Trysor Sirol**

Nododd ymatebydd bod adeilad gwreiddiol yr ysgol yn cael ei gydnabod fel adeilad cadarnhaol ac fel Trysor Sirol. Nid oes rheswm dros ei chau.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a fynegwyd**

Mae'r cynnig yn ymwneud â throsglwyddo ysgol i safle newydd, nid cau ysgol.

Lleolir Ysgol Gynradd Llancarfan yn Ardal Gadwraeth Llancarfan ac fe'i nodir yng Nghynllun Rheoli ac Arfarniad Ardal Gadwraeth Llancarfan fel 'adeilad cadarnhaol' gan ei fod yn cyfrannu at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth mewn ffordd gadarnhaol. Nodwyd a chynhwyswyd yr adeilad yn rhestr 'Trysorau Sirol' y Cyngor.

O'r herwydd, byddai angen ystyried unrhyw gynnig ynghylch datblygu'r safle mewn perthynas â'r polisïau sydd mewn grym, er enghraifft y gofyniad i “ddiogelu a phan fo hynny'n briodol, gwella rhinweddau pensaernïol a/neu hanesyddol adeiladau, neu ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys adeiladau rhestredig lleol.”

Byddai unrhyw gynigion cynllunio yn y dyfodol ynghylch adeilad yr ysgol yn gorfod ystyried ei statws fel Trysor Sirol, law yn llaw â chydymffurfiaeth glir gyda'r polisïau a'r rheoliadau sydd mewn grym ynghylch adeiladau sy'n meddu ar y statws hwn.

**Mater 50**

**Neuadd gymunedol a darpariaeth clwb ar ôl ysgol**

Roedd ymatebydd yn teimlo'n bryderus am y neuadd gymunedol mewn perthynas â darpariaeth clwb ar ôl ysgol.

Gallai darpariaeth ar ôl ysgol weithredu o hyd a bod ar gael yn y neuadd gymunedol. Oherwydd y byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant o ardaloedd Llancarfan, Llanbydderi a Llancatal i'r ysgol a gaiff ei throsglwyddo, mae'n bosibl ar y daith gartref y byddai modd cludo plant i'r neuadd gymunedol er mwyn parhau gyda'u darpariaeth mewn clwb ar ôl ysgol.

**Atodiad B**

Mae’r adran hon yn dangos sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rheiny sydd o blaid y cynnig. Mae’r materion yn cyflwyno trosolwg o’r ymatebion ac felly nid ydynt yn air am air. Mae’r holl ymatebion ysgrifenedig wedi’u gwneud ar gael i aelodau cabinet.

**<u>Sylwadau wedi dod i law o’r ymarfer cyntaf a gynhaliwyd</u>**

- Mae Ysgol Gynradd y Rhws dan ei sang. Byddai ysgol newydd yn y Rhws yn berffaith i ni.

- Sicrhewch fod Ysgol y Rhws yn cael y cyfleusterau wedi’u huwchraddio y mae eu hangen arni.

- Byddai’n wych i’r plant a staff, popeth wedi’i adeiladu’n bwrpasol..maes chwarae gwastrad a chae chwarae. Ffyrdd gwell a mannau parcio dynodedig. Modern ond dal yn gymharol fach. Dim ond dwywaith yn fwy nag ysgol Llancarfan o ran nifer y disgyblion.

- Nid oes modd datblygu llawer ar yr ysgolion presennol yn y dyfodol. Nid oes llawer o allu i ymestyn y safle presennol er ei bod yn ysgol bert iawn nid yw’n addas i’r dyfodol, nid yw’r cyfleusterau chwaraeon yn addas at y diben ac maent yn gyfyngedig wrth symud ymlaen i’r ysgol uwchradd.

- Mae’n gam yn y cyfeiriad cywir a chredaf y bydd yr ysgol newydd o fudd i’r disgyblion yn academaidd ac yn gorfforol gyda’r amgylchiadau a’r offer newydd.

- Yn ariannol, mae’n gwneud synnwyr. Mae hefyd yn cadw’r arian 106 yn y Rhws lle mae i fod i gael ei wario ac er budd preswylwyr y tai newydd.

- Mae angen mawr am ysgol arall ar y Rhws. Mae’n gwneud synnwyr llwyr yn ariannol.

- Mae angen ail ysgol ar y Rhws.

- Mae’r Rhws yn gymuned sy’n tyfu ac mae angen ysgol arall.

- O ran egwyddor, rwy’n cefnogi’r gwelliannau gaiff eu gwneud i addysg plant Llancarfan a’r effaith ganlyniadol ar blant sy’n byw yn y Rhws.

- Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn Llancarfan yn dod o’r Rhws, bydd hyn yn darparu cyfleuster addysgu gwell i bawb am gost is fesul plentyn.

- Gyda’r holl ddatblygiadau yn y Rhws ni fydd yr ysgol bresennol yn ymdopi gyda’r galw gan y trigolion newydd.

- Amgylchedd ysgol sy'n addas i addysg y 21ain ganrif yw'r hyn rydym i gyd ei eisiau i'n plant. Mae ychwanegu meithrinfa'n gall ac mae anrhydeddu'r cysylltiad gydag ysgol gyfun y Bont-faen ar gyfer disgyblion presennol yr ysgol ond yn deg.

- Nid yw'r hen ysgol yn addas at y diben, mae angen ysgol newydd.

- Mae'r costau presennol fesul disgybl yn Llancarfan a'r lleihad graddol yn yr arian sy'n dod i mewn yn golygu na fydd YG Llancarfan yn ddichonadwy yn economaidd yn fuan i barhau heb ostyngiadau pellach i'r gyllideb gan leihau cymorth cyffredinol ac ansawdd addysg yn yr ysgol wych hon. Bydd symud yn sicrhau bod ysgol eithaf clos o ran ei theulu ac o ran bod yn gyfarwydd â chapasiti cymharol fach a chyfleusterau gwell ar gyfer chwaraeon ac ati gyda'r posibilrwydd o sefydlogrwydd ac ansawdd gweithredu tymor hwy i ddisgyblion a staff. Bydd yr ysgol yn gallu gweithredu ar sail un dosbarth fesul un grŵp blwyddyn, sy'n arwain at gydlyniad gwell ar gyfer y dosbarthiadau sydd wedi'u rhannu ar hyn o bryd.

- Byddai'n creu ysgol o faint mwy effeithlon, mewn adeilad newydd sy'n bodloni gofynion modern ac sydd wedi'i lleoli'n nes at y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu. Yn y bôn, nid oes gan bentref Llancarfan boblogaeth ddigon mawr i gynnal ysgol gynradd. Mae'r gyllideb ar gyfer ysgolion yn y Fro eisoes wedi'i hestyn ac mae talwyr ardrethi angen i ddarpariaeth ysgol gael ei rhesymoli lle bo angen. Mae'n ymddangos bod mynediad parhaol at ysgol uwchradd y Bont-faen yn brif ystyriaeth i rieni ond mae'n ymddangos bod mesurau i amddiffyn sefyllfa disgyblion presennol yn ddigonol i ddelio gyda'r mater hwn. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod hwn yn gynnig gwych a fydd o fudd i ddisgyblion yr ysgol ac a fydd yn sicrhau rhywfaint o fudd i ysgolion cyfagos a fydd yn cael dalgylchoedd mwy.

- Diogelu swyddi pob aelod o staff a gyflogir yn bennaf Ysgol Llancarfan ar hyn o bryd. Cael cyfleusterau awyr agored gwell. Llai o darfu ar gyfleusterau parcio i rieni. Darpariaeth ar gyfer meithrinfa.

- Mae'r adeilad newydd yn cynnig ffordd gynaliadwy ymlaen sy'n diogelu swyddi ar gyfer staff ymroddedig presennol sy'n gweithio'n galed pan fo presenoldeb yr ysgol yn lleihau a chost uwch y disgybl. Bydd y safle newydd yn cynnig ysgol fwy cydlynol lle y bydd dosbarthiadau mynediad sengl yn gwella canlyniadau cyffredinol disgyblion. Bydd y cyfleusterau chwaraeon yn creu amgylchedd chwaraeon a chwarae mwy diogel, heb ddibyniaeth ar gyrtiau tennis lleol pan fo gemau taro pêl yn broblemus o ganlyniad i golli peli ac ardal chwarae gyfyngedig. Mae parcio hefyd yn peri problemau i rieni ac mae hyn wedi bod yn destun gwrthdaro parhaus yn y pentref. Bydd cyflwyno meithrinfa yn cynyddu'r hyn y gall Ysgol Llancarfan ei chynnig i'r boblogaeth leol a helpu i ddatblygu cyfnod sefydlu didrafferth o oedran dechrau ysgol yn hytrach na chystadlu am ddisgyblion o'r cyfnod sylfaen, lle mae llawer o ddisgyblion eisoes wedi ymsefydlu.

- Bydd hyn yn sicrhau swyddi staff a sicrhau bod y disgyblion i gyd yn aros gyda'i gilydd.

- Diogelwch swyddi • Amgylchedd dysgu awyr agored gwell • Dosbarthiadau grŵp blwyddyn syml.

- Adeilad newydd ac ymestyn rhagoriaeth y safonau sydd eisoes wedi'u cyflawni gan staff yn yr ysgol bresennol.

- Mae angen ysgol newydd ar y Rhws. Bydd hefyd yn dod â'r pentrefi ynghyd.

- Fel llywodraethwr sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r ysgol am gyfnod hir, rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr fod yr ysgol yn rhan annatod o'r gymuned yn Llancarfan a bydd y symud heb os yn cael effaith ar y pentref. Mae'r amgylchedd gwledig bach a gynigir wedi ein galluogi i gyflawni safonau uchel gydag ethos gofalgar sy'n meithrin. Ond, mae gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr yn destun pryder ac yn cael effaith sylweddol ar ein cyllideb a chynaliadwyedd. Gyda chynllunio ariannol da a lleihad yn nifer yr aelodau o staff sefydledig, fel ysgol rydym wedi gallu cydbwyso'r gyllideb yn llwyddiannus. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad parhaol a ragwelir yn rhoi pwysau sylweddol ar y gyllideb a bydd yn arwain at leihad yn nifer y staff a fydd yn cael effaith niweidiol ar y safonau a gyflawnir yn yr ysgol. Byddai symud yr ysgol gyfan yn ein galluogi i gadw ein staff presennol a pharhau â'r ethos gofalgar sy'n meithrin yr ysgol i fod "y gorau y gallwn"

- Bydd cynnig dosbarth meithrin yn gwella sefyllfa'r ysgol, gan roi cyfle i blant cyn oedran ysgol i fynychu'r ysgol gynradd a rhoi hwb i niferoedd! Bydd plant ysgol yn cael budd o ysgol a chyfleusterau'r 21ain ganrif.

**Sylwadau'r Ymgynghoriad a dderbyniwyd yn dilyn yr ail ymarferiad a wnaed**

- Byddai'r plant yn cael budd o'r adeilad newydd. Gwell mynediad a chyfleusterau. Hefyd gwell ffyrdd ar gyfer y daith ysgol foreol.

- Adeilad Llancarfan bellach yn rhy fach. Dim digon o barcio. Mynediad gwael i'r anabl.

- Rhaid i rywbeth ddigwydd. Fydd pawb ddim yn hapus ond bydd nifer y plant sy'n dynesu at oed ysgol yn y Rhws yn dod yn broblem allweddol i ddysgu ein plant os na chaiff ysgol arall ei hadeiladu. Angen gwneud penderfyniadau anodd

- Mae safle arfaethedig yr ysgol newydd ar y datblygiad tai y byddwn yn symud iddo yn ddiweddarach eleni. Mae merch 2 oed gennym felly byddai hyn yn gyfleus iawn erbyn y daw i oed ysgol.

- Adeiladau presennol yn anaddas.

- Mae Y Rhws yn tyfu drwy'r amser ac mae mawr angen ysgol newydd.

- Mae angen capasiti ychwanegol ar y Rhws.

- Os byddwch yn parhau i adeiladu'r ystadau tai newydd yma yn y Rhws, mae angen mwy o gyfleusterau arnom, gan gynnwys ysgol, ni all ysgol Gynradd y Rhws dderbyn mwy o ystyried nifer y trigolion.

- Bydd hyn o fantais aruthrol i'r Rhws a bydd yn rhoi offer a chyfleusterau gyda'r diweddaraf i ddisgyblion.

- Mae angen mwy o lefydd meithrin, a bydd adeilad newydd o fudd i'r plant.

- Rwy'n cefnogi ysgol newydd yn y Rhws oherwydd y cynnydd ym mhoblogaeth y Rhws.

- Yr ysgol yw calon y gymuned a bydd ei chadw ar agor yn denu mwy o bobl i ddod i'r ysgol gynradd yn y dyfodol. Mae'n hanfodol i'r ardaloedd gerllaw gan ei bod yn ysgol sy'n dwyn pobl ynghyd o wahanol ardaloedd a chefndiroedd er mwyn helpu i greu plant crwn yn y dyfodol.

- Dydw i ddim yn gweld ateb arall. Bydd datblygiad Taylor Wimpey yn creu mwy o deuluoedd ac felly blant yn yr ardal a bydd angen ysgolion arnyn nhw i gyd. Rwy'n amau'n fawr a all yr ysgol bresennol yn y Rhws ymgodymu â'r cynnydd hwn. Rwy'n pryderu'n fawr am effaith y traffig fodd bynnag ac yn darogan y bydd y datblygiad newydd a'r ysgol yn hunllef ar adeg y teithiau i'r ysgol. O bosib bydd angen goleuadau traffig ar i ffordd y Rhws o'r datblygiad newydd. Dyw hynny ddim yn beth da!

- Yn fwy na hapus â’r cynnig newydd. Byddai’n braf gweld rhywbeth sy’n cael ei gynnig yn cael ei wireddu. Ysgolion, cwrs golff, tafarndai, siopau.

- Mae’r boblogaeth yn cynyddu, byddai cyfleusterau newydd o fudd.

- Derbyniodd fy nau blentyn addysg hyfryd yn yr ysgol bentref fechan yn Llancarfan gyda’r holl gyfleoedd a ddaw yn sgil ysgol fechan. Fodd bynnag, fel Llywodraethwr hirhoedlog yn yr ysgol a chydnabod y newid i’r cwricwlwm, y pwysau ar gyllidebau a chofrestr sydd yn lleihau o ran niferoedd, yn enwedig o blith y plant yn y dalgylch, mae’n bosib nad yw’r ysgol yn ei ffurf bresennol yn ddichonadwy. Rwy’n teimlo er mwyn gwarchod sefydlogrwydd, diwylliant ac ethos yr ysgol y byddai’n fuddiol symud i’r safle newydd. Byddai’r staff addysgu yn parhau â’u gwaith rhagorol yn adeiladu ar y cyfle a ddeuai yn sgil adeilad Ysgol yr 21ain Ganrif. Byddai llai o darfu ar addysg y plant a ddeuai yn sgil niferoedd yn gostwng a phosibilrwydd colli staff.

- Mewn byd perffaith fyddai dim byd gwell gennyf na chadw’r ysgol bentref hyfryd hon ar agor er mwyn caniatáu i blant barhau i dderbyn profiad addysg gwych ac unigryw ond rwy’n sylweddoli y bydd y niferoedd llai a fydd yn mynychu’r Ysgol Gynradd Leol yn anffodus yn anorfod yn arwain at ystyriaethau o ddichonolrwydd a chau’r ysgol maes o law beth bynnag. Yn sgil yr hyn a gredaf fydd dyfodol yr ysgol gynradd leol rwyf o blaid mudo’r ysgol i’r Rhws. Rwy’n ei chael yn anodd dadlau’r achos y bydd plant yn gallu manteisio ar well addysg yn yr ysgol newydd yn y Rhws gan fod yr addysg a dderbynia’r plant yn yr YGL yn rhagorol ond does dim amheuaeth gennyf y bydd y plant yn gallu manteisio ar gyfleusterau gwell megis yr ardal chwarae gwastad i chwarae campau awyr agored a mwy o ofod y tu mewn. Does dim dwywaith y bydd ethos yr ysgol, yr arfer addysgu gwych ac angerdd ac ymrwymiad i addysg gan y staff yn parhau a’i drosglwyddo yn broffesiynol i adeilad ysgol newydd ac rwy’n gobeithio y bydd rhieni a’r gymuned yn cofleidio’r cyfle i blant dderbyn profiad addysgol newydd a gwahanol gyda’r staff y maent yn eu hadnabod a’u parchu yn hytrach na gweld yr YGL yn cau a disbyddu'r plant ledled y Fro i ysgolion eraill sydd â lle iddynt.

- Byddai rhoi meithrinfa newydd gyda’r adeilad newydd yn wych o beth oherwydd y byddai’n gwella’r dechrau anhygoel y mae'r disgyblion cynradd yn ei gael eisoes, ond gyda’r cyfleuster newydd hwn bydd yn darparu’r dechrau gwych yna ar gyfer plant iau o 3 oed ymlaen.

- Byddai’n wych cael ystod oed 3 – 11.

**Atodiad C**

**Mae'r adran hon yn nodi sylwadau i gwestiynau cyffredin a ofynnwyd mewn perthynas â'r cynnig.**

*Ydych chi'n bwriadu cau Ysgol Gynradd Llancarfan?*

Nid ydym yn bwriadu cau Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â throsglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i safle newydd, ynghyd â chynyddu capasiti yr ysgol. Cyfeirir at yr elfennau hyn fel addasiadau rheoledig dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, rhif dogfen Cod statudol: 006/2013, y mae gofyn eu cyhoeddi. Nod y cynnig yw symud yr ysgol bresennol i adeilad ysgol newydd mwy o faint yn unol â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Nid yw'r cynnig yn golygu cau Ysgol Gynradd Llancarfan. Hefyd byddai adeilad newydd arfaethedig Ysgol Gynradd Llancarfan yn gallu darparu ar gyfer y galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion yng ngorllewin y Fro, yn bennaf o ddatblygiadau newydd fel ardal y Rhws. Byddai staff, llywodraethwyr a disgyblion sydd yn Ysgol Gynradd Llancarfan ar hyn o bryd yn symud i'r adeilad newydd.

*Oes modd adeiladu ysgol newydd yn Llancarfan?*

Mae nifer o gyfyngiadau cynhenid yn yr adeilad ysgol Fictoraidd ei hun a'r tir o'i gwmpas a fyddai'n atal codi adeilad newydd ar y safle. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn creu amgylchedd dysgu addas i'r 21ain ganrif.

Mae poblogaeth dalgylch Llancarfan yn fach o'i chymharu â nifer y lleoedd disgyblion sydd ganddi. Mae lle yn Ysgol Gynradd y Rhws yn prinhau ac mae dros draean o'r plant sy'n mynychu Llancarfan yn dod o ardal y Rhws. Dim ond 30% o'r disgyblion yn Llancarfan yn dod o ddalgylch Llancarfan. Mae 70% yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

*Sut byddai Ysgol Gynradd y Rhws yn ymdopi petai ysgol gynradd arall yn yr ardal?*

Mae'r cynnig hwn yn creu cyfle unigryw nid yn unig i drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad newydd sy'n addas i ysgol yr 21ain ganrif ond hefyd i greu lle ar gyfer plant o'r datblygiad tai newydd yn y Rhws. Mae lle yn yr ysgol gynradd bresennol yn y Rhws yn prinhau ac ni fydd yn gallu darparu ar gyfer y plant hyn. Mae Ysgol Gynradd y Rhws tua milltir o leoliad arfaethedig safle'r ysgol newydd. Nid oes unrhyw gynlluniau fel rhan o'r cynnig hwn i gyfuno ag Ysgol Gynradd y Rhws.

*Pa ymrwymiad i blant presennol Ysgol Gynradd Llancarfan fydd yn cael ei gyflawni?*

Cynigir, fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch yr adeilad ysgol newydd ac fel rhan o ymgynghoriadau ar drefniadau derbyn yn y dyfodol, y bydd trefniadau trosglwyddo ar waith i ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd Llancarfan a'u brodyr a'u chwiorydd ar ôl symud. Bwriad y Cyngor yw cadw'r trefniadau bwydo a'r cysylltiadau dalgylch â'r Bont-faen ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl symud nes iddynt adael yr ysgol. Hefyd bydd brodyr a chwiorydd disgyblion sy'n mynychu'r ysgol adeg y symud yn cael blaenoriaeth uchel o ran eu derbyn i Ysgol Gynradd

Llancarfan pan fyddant yn cyrraedd oedran ysgol. Bydd hyn yn rhan o'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd sydd ar waith.

*A fyddai'r un hawliau ar gael i ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol rhwng gwneud penderfyniad i drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd a'r broses wirioneddol o symud?*

Yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad statudol, bwriedir cadw'r trefniadau presennol ar gyfer ysgolion bwydo i ddisgyblion sydd ar y gofrestr ar y dyddiad trosglwyddo. Ac eithrio rhai brodyr a chwiorydd, byddai unrhyw ddisgyblion sy'n ymuno ag Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl symud i'r safle newydd yn destun y trefniadau derbyn y cytunwyd arnynt ar waith ar y pryd hwnnw. Byddai brodyr a chwiorydd sy'n cael eu derbyn ar ôl symud i'r safle newydd y mae'r newid i ddalgylchoedd yn effeithio arnynt yn cael blaenoriaeth derbyn uchel o dan bolisi trefniadau derbyn y Cyngor.

*A fyddai disgyblion o ddalgylch presennol Llancarfan yn cadw'r hawliau i'w derbyn yn Ysgol Gyfun y Bont-faen neu a fyddai dalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen yn cael ei enwid i eithrio dalgylch yr ysgol sydd wedi trosglwyddo?*

Ffiniau traddodiadol yw dalgylchoedd sy'n cael eu creu i sicrhau bod ysgolion lleol yn gwasanaethu eu cymuned. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newid dalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen. Ni fyddai unrhyw newid i ddalgylch Ysgol Gyfun y Bont-faen tan ar ôl adolygiad o ddalgylchoedd a'r ymgynghoriad gofynnol. Wrth gwrs, bydd cyfle bob amser i rieni nodi eu dewis nhw.

*A fydd pennaeth newydd?*

Byddai pob aelod o'r staff gadw eu safleoedd yn ysgol gynradd Llancarfan a symud i safle newydd.

*Beth fyddai'r trefniadau derbyn?*

Gan nad yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cau Ysgol Gynradd Llancarfan, bydd yr holl blant yn trosglwyddo i'r adeilad newydd yn awtomatig. Byddai blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i geisiadau am le ysgol ar ôl trosglwyddo i'r safle newydd gan frodyr a chwiorydd disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar y dyddiad derbyn. Byddai meini prawf derbyn y Cyngor yn adlewyrchu hyn trwy sefydlu trefniadau trosglwyddo i blant sydd â brawd neu chwaer y mae'r newid i'r dalgylchoedd yn effeithio arnynt er mwyn sicrhau y gall y ddau blentyn o'r un teulu fynychu Ysgol Gynradd Llancarfan lle bynnag y bo modd ar yr amod eu bod ar y gofrestr ar yr un pryd.

*A fydd enw newydd i'r ysgol?*

Rydym yn cynnig creu adeilad newydd, mwy, llawer gwell i Ysgol Gynradd Llancarfan, gan estyn ystod oedran yr ysgol. Ni fydd Ysgol Gynradd Llancarfan yn cau, felly ni fyddai unrhyw angen newid enw, ethos na hunaniaeth yr ysgol, dim ond ei lleoliad.

*A fydd polisïau'r ysgol yn newid i adlewyrchu'r safle newydd a'r plant oed meithrin?*

Bydd hyn yn benderfyniad i gorff llywodraethu a phennaeth yr ysgol.  Bydd angen i'r ysgol ystyried adolygu ei pholisïau ar ôl trosglwyddo i'r adeilad newydd a sefydlu uned feithrin er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn yr ysgol yn cael ei gynnwys ym mholisïau'r ysgol.

*Pryd byddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i'r adeilad ysgol newydd?*

Cynigir agor yr ysgol newydd ym mis Medi 2021.

**Atodiad D**

**<u>Ymgynghori â phlant ifainc</u>**

**Ymgynghoriad ar ran Cyngor Bro Morgannwg**
**ynghylch y cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy: Ysgol Gynradd Llancarfan.**

**Cynhaliwyd trafodaeth â Chyngor Ysgol Gynradd Llancarfan yng nghwmni Cynorthwyydd Addysgu (28 Mawrth 2018).**

**Cefndir a Nod**

- Yn eu dogfen ymgynghori ar y cynnig uchod, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a phan yw'n bosibl, y rhai sy'n debygol o fynychu'r ysgol. 'Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan gael cyfle i fynegi eu barn ynghylch y cynnig hwn'.

- Trefnwyd gweithdy ymgynghori â chyngor Ysgol Gynradd Llancarfan i gael eu barn ar y cynnig.

- Caiff yr wybodaeth a gasglwyd yn y sesiwn hon ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Cyflynir yr adroddiad llawn i Gabinet y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cynfod ymgynghori.

**Methodoleg**

- Ymgorfforwyd methodoleg ryngweithiol er mwyn i'r holl ddisgyblion gael cyfle i drafod, rhannu a lleisio eu syniadau eu hunain.

- Cychwynnodd â thrafodaeth ar ystyr ymgynghoriad a pham y mae'n bwysig siarad â disgyblion.

- Bwriwyd ymlaen â thrafodaeth bellach ynghylch nodweddion trafodaeth dda/ymgynghoriad da a sefydlwyd rheolau sylfaenol i sicrhau llwyddiant y broses.

- Eglurwyd prif agweddau'r ymgynghoriad i'r disgyblion, yn cynnwys y cefndir ac amserlen i sicrhau eu bod yn deall yr wybodaeth berthnasol.

- Rhannwyd y disgyblion yn ddau grŵp i drafod a ffurfio eu barn ar gryfderau a gwendidau posibl y cynnig.

- Yna, unwyd y grwpiau i rannu eu canfyddiadau gan gynnwys y rheolau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.

- Cafodd y disgyblion wybod am y manteision a’r anfanteision sydd ar y ddogfen ymgynghori.

- Bu pleidlais ar ddiwedd y sesiwn i grynhoi’r ymatebion.

**Ymatebion disgyblion**

**Beth yw nodweddion trafodaeth dda?**

- Cydweithrediad
- Bod yn garedig
- Amddiffyn eich hun
- Dewrder
- Bod yn gall
- Dim ofn
- Parchu eraill
- Gwrando
- Peidio â gweiddi na tharfu
- Cyfrannu
- Gwrando ar farn – rhoi cyfle i bawb siarad
- Amynedd
- Syniadau da
- Dal i drio
- Cyfaddawdu

**Manteision y cynnig**

- Bydd cyfleusterau gwell yn yr ysgol newydd
- Bydd yr ysgol yn fwy
- Lle newydd, pethau newydd
- Efallai bydd yr ysgol yn nes
- Bydd y dosbarthiadau’n fwy
- Bydd disgyblion newydd o ardaloedd eraill
- Rhagor o le parcio
- Byddai mwy o bobl yn byw yma
- Caiff busnesau lleol ragor o arian
- Rhagor o gyfleusterau, plant, ardaloedd chwarae, parcio, diogelwch
- Llai o draffig, cwynion
- Dosbarthiadau mwy
- Does dim rhaid cyfuno blynyddoedd – cawn ein ystafell ddosbarth ein hun
- Addysg well ar gyfer gwaith grŵp
- Gallwch wneud ffrindiau newydd
- Mwy o le
- Efallai bydd yr ysgol yn nes
- Addysg well
- Athrawon newydd – fydden nhw’n rhy faddeugar?
- Gallai prisiau tai a threthi gwympo [ni chafwyd rhagor o eglurdeb ar y sylwadau hyn pan holwyd ymhellach]

**Anfanteision posibl y cynnig**

- Bydd pawb yn gweld eisiau'r ysgol – mae hi yma erstalwm
- Mae'n debyg y caiff ei dymchwel os symuda, ac mae'n hen adeilad.
- Efallai nad Ysgol Llancarfan fydd ei henw; efallai y newidia enw'r ysgol.
- Mae'n ysgol wych.
- Ni fydd digwyddiadau codi 'sbwriel neu rasys hwyaid pan ddaw pawb ynghyd.
- Caiff yr awyrgylch/perthnasau/cymuned clos eu colli.
- Bydd yn brysurach
- Pryder oherwydd efallai na fydd pobl eisiau byw yma.
- Llai o fusnes ar gyfer tafarndai/siopau lleol.
- Bydd rhaid i bobl sy'n byw yn yr ardal leol yrru i'r ysgol.
- Ydy'n gwneud synnwyr ei galw hi'n Llancarfan.
- Cadw man 'Cerys' lle y mae; gofalu am fan Cerys.
- Gall fod dadleuon â dwy ysgol yn y Rhŵs.
- Mae'n bosibl y bydd y dalgylch yn newid (h.y. ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-Faen).
- Gall fod yn anos ei chyrraedd; efallai y bydd rhaid teithio ymhellach.
- Angen ffordd.
- Llygredd ceir peryglus – ddim yn dda ar gyfer plant.
- Traffig.

**Pleidlais Gweithdy:**

Trefnwyd continwwm iddynt roi eu hunain yn y parth Ie, Na neu Ansicr. Dyma fu'r canlyniad:

Ie: 3
Ansicr 2
Na: 6

**Sylwadau Ychwanegol gan ddisgyblion bynyddoedd 5 a 6 Llancarfan:**

''Dw i'n meddwl na ddylai'r ysgol symud achos y bydd yn dod â thraffig a lot o sŵn i'r petref.'

''Dw i yn erbyn symud yr ysgol oherwydd na fydd plant y dosbarth Derbyn sy'n cychwyn y flwyddyn nesaf eisiau dod achos byddan nhw'n gwybod y byddan nhw'n symud ymhen dwy flynedd.'

'Fy marn i ydy y byddai o fantais i'r ysgol oherwydd y byddai mwy o le a chyfleusterau gwell yn annog plant ac yn gwella eu sgiliau cymdeithasu trwy siarad â disgyblion newydd.'

''Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad gwael oherwydd 'dw i'n teimlo cysylltiad emosiynol achos y cenedlaethau cynt a ddaeth i'r ysgol yma.'

“‘Dw i yn erbyn symud yr ysgol achos mae hi yn Llancarfan ers tro byd, er 1879 ‘dw i’n meddwl, a byddai’n biti ei gweld hi’n symud.’

“‘Dw i’n meddwl na ddylai’r ysgol symud i’r Rhŵs achos dw i’n byw yn y pentref, ac ddo’ i ddim i ‘nabod y bobl newydd sy’n symud yma.’

“‘D i yn erbyn symud yr ysgol i’r Rhŵs achos bod gennym ni atgofion yn yr ysgol hon. Hefyd ‘dw i ddim eisiau i’r ysgol symud achos y bydd yn achosi trafferth i bobl y mae’n rhaid iddyn nhw symud, a bydd y symud yn effeithio ar fy mrawd, yn dibynnu ar lle mae hi’n mynd.’

‘Fy marn i ydy y byddai'n syniad da achos y bydd cyfleusterau gwell yno ac mae gen i chwaer fach felly 'dw i am iddi hi gael y gorau.'

‘Fy marn i ydy bod symud yr ysgol yn syniad da achos y bydd llai o dagfeydd traffig a mwy o ofod agored.’

‘Fy marn ydy y dylai'r ysgol symud achos y gellid defnyddio'r tir ar gyfer rhywbeth gwell a byddai mwy o dir.'

“‘Dw i ddim yn meddwl y dylid dymchwel Ysgol Llancarfan achos bod tyrfaoedd o blant sydd yn dal eisiau bod yndddi.’

“‘Dw i o blaid symud yr ysgol oherwydd y bydd ysgol newydd i’r plant bach, a chyfleusterau newydd.’

“‘Dw i’n meddwl bod symud Ysgol Llancarfan i’r Rhŵs yn ddrwg oherwydd y llygredd.’

“‘Dw i'n meddwl ei fod e'n syniad gwael oherwydd yr effaith ar Lancarfan.'

“‘Dw i’n meddwl nad yw’n syniad da oherwydd ‘dw i’n meddwl nad oes pwynt symud achos mae’n iawn fel y mae hi.’

**Pleidlais y Dosbarth:**

2 – o blaid symud yr ysgol
9 – yn erbyn symud yr ysgol
10 – Atal eu pleidlais

**Ymgynghoriad (2$^{il}$) ar ran Cyngor Bro Morgannwg**
**Ynghylch y cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy: Ysgol Gynradd Llancarfan**

**Cynhaliwyd trafodaeth â Chyngor Ysgol Gynradd Llancarfan yng nghwmni Cynorthwyydd Addysgu (15 Mehefin 2018).**

## Cefndir a Nod

- Fel yn achos yr ymgynghoriad cyntaf. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a phan yw'n bosibl, y rhai sy'n debygol o fynychu'r ysgol, i gael eu barn ynghylch y cynnig hwn.

- Trefnwyd gweithdy ymgynghori â'r ysgol ar gyfer 15 Mehefin i drafod y cynnig a chael eu barn arni.

- Mae'r wybodaeth a gafwyd yn y sesiwn hon yn yr adroddiad hwn.

## Methodoleg

- Ymgorfforwyd methodoleg ryngweithiol eto er mwyn i gynrychiolwyr cyngor yr ysgol gael cyfle i drafod, rhannu a lleisio eu syniadau eu hunain.

- Ailgyflwynom enwau a hobis y plant a mynd ati i adran cwis â'r nod o adolygu ystyr ymgynghoriad, gyda phwy yr ymgynghorid â nhw ar yr achlysur hwn, beth oedd y testun a pham yr oedd yn bwysig clywed barn y disgyblion ar faterion felly.

- Yna, aethom ati i gael barn pawb ar yr hyn sy'n gwneud trafodaeth/ymgynghoriad da er mwyn gosod rheolau sylfaenol i sicrhau y byddi'r broses yn llwyddiannus.

- Eglurwyd prif agweddau'r ymgynghoriad i'r disgyblion, yn cynnwys y cefndir ac amserlen i sicrhau eu bod yn deall yr wybodaeth berthnasol. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriad at fanteision ac anfanteision yn y ddogfen Ymgynghori, y Cwestiynau Cyffredin a chyfeiriad at y ddogfen Asesiad Effaith ar y Gymuned.

- Rhannwyd y disgyblion yn ddau grŵp i drafod a ffurfio eu barn ar gryfderau a gwendidau posibl y cynnig.

- Yna, unwyd y grwpiau i rannu eu canfyddiadau gan gynnwys y rheolau sylfaenol y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.

- Pleidleisiodd y disgyblion ar ddiwedd y sesiwn i grynhoi'r ymatebion.

**Ymatebion disgyblion**

**Beth yw nodweddion trafodaeth dda?**

- Cydweithredu
- Bod yn gall
- Gwrando
- Gwrando ar farn pawb
- Awgrymiadau da
- Mynegi barn
- Ystyried barn pawb
- Cynnwys pawb
- Meddwl am syniadau
- Cwestiynau da

**Rhesymau a gynigir fel manteision y cynnig**

- Addysg well
- Bydd cyfleusterau gwell yn yr ysgol newydd
- Rhagor o ystafelloedd dosbarth
- Ystafelloedd dosbarth mwy
- Rhagor o dechnoleg
- Mwy o le
- Ennill rhagor o arian yn y ffair ysgol
- Mwy o bethau cyfoes
- Gwneud ffrindiau newydd
- Tir mwy gwastad
- Athrawon newydd
- Rhagor o weithgareddau, clybiau a.y.b. ar ôl yr ysgol
- Rhagor o gyfleoedd i wneud ystod o weithgareddau

**Rhesymau dros fod yn erbyn y cynnig**

- Ni fydd y manteision sydd gan ysgol fechan e.e. rasys hwyaid
- Dim pwrpas
- Dylai aros yma oherwydd ei bod yma erstalwm
- Ddim yn hoffi'r cynllun newydd
- Dim llwybr antur
- Mae'n well gan bobl ysgol fechan
- Dim awyrgylch ysgol fechan yn yr ysgol newydd
- Cenedlaethau o aelodau'r teulu wedi bod yn yr ysgol bresennol

**Dyfyniadau gan blant:**

'Dw i eisiau pethau newydd, dosbarthiadau mwy ag un oedran. Bydd yn haws.'
'O'r lluniau a welais i o'r ysgol newydd, dydy ddim yn edrych fel y bydd yn gweithio.'
'Ddylai'r ysgol ddim symud achos mae'r ysgol yma ers blynyddoedd a byddai'n biti ei chau hi.'

'Dw i'n meddwl ei fod yn syniad da, cawn ni addysg well a mwy o le.  Mae popeth yn newydd.'
'Ddylem ni ddim cau'r ysgol achos dw i'n ei hoffi.'
'Na, yn syml, 'dw i ddim yn meddwl y dylem ni symud.'
'Mae 6 chenhedlaeth o deulu fy ffrind wedi bod yma.'
'Dw i'n hoffi ysgolion bychain.'
'Dw i'n meddwl ei fod e'n dyniad gwych am lawer o resymau: tir mwy gwastad, mwy o le, cyfleusterau gwell.  Hefyd, ffrindiau newydd ac amgylchedd gwell yn gyffredinol mewn ysgol a fydd yn dal i fod yn fach.'

**Pleidlais Gweithdy:**

Wedi trafodaeth yn cynnwys dwy ochr y ddadl, cynhaliwyd pleidlais ar y mater. Dyma fu'r canlyniad:

Cytuno â'r cynnig: 5 (er, roedd un o'r 5 yn newid ei feddwl o 'cytuno' i 'ansicr' i 'anghytuno')
Ansicr ynghylch y cynnig: 1
Anghytuno â'r cynnig: 6

**Atodiad E**

**Ymateb y Corff Llywodraethu**

**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan**

**Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyntaf**

Hayley Hughes Is Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan

**Ddim o Blaid**

Cychwynna'r cynnig fel a ganlyn: "Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion yn y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau'n gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl." Yn ystod trafodaethau'r Ymgynghoriad â'r Corff Llywodraethu, dywedodd cynrychiolwyr Bro Morgannwg mai'r prif bryderon yw'r safonau addysg, niferoedd derbyn yn gostwng a gormod o lefydd gwag a rhagfynegon datblygiadau tai. Yn ein barn ni, mae pob dadl yn annilys: Sfonau Addysg – Yn gyntaf, hoffem nodi bod safonau addysg a llwyddiant Ysgol Gynradd Llancarfan yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ac mae eisoes yn cynnig amgylcheddau dysgu arloesol, creadigol, sy'n herio ac yn cynorthwyo plant fel y profir yn eu canlyniadau ac adroddiad Estyn. Nid oes unrhyw warant y byddai safon addysg yn gwella yn y lleoliad newydd. Mae adroddiad Estyn ar hyn o bryd yn nodi bod perfformiad yr ysgol a'r disgwyliad y gall wella'n Dda, sy'n golygu bod ganddi nifer o gryfderau a dim maes pwysig lle mae gofyn am welliant sylweddol. Yn ogystal, mae'r Staff a'r Corff Llywodraethu wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau symud o'r categori oren i felyn yn nhablau lliw ysgolion Cymru. Staffio o safon sy'n effeithio fwyaf ar safonau addysg ac mae'r ysgol yn dangos ymdrech barhaus a ffocws yn y maes hwn gyda nifer o brojectau megis "da i well" ac ymrwymiad i Ddatblygu Proffesiynol Parhaus gyda rhaglen hyfforddi ddeinamig. Ni fyddai symud i ysgol fwy yn gwarantu gwelliant yn y safonau. Gellir dadlau'r gwrthwyneb. Bydd rhagor o ddisgyblion i'w trin ac o bosibl llai o'r elfen bersonol, a gallai hyn effeithio'n andwyol ar ddysgu. Dyfynnodd Bro Morgannwg o'r gwaith ymchwil gan Salford University ar 'Clever Classrooms', gan geisio defnyddio hyn i ddangos bod Ysgol Gynradd Llancarfan yn amgylchedd addysg o safon is na'r cyffredin. Mae'r adroddiad hwn yn dangos yn glir y gall *dosbarth ddoeth* fodoli mewn ysgol o unrhyw oedran ac ar unrhyw gynllun a bod Ysgol Gynradd Llancarfan eisoes yn bodloni nifer o'r meini prawf ac y gallai fodloni'r gweddill yn hawdd. Rydym yn deall yr ymddengys y byddai'n well gan Gyngor Bro Morgannwg i bob ysgol gydymffurfio â'r model 210 lle er mwyn bod yn gymwys ar gyfer menter Ysgolion y 21ain Ganrif. Fodd bynnag, mae gwneud i'r holl ysgolion gydymffurfio â'r model hwn yn amharu'n negyddol ar ddewis rhieni sydd am anfon eu plant i ysgolion pentref, llai. Mae'r ffaith fod 70% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan yn dod o'r tu allan i'w dalgylch yn dystiolaeth ei bod yn boblogaidd ymhlith rhieni, eu bod nhw'n fodlon teithio ar gost sydd weithiau'n sylweddol i ddod â'u plant i ysgol eu dewis, sy'n rhoi'r safon addysg a'r amgylchedd ysgol bentref fychan sy'n meithrin plant y maent yn chwilio amdanynt ar gyfer eu plant. Bydd symud i adeilad mwy, dienaid yn diddymu'r dewis hwn i rieni. Derbyn i ysgolion – Rydym yn sylwi nad ydych yn egluro sail eich rhagfynegon ar

gyfer niferoedd y disgyblion yn y dyfodol. Nid ydym felly mewn sefyllfa sy'n galluogi i ni herio'r rhagfynegon penodol, ond ymddengys i ni nad ydynt yn ystyried datblygiadau tai sydd o fewn pellter teithio rhesymol o Llancarfan ond y tu allan i'r Rhŵs, nac ehangiad Aston Martin yn Sain Tathan, a fydd yn creu swyddi, na chwaith y posibilrwydd y bydd uned filwrol yn symud o Aberhonddu i Sain Tathan; gallai un neu bob un o'r rhain gynyddu niferoedd disgyblion Llancarfan. Ymddengys mai rhagfynegon tymor byr yn unig sydd gan y Cyngor, sef, ar hyn o bryd (diwedd mis Mawrth), bydd 7 yn cychwyn yn yr ysgol a 19 yn gadael am yr ysgol uwchradd. Rydym oll yn gwybod bod y nifer derbyn hwn yn cynyddu tua diwedd y flwyddyn academaidd; y llynedd derbyniwyd 17, ac mae'n debygol y bydd y nifer yn cynyddu'n sylweddol dros y misoedd nesaf ac yn parhau i gynyddu dros y blynyddoedd nesaf yn sgil ymdrechion marchnata. Rydym yn bryderus iawn am y newyddion bod y nifer derbyn wedi gostwng o 7 i 4 ers hysbysu'r cynnig i symud yr ysgol a hoffem graffu ar y ceisiadau hyn. Rydym wedi derbyn adborth gan rieni sy'n pryderu'n fawr am sylwadau a wnaeth Swyddog Derbyn bod yr ysgol yn ail ddewis gan rieni trwy'r broses ymgynghori a bod y ffydd yn brin yn y broses dderbyn a hygrededd y data o ganlyniad, a hoffem weld yr holl geisiadau am le yn Ysgol Llancarfan. Mae llefydd gwag yn Ysgol Llancarfan ar hyn o bryd, sef 16%, sy'n is na'r hyn a ystyria Llywodraeth Cymru fel sylweddol (25%). Rydym yn credu y gall yr ysgol fod ar ei hennill yn sgil yr amryw ddatblygiadau dros y blynyddoedd nesaf. Rhagfynegon datblygiadau tai – bydd blynyddoedd cyn adeiladu'r ail gyfnod yn y Rhws ac mae gwerthu'r tai'n debygol o fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol i nifer o ffactorau macro-economaidd, na fydd modd eu rhagfynegi'n gywir waeth pa mor ddiwyd yw'r ymdrechion. Golyga hyn y gall bod llefydd gwag yr ysgol newydd . Beth wedyn? Rydym hefyd wedi derbyn adborth gan rieni'n dweud bod nifer o ddisgyblion Llancarfan na fyddai'n symud â'r staff; yw hi'n rhesymol gofyn i blant ifainc deithio 5 milltir mewn bws mini i'r ysgol?

Hoffem awgrymu bod y Cyngor yn ailystyried y posibilrwydd o estyn yr ysgol yn y Rhws, oherwydd bod y Llywodraethwyr yn gwybod ei bod yn bosibl estyn ysgol y Rhws ymhellach ac mae cynlluniau wedi eu paratoi.

Fel y gwyddoch, mae'r gymuned yn erbyn y cynigion. Nid yw'r ddogfen effaith ar y gymuned wedi ystyried yr effaith ar y gymuned ac rydym ar ddeall bod y cyngor cymunedol yn craffu'n ddwys arni ar hyn o bryd. Nid yw wedi ystyried y nifer o gysylltiadau cymunedol sy'n gwneud yr ysgol yn unigryw. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys yr eglwys y mae gan yr ysgol berthynas arbennig â hi, yn cyfrannu at addysg y plant, cysylltiadau a thafarn Fox and Hounds, neuadd y pentref, y clwb tenis, y cyngor cymunedol, sinema cymunedol a chymdeithas Llancarfan. Mae'r cynnig yn rhannu cymuned Llanbydderi, Llancatal, Llancarfan a Moulton yn ysgolion cynradd ac yna uwchradd gwahanol ac nid ydym yn teimlo yr ystyriwyd effaith bwysig cyfeillgarwch cyn yr ysgol a rhwydweithiau cymorth i rieni. Pwynt arall i'w nodi yw bod y ffordd y cyhoeddwyd ac y gweithredwyd yr ymgynghoriad yn anffodus wedi arwain at greu anniddigrwydd rhwng y staff, y llywodraethwyr a'r gymuned. Awgrymodd datganiad y Cyngor bod y sefyllfa eisoes wedi ei phennu a thanseiliodd y ffordd y cafodd y bwriad ei gyhoeddi allu'r ysgol a'r Corff Llywodraethu i drin y sefyllfa, a chafodd hynny effaith andwyol yn syth ar staff, disgyblion a rhieni. Yn amlwg, mae ar staff ofn colli eu swyddi a sicrwydd mewn bywyd, ac maent wedi cadw'n dawel am y sefyllfa a chyda'r teimlad trwm a nerth cymeriad y gymuned, mae hyn yn peri problemau, yn arbennig yng nghyd-destun y bygwth cau'r ysgol yn 2012

pan fu’r staff yn brwydro. Bydd goblygiadau yn y dyfodol, waeth p’un fo’r canlyniad. Sylwch bod yr aelodau staff sy’n rhan o’r corff llywodraethu wedi atal cyfrannu at benderfyniad y Corff Llywodraethu i wrthwynebu cynigion y Cyngor ar y pwynt hwn.

**Ymateb i’r Ail Ymgynghoriad**

Jill Davies, Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan

**Ddim o Blaid**

Rydym yn falch bod y Cyngor wedi ystyried effaith rhannu cymuned Llanbeddri, Llancatan, Llancarfan a Moulton yn ysgolion cynradd ac yna uwchradd gwahanol ac wedi newid y cynnig i gynrychioli hyn. Nid ydym yn teimlo y bu unrhyw newid arall sylweddol i’r cynnig ac mae ein ateb gwreiddiol yn parhau i fod yn ddilys, a hoffem i hwnnw gael ei ystyried ar y cyd â’r ymateb hwn.

Sylwch bod yr aelodau staff sy’n rhan o’r corff llywodraethu yn ogystal a Gordon Kemp wedi atal eu cyfraniad at benderfyniad y Corff Llywodraethu i wrthwynebu cynigion y Cyngor ar y pwynt hwn.

**<u>Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Rhws</u>**

**Ymateb i’r Ymgynghoriad Cyntaf**

Matthew Lloyd – Cadeirydd y Corff Llywodraethu

**Ddim o Blaid**

Nid yw Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Rhws yn cefnogi’r cynnig yn ei gyfanrwydd oherwydd nad ydym yn teimlo bod y cynnig yn trafod yn llawn y ddarpariaeth Gynradd trwy’r ardal leol gyfan, ac yn benodol diffyg unrhyw fath o fuddsoddiad yn adeilad Ysgol Gynradd y Rhws. Mae’r cynnig ar gyfer ysgol newydd yn cael ei gefnogi’n ariannol gan dair ffynhonnell, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg ac arian Adran 106 o ganlyniad i ddatblygiad tai newydd yn y Rhws. Hyd y gwyddom, nid yw Ysgol Gynradd y Rhws erioed wedi elwa gan unrhyw arian adran 106, yn cynnwys datblygiad gwreiddiol Trwyn y Rhws, ac ni fydd chwaith yn derbyn unrhyw arian adran 106 yn sgil y datblygiad newydd. Ein her ni yw y dylai’r arian adran 106 fod ar gael i Ysgol Gynradd y Rhws i wella yr amryw broblemau adeiladu sydd yno, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: • to’n gollwng • gwynt yn dod trwy’r ffenestri • gwres aneffeithlon ac anodd ei reoli • system dasgu dŵr wedi ei chynllunio’n wael • lifft wedi ei gynllunio’n wael • fframiau ffenest pren yn pydru • rhwd a gwter wedi malu • maint dosbarthiadau anaddas • ardal ffreutur nad yw’n addas at y diben ac unrhyw ysgol newydd y mae gofyn ei hadeiladu i fodloni capasiti addysgol yn y pentref. Ni wyddys yn iawn, ond mae’r Corff Llywodraethu yn deall y gallai’r gwaith atgyweirio uchod i gyd gostio dros £500,000 – ffigwr y galli dyraniad arian adran 106 sy’n deilio o’r datblygiadau tai newydd dalu amdano. Mae corff llywodraethu Ysgol y Rhws hefyd yn hawlio nad yw’r adroddiad i’r cabinet yn trafod y meysydd canlynol mewn digon o fanylder: 1. Effaith gymdeithasol negyddol bosibl ar breswylwyr y pentref, oedolion a phlant o newid i fod yn bentref ag un ysgol gynradd yn ôl ei thraddodiad i fod yn bentref â dwy. Pe adeiladid ysgol newydd, byddai’r Corff Llywodraethu’n gofyn i’r awdurdod greu cynnig i’w ystyried,

sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer cyfuno neu greu ffederasiwn. Rydym yn credu bod y dull hwn yn ddichonadwy o ystyried y cyd-destun lleol. Byddai'r dull hwn yn diddymu unrhyw ddadlau yn y dyfodol ynghylch dalgylchoedd darpariaeth leol yn y Rhws ac yn rhoi dull ffurfiol o unioni'r ddwy ysgol yn strategol. 2. Gellid estyn Ysgol Gynradd y Rhws ei hun er mwyn ateb y galw am ragor o gapasiti ar un safle. Pan ddatblygwyd yr estyniad newydd yn Ysgol Gynradd y Rhws, lluniwyd cynlluniau pensaernïol gyda'r bwriad o allu estyn yr ysgol ymhellach yn y dyfodol. Nid ydym yn credu bod hyn wedi ei archwilio'n ddigon manwl a hoffem weld rhagor o waith yn mynd rhagddo, yn cynnwys talu am lunio cynlluniau newydd at y diben hwn. Mae safle Ysgol Gynradd y Rhws yn fawr ac mae potensial i allu ateb rhai o'r gofynion capasiti ychwanegol. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhws yn cefnogi cymuned Llancarfan ac yn gofyn i'r Cyngor wneud rhagor o ymdrechion i drafod ei phryderon ynghylch effaith colli ysgol wledig fechan ar y cyd-destun cymdeithasol a chymunedol yn y pentref. Ar hyn o bryd, rydym yn argyhoeddi bod yr asesiad effaith ar y gymuned a wnaed fel rhan o broses y cynnig cyntaf yn ddiffygiol o ran manylwch a chwmpas ac y dylid ei ehangu, ac yn bwysig ceisio ymgysylltu'n fy gweithredol ar lefel gymunedol ym mhentrefi'r Rhws a Llancarfan.

Dylai'r Cyngor ystyried y canlynol yn ddwys: - OS adeiladir ysgol newydd yn y Rhws, nid oes modd ystyried galw'r ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Dylid ceisio cynnig arall, mewn ymgynghoriad â phreswylwyr lleol – Rhoi peth o'r arian adran 106 a grëir yn y Rhws tuag at Ysgol Gynradd y Rhws er mwyn atgyweirio cyflwr gwael yr adeilad – Estyn ac ehangu cwmpas yr asesiad effaith ar y gymuned a chynnwys llawer mwy o ymgysylltu â'r gymuned leol. Dylai hyn ganolbwyntio'n benodol ar yr effaith a gâi colli ei ysgol leol ar bentref Llancarfan a hefyd effaith dwy ysgol ar bentref y Rhws – ystyried cyfuno a chreu ffederasiwn o ddwy system ysgol os caiff ysgol newydd ei hadeiladu yn y Rhws – Dylid ystyried opsiynau eraill i fodloni'r gofynion capasiti ychwanegol megis estyn Ysgol Gynradd y Rhws mewn mwy o fanylder.

Cyflwynwyd hyn yn hysbys i a chyda chydsyniad llawn Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Rhws. Matthew Lloyd Cadeirydd, Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Rhws

Cyfarfod y Llywodraethwyr ar 27 Mehefin 2018 am 17:30 gyda swyddogion y cyngor ynghylch ymgynghoriad ysgol Llancarfan.
Presennol: Bob Penrose (Aelod Cabinet)
Swyddogion y cyngor: Paula Ham, Lisa Lewis, Trevor Baker
Corff Llywodraethu: presennol Adam Riley, Andrew Llewellyn-Blakemore, y Cynghorydd Gordon Kemp,
Hayley Hughes, Jeffrey James, Joann Scott-Quelch, Julie Potter, Kate Jenkins, Katherine Kemp, Oli Spencer, Christine Hughes, Colin Smith
Ymddiheuriadau: Jill Davies, Jo Western

1. **Ymgynghoriad â Bro Morgannwg ynghylch y cynnig i fudo'r ysgol.**

Cyflwynwyd yr 2il ddogfen ymgynghori – Cyngor eisiau adborth felly cynrychiolwyr wedi dod i wrando.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion y cyngor a staff yr ysgol cyn cyfarfod y Llywodraethwyr.
Roedd llawer o'r problemau yn yr ymgynghoriad gwreiddiol yn dal heb eu datrys. Cawsom wybod bod ein hymateb ar y cyd yn parhau yn ddilys os nad ydym yn penderfynu cyflwyno ymateb newydd fel corff llywodraethu.
Roedd 560 ymateb wedi eu derbyn hyd yn hyn, yn cynnwys yr ymgynghoriad cyntaf a'r ail.
Mae craidd yr ymgynghoriad yr un peth. Roedd yr ail ddogfen er mwyn cyfeirio at bwyntiau pellach a rhoi asesiad effaith ar y ymuned wedi ei ddiweddaru a manylion derbyn, yn cynnwys rhai newidiadau i ffiniau dalgylchoedd.
Dywedwyd bod y gymuned yn teimlo nad oedd pwrpas ail-gynnal yr ymgynghoriad ond roedd yn falch y byddai ymatebion unigolion o'r ymgynghoriad cyntaf yn cael eu hystyried.
Dywedodd Bob Penrose mai rhan o'r broses ymgynghori yw diben heno. Maent am i ni gael cyfle i fynegi ein barn ar agweddau addysgol y cynnig. Nid oedd yr asesiad effaith mor fanwl gynt ag y mae nawr.
Gwahaniaeth mawr arall yn yr ail ymgynghoriad yw ei fod yn cyfeirio ar y pryderon ynghylch colli safle presennol Ysgol Llancarfan. Daw arian o gronfa adran 106 ac arian wrth gefn. Bydd gwahaniaeth amser rhwng pryd bydd y safle ar gael a phryd cwblheir y project. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud arian o'r safle a bydd yn defnyddio hwn i ariannu project yn y dyfodol. Yn ymarferol, daw'r arian o arian wrth gefn a bydd elw cyfalaf ar y safle ysgol presennol, pan ddaw i law, yn ailgyflenwi'r gronfa wrth gefn.
Dywedir bod Estyn wedi cynnig sylwadau, cadarnhaol yn ôl y sôn, ar y cynnig.
Dywedodd Paula Ham y bu gostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ardal, felly maent wedi edrych ar yr ardal ehangach ac maent yn credu y bydd y cynnig yn cynnal yr ysgol at y dyfodol.
Mae'r fformwla cyllideb yn dangos mai 210 disgybl yw'r lleiafrif effeithlon ar gyfer ysgol. Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn am gyflwyno rhaglenni ar y sail bod 210 disgybl yn yr ysgol, er y dywed LlC nad oes isafswm maint ar gyfer derbyn arian cyfwerth. Mae gwahaniaeth yng nghodau'r ysgolion rhwng y termau "cau" a "throsglwyddo".
Cyfeiriodd Paula Ham at yr arolwg rhieni a gwerth y statws ysgol fwydo. Bydd y Cyngor yn adolygu ysgolion bwydo yn yr arolwg academaidd nesaf ac yn cyflwyno ymgynghoriad a fydd yn trafod polisi dalgylchoedd, ysgolion bwydo a derbyn trwy'r Fro.
Gofynnodd Jeff James a yw'r broses yn dangos pa costau y byddai'r cyngor yn eu talu o ran ad-drefnu. Dywedodd Paula Ham eu bod fel arfer yn ariannu costau ad-drefnu o gronfa wrth gefn, yn ogystal â refeniw ychwanegol. Dywedodd y telid yn llawn am safle ysgol newydd a'i dodrefnu.
Soniodd Gordon Kemp am ariannu'r safle newydd ag arian wrth gefn yn gyntaf a dywedodd na ellid marchnata'r safle yn ffyrnig iawn tan mae'r safle newydd yn weithredol.
Dywedodd Katherine Kemp y bu'r ymgynghoriad cyntaf yn esgeulus a gwael. Dadleuodd y swyddogion yn erbyn hyn.
Bu trafodaeth bellach ynghylch gwerthu safle Llancarfan. Dywedodd Bob Penrose ei fod yn siŵr bod yr ymgynghoriad yn deud y câi'r elw ei ddefnyddio ar gyfer y safle newydd.

Pam nad yw'n bosibl estyn ysgol y Rhws? Dywedodd Trevor Baker bod gan raglen Ysgolion y 21ain Ganrif feini prawf gwahanol ac nad oes digon o le yn safle ysgol y Rhws i'w hestyn.

2. **Ymateb i'r ymgynghoriad**
Cyflwynwn ymateb ychwanegol fel corff llywodraethu.

3. **Presennol ac ymddiheuriadau**
Nodwyd ar ddechrau'r ddogfen hon.

4. **Cofnodion cyfarfod 18 Ebrill 2018 a'r materion yn codi ohono.**
Derbyniwyd y cofnodion. Cynigwyd gan Jeff James a Katherine Kemp yn ategu.

5. **Adroddiad y Pennaeth i'r llywodraethwyr**
Dosbarthwyd adroddiad y pennaeth gyda'r agenda a thraddodwyd gan Colin Smith. Cario balans o £13725 ymlaen. Bydd angen trwsio'r boeler. Roedd Mrs Hughes wedi negodi i ddileu'r bil dŵr yn sgil y gollwng dŵr diweddar.

6. **Polisïau i'w hadolygu**
Eco bolisi – peth dyblygu yn y polisi ond fel arall, cytunwyd arno.

7. **Diweddariad staffio a threfniant dosbarthiadau ym mis Medi**
Bydd Mr Jones yn cymryd lle Mr Bilney.
Casgliad gan y staff fydd anrheg gadael Mr Bilney. Cymeradwyodd y cyfarfod roi £50 o gronfa'r ysgol.

**8. Diweddariad ariannol**
Trafodwyd yn Eitem 5.

**9. Mynediad i'r Hwb**
Roedd Mr Bilney yn ceisio caniatâd i roi mynediad at yr Hwb i'r llywodraethwyr; bydd Dean Jones yn gwneud hyn yn y cyfamser.

**10. Hyfforddiant llywodraethwyr**
Mae Fran Williams a Jill Davies wedi cwblhau hyfforddiant data. Roedd y pecyn hyfforddi'n anghywir.
Mae Christine Hughes a Fran Williams wedi cwblhau hyfforddiant ariannol.

**11. Hunan-werthuso Ysgolion**
Mae'r broses yn newid. Bu Colin Smith ar hyfforddiant.

**12. Cyfathrebu a dogfennau a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.**
Dim

**13. Unrhyw Fusnes Arall**
Dim

**14. Penderfynu ar faterion i'w hystyried yn gyfrinachol.**
CYFRINACHOL

**Atodiad F**

**Ymateb Estyn i'r ymarfer ymgynghori cyntaf**

## Ymateb Estyn i’r cynnig i ad-drefnu darpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro (Bro Morgannwg)

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn mynegi ei farn am rinweddau cyffredinol cynigion i ad-drefnu ysgol.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd a gwybodaeth ychwanegol arall o gronfeydd data Estyn a chan Lywodraeth Cymru.

## Crynodeb/ Casgliad

Y cynnig yw:

- ad-drefnu darpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro trwy greu adeilad ysgol gynradd newydd ar safle newydd ar gyfer hyd at 210 o ddisgyblion, a dosbarth meithrin ar gyfer hyd at 48 o ddisgyblion yn rhan-amser
- symud yr holl ddisgyblion a staff o Ysgol Gynradd Llancarfan i safle’r ysgol newydd, ac
- ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4 i 11 oed i 3 i 11 oed.

Mae hyn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf.

## Disgrifiad a manteision

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn ar gyfer y cynigion i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan gan ychwanegu 48 o leoedd meithrin ar gyfer disgyblion yn rhan-amser, ar safle newydd yn Y Rhws. Mae’n amlinellu manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig yn glir. Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion presennol yn Ysgol Gynradd bresennol Llancarfan, ei disgyblion yn y dyfodol, yn ogystal â’r rheiny yn Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair a Sant Nicholas. Y rheswm am hyn yw y byddai’r cynllun arfaethedig i ailosod y dalgylchoedd presennol yn Y Rhws er mwyn gwneud lle i safle’r ysgol newydd yn effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgolion hyn. Mae’r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i safonau addysgol, lleoedd ysgol dros ben, trefniadau teithio disgyblion, hygyrchedd y ddarpariaeth, ansawdd a chynaliadwyedd adeiladau ysgol, buddsoddiad ariannol a chostau cynnal a chadw.

Mae’r cynnig yn pennu bod Ysgol Gynradd Llancarfan yn ysgol gymharol fach sy’n derbyn 18 disgybl. Mae poblogaeth bresennol ei dalgylch, sef 55 o blant, yn llai na hanner capasiti’r ysgol, sef 126 o leoedd. Mae 106 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, a thua thraean ohonynt yn unig sy’n byw yn nalgylch yr ysgol. Mae’r 75 o ddisgyblion sy’n weddill yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, ac mae 36 o’r disgyblion hyn yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhws. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Y Rhws bron â chyrraedd yr uchafswm o ran ei chapasiti.

Mae’r cynnig yn amlinellu’n glir fod angen mynd i’r afael â lefel y lleoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Llancarfan yng ngoleuni niferoedd disgyblion presennol ac arfaethedig, er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yr ysgol. Yn ychwanegol, mae’r awdurdod lleol wedi ystyried y datblygiad tai yn y gogledd orllewin a’r gogledd ddwyrain yn Y Rhws ac mae wedi rhagamcanu diffyg disgwyliedig o 90 o leoedd ysgol gynradd erbyn 2023 o ganlyniad i’r datblygiadau tai arfaethedig yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhws.

Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried yn ofalus gyflwr adeiladau’r ysgol, y cyfleusterau a’r mynediad i Ysgol Gynradd Llancarfan, sy’n cynnwys adeilad ysgol Fictoraidd lle caiff disgyblion eu haddysgu mewn dwy ystafell ddosbarth a thri bloc symudol ar wahân ar safle bach. Pennodd arolwg o gyflwr yr ysgol yn 2014 fod angen ychydig o fuddsoddiad i sicrhau bod safon y ddarpariaeth adeiladu’n cael ei chynnal. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn bodloni’r safonau a amlinellir yn y fframwaith statudol ar gyfer adeiladau a dyluniad ysgol yng Nghymru ac mae llwybrau trwy’r pentref a lonydd i fynd at yr ysgol yn orlawn. Hefyd, mae’r potensial ar gyfer cyfleoedd datblygu pellach yn Ysgol Gynradd Y Rhws i ddarparu ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn niferoedd y disgyblion yn ei dalgylch, yn gyfyngedig. Mae’r ysgol yn adeilad rhestredig gradd 2 ac mae safle’r ysgol yn gyfyngedig o ran maint.

Mae’r cyngor yn darparu rhesymeg glir ar gyfer sut bydd yn mynd i’r afael â’r materion hyn trwy symud yr holl ddisgyblion a staff o safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad ysgol gynradd newydd yn Y Rhws, ac ailddiffinio’r dalgylchoedd yn rhanbarth Gorllewin y Fro. Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried dewisiadau eraill addas ac wedi rhoi rhesymau da ynglŷn â pham mae wedi diystyru’r rhain.

Mae’r cynnig wedi ystyried effaith y ddarpariaeth newydd ar ysgolion eraill yn yr ardal leol ac wedi dangos sut byddai’n ailddosbarthu dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan ymhlith Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair, Sain Tathan a Sant Nicholas a diffinio dalgylch newydd safle newydd Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae’n rhagweld y bydd y diwygiadau hyn yn cynyddu niferoedd y disgyblion ar gyfer yr ysgolion eraill. Fodd bynnag, mae niferoedd y disgyblion a ragamcenir ar gyfer dwy o’r ysgolion (Sant Nicholas a Sain Tathan) yn gostwng dros gyfnod.

Mae’r cynnig yn cyflwyno’n glir gynllun yr awdurdod lleol ar gyfer trosglwyddo disgyblion, staff a llywodraethwyr i safle’r ysgol newydd ym mis Medi 2021, gan gynnwys sut bydd yr awdurdod lleol yn ‘anrhydeddu’r’ trefniadau bwydo a

chysylltiadau'r dalgylch ag Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer y disgyblion presennol sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Llancarfan.

Mae'r cynllun wedi ystyried yn briodol yr effaith ar drefniadau teithio dysgwyr, o ran cymhwyster disgyblion i fanteisio ar gludiant ysgol am ddim ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol, o dan bolisi presennol yr awdurdod lleol. Mae'n cydnabod y bydd rhaid i rai disgyblion sy'n byw'n agosach at safle'r ysgol bresennol deithio ymhellach. Mae'r trefniadau pontio arfaethedig ar gyfer derbyn yn rhoi ystyriaeth addas i gynorthwyo disgyblion sydd â brodyr neu chwiorydd a allai gael eu heffeithio gan y newid mewn dalgylchoedd. Mae'r cyngor yn datgan ei fod yn ystyried goblygiadau traffig fel rhan o'r Asesiad Cludiant sydd ei angen er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu. Mae wedi ystyried nad oes unrhyw effaith o ganlyniad i'r cynnig hwn ar y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael i ddisgyblion gael mynediad i'r ysgol, fel rhan o'i Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Mae'n debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol.

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith niweidiol ar ddisgyblion o grwpiau gwahanol, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rheiny o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol wedi cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'n bwriadu gwneud hyn ar ôl yr ymgynghoriad.

Ni fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, gan y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ddarparu hyn trwy ysgol y dalgylch, sef Ysgol Dewi Sant. Nid yw'r cynnig yn ceisio newid statws Ysgol Gynradd Llancarfan fel ysgol cyfrwng Saesneg.

Mae cynnig yr awdurdod lleol i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan i gynnwys darpariaeth feithrin wedi'i seilio ar egwyddor gref i sefydlu a chefnogi parhad a dilyniant yn nysgu plant o 3 oed ymlaen a chefnogi sefydlogrwydd o ran niferoedd yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn amlinellu p'un a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal, neu fod yr awdurdod lleol wedi ystyried effaith y cynnig ar niferoedd y disgyblion meithrin mewn ysgolion eraill, neu'r effaith ar leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg ar gyfer plant cyn oedran ysgol gorfodol.

Ystyriwyd yr agweddau cyfreithiol ar y cynnig ac maent yn gweithredu o fewn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynllun yn cadarnhau bod gweithdrefnau arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynnig wedi ystyried deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn briodol yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Yn gyffredinol, mae wedi defnyddio ystod addas o

dystiolaeth i wneud hyn. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cynnwys dadansoddiad o ddata perfformiad yr ysgol.

Mae'r cynnig yn nodi i Estyn farnu bod perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella yn 'dda' pan arolygodd yr ysgol yn 2014. Barnwyd bod arweinyddiaeth, gan gynnwys rôl llywodraethwyr, yn dda. Nid yw'r cynnig yn ei gwneud yn glir p'un a oedd yr arweinwyr presennol yn eu swyddi adeg yr arolygiad diwethaf, ond mae'n nodi bod newidiadau staffio wedi digwydd:

'Mae newidiadau sylweddol o ran staff wedi cael eu rheoli'n dda ac mae gan yr ysgol Ddirprwy parhaol a 3 Athro Dosbarth.' (tud.19)

Mae'r ysgol wedi cael ei rhoi yn y categori cymorth melyn yng nghategoreiddiad ysgolion diweddaraf Llywodraeth Cymru, gyda gradd 2 am safonau a B o ran gallu i wella.

Ychydig iawn o anghysondebau a geir yn nisgrifiad bras y cynigiwr o ddeilliannau diweddar yr ysgol yn erbyn ei thargedau:

> 'Mae'r ysgol wedi gosod targedau ysgol gyfan heriol ac roedd **bron pob un** o ddeilliannau 2016-17 yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnod Allweddol yn bodloni'r targedau a osodwyd, neu'n rhagori arnynt' (tud.18)

'Mae targedau'n adlewyrchu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad pob disgybl, a **bodlonir y rhain yn gyson**.'

Mae'n ymddangos bod targed presennol yr ysgol ar gyfer gwelliant mewn addysgu yn awgrymu bod ansawdd yr addysgu, y barnwyd ei fod yn ddigonol adeg yr arolygiad diwethaf, wedi gwella.

Mae'r cynnig yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth newydd yn debygol o gael effaith negyddol ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn ar draws y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2, a chynnal y safonau presennol. Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys dosbarth meithrin yn cefnogi parhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu disgyblion o oedran cyn ysgol i oedran ysgol statudol. Mae ychwanegu cyfleusterau awyr agored yn debygol o wella lles disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd gwell i ddatblygu eu medrau corfforol a'u hiechyd. Yn ychwanegol, mae cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth awyr agored o ansawdd uchel yn egwyddor allweddol yn addysgeg y cyfnod sylfaen.

**Asesiad Risg**

Mae'r awdurdod lleol yn nodi bod 50% o gyllid o dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyaeth yr achos busnes. Mae gweddill y cyllid yn ddibynnol ar gwblhau'r datblygiad tai a chyllid cyfalaf gan yr awdurdod lleol. Nid yw'r awdurdod lleol yn cynnwys unrhyw gamau i reoli'r risgiau hyn yn y cynnig.

**Ymateb Estyn i'r ail ymarfer ymgynghori**

## Ymateb Estyn i’r cynnig i ad-drefnu darpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro (Bro Morgannwg)

## Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn mynegi ei farn am rinweddau cyffredinol cynigion i ad-drefnu ysgol.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd a gwybodaeth ychwanegol arall o gronfeydd data Estyn a chan Lywodraeth Cymru.

## Crynodeb/ Casgliad

Yn sgil sylwadau a wnaed gan aelodau’r gymuned yn ymateb i’r ddogfen gychwynnol, mae’r awdurdod lleol wedi llunio dogfen ymgynghorol ddiwygiedig yn cynnwys ymatebion i lawer o gwestiynau. Mae’r ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys mwy o fanylion ac mae’n cynnwys amserlen ymgynghori newydd.

Y cynnig yw:

- ad-drefnu darpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro trwy greu adeilad ysgol gynradd newydd ar safle newydd ar gyfer hyd at 210 o ddisgyblion, a dosbarth meithrin ar gyfer hyd at 48 o ddisgyblion yn rhan-amser
- symud yr holl ddisgyblion a staff o Ysgol Gynradd Llancarfan i safle’r ysgol newydd, ac
- ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4 i 11 oed i 3 i 11 oed.

Mae hyn yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf.

## Disgrifiad a manteision

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn ar gyfer y cynigion i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan gan ychwanegu 48 o leoedd meithrin ar gyfer disgyblion yn rhan-amser, ar safle newydd yn Y Rhws. Mae’n amlinellu manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig yn glir. Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion presennol yn Ysgol Gynradd bresennol Llancarfan, ei disgyblion yn y dyfodol, yn ogystal â’r rheiny yn Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair a Sant Nicholas. Y rheswm am hyn yw y byddai’r cynllun arfaethedig i ailosod y dalgylchoedd presennol yn Y Rhws er mwyn

gwneud lle i safle’r ysgol newydd yn effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgolion hyn. Mae’r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i safonau addysgol, lleoedd ysgol dros ben, trefniadau teithio disgyblion, hygyrchedd y ddarpariaeth, ansawdd a chynaliadwyedd adeiladau ysgol, buddsoddiad ariannol a chostau cynnal a chadw.

Mae’r cynnig yn pennu bod Ysgol Gynradd Llancarfan yn ysgol gymharol fach sy’n derbyn 18 disgybl. Mae poblogaeth bresennol ei dalgylch, sef 55 o blant, yn llai na hanner capasiti’r ysgol, sef 126 o leoedd. Mae 106 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, a thua thraean ohonynt yn unig sy’n byw yn nalgylch yr ysgol. Mae’r 75 o ddisgyblion sy’n weddill yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, ac mae 36 o’r disgyblion hyn yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhws. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Y Rhws bron â chyrraedd yr uchafswm o ran ei chapasiti.

Mae’r cynnig yn amlinellu’n glir fod angen mynd i’r afael â lefel y lleoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Llancarfan yng ngoleuni niferoedd disgyblion presennol ac arfaethedig, er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yr ysgol. Yn ychwanegol, mae’r awdurdod lleol wedi ystyried y datblygiad tai yn y gogledd orllewin a’r gogledd ddwyrain yn Y Rhws ac mae wedi rhagamcanu diffyg disgwyliedig o 90 o leoedd ysgol gynradd erbyn 2023 o ganlyniad i’r datblygiadau tai arfaethedig yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhws.

Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried yn ofalus gyflwr adeiladau’r ysgol, y cyfleusterau a’r mynediad i Ysgol Gynradd Llancarfan, sy’n cynnwys adeilad ysgol Fictoraidd lle caiff disgyblion eu haddysgu mewn dwy ystafell ddosbarth a thri bloc symudol ar wahân ar safle bach. Pennodd arolwg o gyflwr yr ysgol yn 2014 fod angen ychydig o fuddsoddiad i sicrhau bod safon y ddarpariaeth adeiladu’n cael ei chynnal. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn bodloni’r safonau a amlinellir yn y fframwaith statudol ar gyfer adeiladau a dyluniad ysgol yng Nghymru ac mae llwybrau trwy’r pentref a lonydd i fynd at yr ysgol yn orlawn. Hefyd, mae’r potensial ar gyfer cyfleoedd datblygu pellach yn Ysgol Gynradd Y Rhws i ddarparu ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn niferoedd y disgyblion yn ei dalgylch, yn gyfyngedig. Mae’r ysgol yn adeilad rhestredig gradd 2 ac mae safle’r ysgol yn gyfyngedig o ran maint.

Mae’r cyngor yn darparu rhesymeg glir ar gyfer sut bydd yn mynd i’r afael â’r materion hyn trwy symud yr holl ddisgyblion a staff o safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad ysgol gynradd newydd yn Y Rhws, ac ailddiffinio’r dalgylchoedd yn rhanbarth Gorllewin y Fro. Mae’r awdurdod lleol wedi ystyried dewisiadau eraill addas ac wedi rhoi rhesymau da ynglŷn â pham mae wedi diystyru’r rhain.

Mae’r cynnig wedi ystyried effaith y ddarpariaeth newydd ar ysgolion eraill yn yr ardal leol ac wedi dangos sut byddai’n ailddosbarthu dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan ymhlith Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair, Sain Tathan a Sant Nicholas a diffinio dalgylch newydd safle newydd Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae’n rhagweld y bydd y diwygiadau hyn yn cynyddu nifer y disgyblion ar gyfer yr ysgolion eraill ac

mae'n cynnwys rhagamcan uwch o nifer disgyblion Ysgol Gynradd Rhws dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r cynnig yn cyflwyno'n glir gynllun yr awdurdod lleol ar gyfer trosglwyddo disgyblion, staff a llywodraethwyr i safle'r ysgol newydd ym mis Medi 2021, gan gynnwys sut bydd yr awdurdod lleol yn 'anrhydeddu'r' trefniadau bwydo a chysylltiadau'r dalgylch ag Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer y disgyblion presennol sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Llancarfan.

Mae'r cynllun wedi ystyried yn briodol yr effaith ar drefniadau teithio dysgwyr, o ran cymhwyster disgyblion i fanteisio ar gludiant ysgol am ddim ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol, o dan bolisi presennol yr awdurdod lleol. Mae'n cydnabod y bydd rhaid i rai disgyblion sy'n byw'n agosach at safle'r ysgol bresennol deithio ymhellach. Mae'r trefniadau pontio arfaethedig ar gyfer derbyn yn rhoi ystyriaeth addas i gynorthwyo disgyblion sydd â brodyr neu chwiorydd a allai gael eu heffeithio gan y newid mewn dalgylchoedd. Mae'r cyngor yn datgan ei fod yn ystyried goblygiadau traffig fel rhan o'r Asesiad Cludiant sydd ei angen er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu. Mae wedi ystyried nad oes unrhyw effaith o ganlyniad i'r cynnig hwn ar y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael i ddisgyblion gael mynediad i'r ysgol, fel rhan o'i Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Mae'n debygol y bydd y cynnig o leiaf yn cynnal lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol.

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith niweidiol ar ddisgyblion o grwpiau gwahanol, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rheiny o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol wedi cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'n bwriadu gwneud hyn ar ôl yr ymgynghoriad.

Ni fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, gan y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ddarparu hyn trwy ysgol y dalgylch, sef Ysgol Dewi Sant. Nid yw'r cynnig yn ceisio newid statws Ysgol Gynradd Llancarfan fel ysgol cyfrwng Saesneg.

Mae cynnig yr awdurdod lleol i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan i gynnwys darpariaeth feithrin wedi'i seilio ar egwyddor gref i sefydlu a chefnogi parhad a dilyniant yn nysgu plant o 3 oed ymlaen a chefnogi sefydlogrwydd o ran niferoedd yn yr ysgol. Mae'r cynllun yn datgan bod angen mwy o ddarpariaeth feithrin yn yr ardal, gan nad oes darpariaeth yn yr ardal gyfagos ar hyn o bryd ac mae'r darparwyr cofrestredig nas cynhelir agosaf yng Ngwersyll y Gorllewin, Sain Tathan, ac yn ardal Llanddunwyd. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd nifer cyffredinol y lleoedd meithrin y bydd eu hangen yn cynyddu rhyw 70 lle yn yr ardal i gyfrif am y datblygiadau tai newydd sydd yn yr arfaeth. Mae'r Cyngor yn disgwyl i Ysgol Gynradd Rhws ac Ysgol Gynradd Llancarfan ddiwallu'r galw ychwanegol.

Ystyriwyd yr agweddau cyfreithiol ar y cynnig ac maent yn gweithredu o fewn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynllun yn cadarnhau bod gweithdrefnau arfaethedig yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynnig wedi ystyried deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn briodol yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Yn gyffredinol, mae wedi defnyddio ystod addas o dystiolaeth i wneud hyn gan gynnwys dadansoddiad byr o ddata perfformiad yr ysgol dros y 3 blynedd diwethaf.

Mae'r cynnig yn nodi i Estyn farnu bod perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella yn 'dda' pan arolygodd yr ysgol yn 2014. Barnwyd bod arweinyddiaeth, gan gynnwys rôl llywodraethwyr, yn dda. Nid yw'r cynnig yn ei gwneud yn glir p'un a oedd yr arweinwyr presennol yn eu swyddi adeg yr arolygiad diwethaf, ond mae'n nodi bod newidiadau staffio wedi digwydd. Fodd bynnag, mae'r consortiwm rhanbarthol yn barnu bod y pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn arwain yr ysgol yn dda iawn

Mae'r ysgol wedi cael ei rhoi yn y categori cymorth melyn yng nghategoreiddiad ysgolion diweddaraf Llywodraeth Cymru, gyda gradd 2 am safonau a B o ran gallu i wella.

Ychydig iawn o anghysondebau a geir yn nisgrifiad bras y cynigiwr o ddeilliannau diweddar yr ysgol yn erbyn ei thargedau:

> 'Mae'r ysgol wedi gosod targedau ysgol gyfan heriol ac roedd **bron pob un** o ddeilliannau 2016-17 yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnod Allweddol yn bodloni'r targedau a osodwyd, neu'n rhagori arnynt' (tud.18)
> 'Mae targedau'n adlewyrchu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad pob disgybl, a **bodlonir y rhain yn gyson**.'

Dywed y consortiwm rhanbarthol fod yr addysgu yn yr ysgol yn dda yn gyson, gydag elfennau o ragoriaeth, gan awgrymu bod ansawdd yr addysgu, a farnwyd yn ddigonol adeg yr arolygiad diwethaf, wedi gwella'n sylweddol.

Mae'r cynnig yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth newydd yn debygol o gael effaith negyddol ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn ar draws y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2, a chynnal y safonau presennol. Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth i gynnwys dosbarth meithrin yn cefnogi parhad a dilyniant ym mhrofiadau dysgu disgyblion o oedran cyn ysgol i oedran ysgol statudol. Mae ychwanegu cyfleusterau awyr agored yn debygol o wella lles disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd gwell i ddatblygu eu medrau corfforol a'u hiechyd. Yn

ychwanegol, mae cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth awyr agored o ansawdd uchel yn egwyddor allweddol yn addysgeg y cyfnod sylfaen.

**Asesiad Risg**

Mae’r awdurdod lleol yn nodi bod 50% o gyllid o dan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyaeth yr achos busnes. Mae gweddill y cyllid yn ddibynnol ar gwblhau’r datblygiad tai a chyllid cyfalaf gan yr awdurdod lleol. Mae’r awdurdod lleol yn barnu mai risg gyfyngedig yw hyn gan fod rhai rhandaliadau ar gyfer tai eisoes wedi dod i law ac mae’r tir wedi hen ddechrau cael ei ddatblygu.

**Atodiad G**

**Crynodeb Arolwg Rhieni Llancarfan**

**Cynhaliodd preswylwyr Llancarfan eu harolwg eu hunain, a ddychwelwyd i'r Cyngor fel rhan o'r broses ymgynghori.**

**Parthed yr arolwg hwnnw, nododd yr ymatebwyr:**

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr arolwg yn gadarn a diragfarn. Fe'i cwblhawyd yn ddienw, a dim ond rhieni dderbyniodd ddolen drwy e-bost a allai ymateb. Gyrrwyd yr arolwg at 75 o deuluoedd, yr ydym yn hyderus eu bod yn cynrychioli'r rhan fwyaf, os nad y cwbl, o'r disgyblion presennol sydd ar y gofrestr yn yr ysgol. Fel cam pellach i sicrhau ein bod mewn cyswllt â'r rhieni i gyd, roedd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn annog unrhyw un na dderbyniodd eu dolen i ddarparu eu cyfeiriad e-bost er mwyn gallu cymryd rhan.

Cyflwynwyd cyfanswm o 43 o arolygon, cyfradd ymateb gredadwy iawn o 57%. Mae patrwm yr ymatebion fesul dalgylch ysgol yn adlewyrchu'n gyffredinol batrwm poblogaeth yr ysgol ac nid oedd yn ffafrio un ardal rhagor y llall. Daeth 43% o'r ymatebion gan deuluoedd yn nalgylch Llancarfan, 21% o ardal y Rhws a'r gweddill o ardaloedd eraill (37%).

Lawn cyn bwysiced, roedd 29 o ymatebion (dau draean o'r sampl) gan rieni a gaiff eu heffeithio yn uniongyrchol gan y cynnig, un ai oherwydd bod plentyn yn y Dosbarth Derbyn ganddynt, neu flynyddoedd 1 i 3, neu fod plentyn iau ganddynt sydd i fod i ddechrau un ai ym neu wedi mis Medi 2021.

# Llancarfan Primary School Parents Survey

## Llancarfan Primary School's small size and village location are key to its appeal and ethos

The **small school size** (mentioned by 93% of parents) and **rural setting** (79%) were by far the most common reasons given by parents for choosing Llancarfan Primary. These factors **ranked higher** than the quality of education provided by the school (65%) and the feeder link to Cowbridge Comprehensive (65%).

## The school has positive appeal to parents (and not just those located conveniently nearby)

Almost every parent who responded to the survey had made **a positive choice** for their child to attend Llancarfan. Only one family selected Llancarfan because their first choice school was unavailable, and **seven out of ten parents** (70%) chose Llancarfan for reasons other than its convenience.


## Very few parents would choose to send their child to the new school proposed by the council

The 210 place school in Rhoose proposed by the council has very little appeal for parents of children currently at Llancarfan Primary. Only five parents (12% of the sample) said they would choose the new school, while **88% said they would consider another option**.


*Online survey hosted on Surveymonkey between 1 June and 18 June 2018.*
*Analysis based on 43 responses out of 75 families contacted, a response rate of 57%.*

**The survey calls into real question the number of pupils likely to transfer to the new school, and how many new school entrants from within the revised catchment area will apply to attend once the transfer period is over**

## Why did you choose Llancarfan Primary?




## Would you choose the new school in Rhoose or consider another option?*




**Imagine you had a child about to start primary school for the first time, with no siblings in any other school. Would you choose the new 210 place school in Rhoose proposed by the council or would you consider another option?*

**Atodiad H**

**Cofnodion Ysgol Gynradd Llancarfan mewn perthynas â'r ymgynghoriad**

LLYWODRAETHV

# Cofnodion Cyfarfod y Corff Llywodraethu Llawn

## Dydd Mercher 28 Mawrth 2018, 5.30pm

**Yn bresennol** J Davies (JD - Cadeirydd), H Hughes (HH- Is-gadeirydd), C Smith (CS - Pennaeth),
J Potter (JP), O Spencer (OS), K Kemp (KK), J Scott-Quelch (JS-Q),
C Hughes (CH), F Williams (FW), K Jenkins (KJ), A Riley (AR), J James (JJ)
A Llewellyn-Blakemore (ALB),

J Western (JW - Clerc)

**Ymddiheuriadau** G Kemp (GK)

**Ymwelwyr** Paula Ham
Lisa Lewis
Jane O'Leary - Ysgolion yr 21ain Ganrif, Cyngor Bro Morgannwg

*CLl – Cwestiynau Llywodraethwr*

---

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd JD bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr ymwelwyr eu hunain. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan GK.

**2. Ymgynghoriad gyda Bro Morgannwg ar Fudo'r Ysgol**

Mae cynnig eisoes wedi'i dderbyn gan GB. Anogwyd llywodraethwyr i ofyn cwestiynau a lleisio eu pryderon ynghylch y cynigion:

*Niferoedd yn yr ysgol*

Mae'r rownd dderbyn gyntaf ar gyfer mis Medi wedi'i chynnal ac mae niferoedd eithaf isel. Rhagwelir y bydd niferoedd yn is na'r arfer. Gallai rhagweld niferoedd disgyblion am dair blynedd fod yn opsiwn o ran atal colli staff o ganlyniad i niferoedd disgybl is. Mae modd amddiffyn arian i alluogi'r ysgol i gadw staff, ond dewis yr ysgol yw sut mae hi'n gwario'r arian.

Mae nifer y disgyblion ar gyfer mis Medi yn cynnwys 19 yn gadael a 7 yn dod i mewn. Yn hanesyddol, derbynnir ceisiadau hyd at fis Mehefin. Caeodd y ceisiadau cyn i'r cynnig gael ei gyhoeddi.

*<u>Sut mae'r cynnig wedi digwydd yn y lle cyntaf?</u>*
Edrychon ni ar bob opsiwn. Gwnaethon ni ystyried ysgol fwy i gymryd yr un wreiddiol yn y Rhws a rhoi lle i nifer fwy o blant. Mae Ysgol Gynradd y Rhws yn adeilad rhestredig ar safle cyfyngedig. Mae'r costau i'w gwneud yn fwy yn sylweddol fwy nag adeiladu ysgol gyfan newydd.

Mae'r safle ond yn ddigon mawr ar gyfer ysgol â 210 o leoedd, nid oedd galw o'r datblygiad tai newydd yn y Rhws yn ddigon mawr i lenwi'r ysgol â 210 lle.

Mae 372 o ddisgyblion yn ysgol y Rhws ar hyn o bryd ac mae lle ynddi am 375 o ddisgyblion. Felly, nid yw'n hollol llawn ar hyn o bryd. Mae'r capasiti ym mhob un o'r grwpiau blwyddyn.

Mae'r Taliad Adran 106 yn ddibynnol ar y safle cyfredol. Mae'r safle i'r gogledd-ddwyrain yn ceisio adnewyddu cais cynllunio gan ei fod wedi methu. Mae diddordeb o hyd mewn datblygu'r safle i'r gogledd-ddwyrain.

Gellir hawlio Addysg 106 dim ond os oes disgyblion newydd fydd yn dod o'r datblygiad hwnnw.

Cynyddiadau yw 30 fesul grŵp blwyddyn.

*Awgrymodd llywodraethwyr, pe bai Llancarfan yn aros yn Llancarfan, a phe bai'r safle i'r gogledd-ddwyrain yn darparu mwy o gyllid Adran 106, y gallai Ysgol Gynradd y Rhws gau a gallai fod dwy ysgol gyda lle i dderbyn 210.*

*<u>Darpariaeth?</u>*
Rhaglen Band B i Lywodraeth Cymru - Darpariaeth Gynradd yng Ngorllewin y Fro. 50% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru, rhywfaint gan Adran 106 a rhywfaint gan y Cyngor.

*<u>Dalgylch?</u>*
Mae disgyblion sy'n trosglwyddo ar sail fudo a'u brodyr/chwiorydd wedi'u cynnwys yn y cynnig i gael gwarant i fod yn yr ysgol fwydo i'r Bont-faen.

Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar ddalgylchoedd. Dylid ystyried yr effaith ar y gymuned. Cyhoeddir meini prawf pan fo mwy o alw na lleoedd. Mae'r ardal yn newid a felly bydd y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen yn newid yn y dyfodol, fodd bynnag.

*Pwysleisiodd y llywodraethwyr y byddai'n fater mawr i'r pentref pe bai'r disgyblion yn cael eu gostwng o'r dalgylch ar gyfer y Bont-faen.*

Mae dalgylchoedd ac ysgolion bwydo'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ond, pe bai'r Fro yn atal defnyddio ysgol fwydo, byddai plant Llancarfan, sy'n byw yn Llancarfan, yn cymhwyso fel plant yn y dalgylch o hyd.

*Tynnodd llywodraethwyr sylw at y ffaith bod disgyblion o'r Barri a'r Rhws wedi dewis Llancarfan gan ei bod yn ysgol wledig ac yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen.*
Bydd y rhaglen Band B yn effeithio ar ysgolion Bwydo felly caiff ei adolygu yn y 12 mis nesaf. Gallai pobl sy'n byw yn Llancarfan fod yn y dalgylch o hyd. Mae gan y Rhws drefniadau bwydo dwbl.

Mae dwy ysgol gyfun newydd yn y Barri'n agor ym Medi 2018. Byddai gan yr ysgol wedi'i mudo ddewis o hyd fel ysgol fwydo ddwbl.

*<u>Beth yw'r brif reswm dros fudo'r ysgol?</u>*
I fynd i'r afael â chapasiti yn Ysgol Gynradd Llancarfan a'r Rhws. Mae gan Lancarfan leoedd dros ben a bydd angen mwy o leoedd ar y Rhws o ganlyniad i dai.

Ni all ysgol y Rhws gynyddu'r capasiti ac ni fyddai'n bodloni meini prawf i gael cyllid. Byddai nifer y disgyblion sy'n teithio o'r Rhws i ysgolion cyfun eraill yn cynyddu traffig yn sylweddol.

Rhagwelir na fydd angen mwy na 210 o leoedd ychwanegol arni. Byddai'r ysgol newydd yn cynnig digon o leoedd ar gyfer yr ardal ond ddim gormod o leoedd. Gosododd Llywodraeth Cymru gyfyngiad ar faint o leoedd dros ben y gallwch eu cael. Dim mwy na 10%.

*<u>Sut gwnaethoch chi gyfrif nifer y lleoedd ysgol sydd eu hangen?</u>*
Gwnaethpwyd y rhagamcanion ar sail datblygiadau tai y mae'r Fro yn ymwybodol ohonynt ac eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio. Maent wedi cynnwys tai gogledd-ddwyrain Persimmon. Os na fydd datblygiad Persimmon yn mynd yn ei flaen, cynigir y lleoedd i ddisgyblion allan o'r dalgylch.

*Mae'r Llywodraethwyr wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r aflonyddwch ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys teimlo bod cael dwy ysgol yn y Rhws yn mynd i gynyddu rhaniad yn y gymuned. Bydd y mudo hefyd yn cael effaith ar Bentref Llancarfan, gan ei droi'n bentref ymddeol o bosibl.*

Rhoddodd LL wybod i'r Llywodraethwyr yr edrychir ar yr effaith ar y gymuned, ond mae angen bod rhesymau addysgol dros y pryder.

Ni ystyrir y canlynol:
- Prisoedd tai
- Priffyrdd
- Cynllunio

Ni ddylai addysg newid gan fydd staff yn symud gyda'r ysgol. Byddai gan yr ysgol newydd gyfleusterau llawer gwell a bydd yn llawn offer. Os â'r cynnig yn ei flaen, bydd y Fro yn gweithio gyda staff a llywodraethwyr i ddylunio gosodiadau ar gyfer yr adeilad newydd.
Mae cyllideb ar gyfer gosodiadau wedi'i gosod, er y bydd rhywfaint o offer TG cyfredol yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Tra eich bod yn colli rhywfaint o'r agwedd pentref bach, mae'r safle yn edrych dros y môr gyda llawer o adnoddau allanol.

O ran yr agwedd gymunedol, mae'r ALI yn annog pobl wedi ymddeol a phobl heb blant i leisio eu barn, yn ogystal â'r rhieni, staff a Llywodraethwyr. Mae'r ymgynghoriad yn seiliedig ar wybodaeth hysbys. Caiff tystiolaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr Ymgynghoriad ei chynnwys yn yr adroddiad ar yr Ymgynghoriad.

Caiff Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei wneud.

Mae Llancarfan yn mynd i gost refeniw uchel fesul plentyn. Dyma ffaith, nid prif yrrwr ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel gofyniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Ddogfen Ymgynghori.

Caiff effaith mudo'r ysgol ei chynnwys yn yr adroddiad.

*Oes gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer y safle cyfredol?*
Dim ar hyn o bryd. Byddwn yn aros am ganlyniad yr Ymgynghoriad. Os aiff yn ei flaen, yna ystyrir y safle cyfredol. Mae panel Asedau yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Pethau i'w cofio:

- Nid yw Llancarfan yn ddigon bach neu wledig i gael ei rhestru fel ysgol wledig.
- Mae'r cynnig yn ymwneud ag adleoli'r ysgol yn lle ei chau.
- Gall llywodraethwyr ddewis yr enw ac yna aiff i'r Cabinet i gael cymeradwyaeth.

Er bod safbwyntiau cryf yn erbyn mudo'r ysgol, mae staff yn gefnogol iawn. Mae diogelu swyddi'n ystyriaeth, a'r hyn y gallai ei gynnig i ddisgyblion yw'r flaenoriaeth i staff.

Gofynna'r Fro, os hoffech chi ei gefnogi, i chi ateb hefyd.

Nid pleidlais yw ef, felly ni chyfrifir swm yr ymatebion yn y ffordd honno. Y sylwadau eu hunain gaiff eu hystyried. Addysg a'r pwyntiau a wneir yw'r unig bethau a ystyrir. Caiff y sylwadau eu grwpio yn ôl mater ac yna rhoddir ymateb ar gyfer pob un. Yn y gorffennol, mae'r Fro wedi argymell i'r Cabinet beidio â pharhau. Ni fydd unrhyw ymatebion unigol neu gydnabyddiaeth. Bydd crynodeb o ymatebion yn y ddogfen.

*Oes cyfyngiad ar oedran o ran ymateb?*
Gall disgyblion ymateb.

Ymgynghorodd arbenigwr annibynnol â chyngor yr Ysgol heddiw. Roedd yr ymgynghoriad ar sail gweithgareddau a siaradodd am yr ymgynghoriad geiriau a diffiniadau ohono. Ystyriodd cyngor yr ysgol agweddau cadarnhaol a negyddol ar yr Ymgynghoriad. Mae'r wybodaeth

wedi'i chasglu'n mynd yn ôl ar ffurf Adroddiad gan yr Arbenigwr Annibynnol. Bydd yr adroddiad hwn yn mynd i'r Cabinet.

Mae ymchwil wedi'i wneud i effaith ystafelloedd dosbarth wedi'u dylunio'n dda ar ddisgyblion gan Brifysgol Salford, o'r enw Ystafelloedd Dosbarth Clyfar.

*<u>Fydd ESTYN yn cael gwybod am y cynigion a'r ymgynghoriad?</u>*
Bydd a bydd ESTYN hefyd yn ymateb fel Rhandeiliad Allweddol. Bydd ESTYN yn edrych ar y cynnig a'r effaith ar ddisgyblion a dod i gasgliad ar sail eu gwybodaeth am yr ysgol a disgyblion. Pe bai ESTYN yn credu bod rhywbeth ar goll ynghylch yr agwedd Addysgol, byddai sylwi arni.

*Ddylai'r Corff Llywodraethu ymateb yn ei gyfanrwydd?*
Mae ymateb Corff Llywodraethu yn ddewisol.

Gadawodd Paula Ham, Lisa Lewis a Jane O'Leary y cyfarfod ar ôl i Lywodraethwyr ddiolch iddynt am eu hamser.

**3. <u>Trafodaeth</u>**

Teimlodd Llywodraethwyr fod rhywfaint o anwybodaeth a chamddealltwriaeth yn y gymuned am rôl Corff Llywodraethu o ran yr Ymgynghoriad hwn.

**PENDERFYNWYD –** na all y Corff Llywodraethu roi ymateb mwyafrifol ac felly, bydd pob Llywodraethwr yn gwneud ei ymateb ei hun i'r Ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD** – bod angen egluro rôl y Corff Llywodraethu. Ein cylch gorchwyl yn yr Ymgynghoriad hwn yw cynrychioli

Yn anffodus, mae llawer o wybodaeth sy'n anghywir yn ffeithiol wedi'i rhannu ac mae llawer o adborth wedi'i dderbyn.

Mae'r Cyngor eisoes wedi clustnodi'r arian ar gyfer yr ysgol newydd. Mae grwpiau blwyddyn a rennir yn bryder ar gyfer yr ysgol ac mae ofn na fydd yr ysgol yn cyfateb i ysgol newydd yn y Rhws o ran apêl.

Caiff ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a dalgylchoedd eu hadolygu.

Gellir gwaredu'r ysgol fwydo a bydd yn mynd yn ôl i ysgol y dalgylch yn unig.

Nid yw'r Bont-faen yn derbyn disgyblion o'r ysgol fwydo ac ysgol y dalgylch. Mae gan ysgol yr Eglwys yng Nghymru feini prawf gwahanol o ran dalgylch.

Mae'r ymgynghoriad yn achosi rhaniad yng nghymuned yr ysgol. Cyhoeddwyd y ffordd y mae'r ymgynghoriad wedi achosi gwrthdaro.

Sut rydych chi'n hyrwyddo'r ethos a'r ysgol yn gyffredinol?  Mae gan CH brisoedd ar gyfer hysbyseb yn y papur newydd.  Mae angen geirio hyn yn ofalus.

Cyn cyhoeddi'r mudo, 106 oedd nifer y disgyblion yn Llancarfan, ac ers cyhoeddi'r mudo 102 o ddisgyblion sydd yno.

Os bydd nifer y disgyblion yn gostwng, bydd cyllid yn lleihau ac yna effeithir ar niferoedd staff.

Pa bynnag ffordd y mae'n mynd, bydd staff yn parhau i roi'r addysg orau bosibl i'r plant sydd yn yr ysgol.

Mae'n bwysig ystyried, os bydd y gwrthwynebiad yn llwyddiannus ac os na fydd yr ysgol yn cau, fod pryder na fydd digon o ddisgyblion i gadw'r ysgol yn ymarferol ac ar agor.  Ni fydd yn dod yn ddeniadol gyda grwpiau blwyddyn cymysg mewn dosbarth, a bydd nifer yn gostwng.

**PENDERFYNWYD** – y caiff llythyr ei ddrafftio gan y CLl i rieni.

**Atodiad I**

**Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant – dydd Llun 26 Mawrth 2018**

828 AD-DREFNIAD ARFAETHEDIG Y DDARPARIAETH GYNRADD YNG NGORLLEWIN Y FRO (CYF) -

Ar 22 Ionawr, 2018, cyfeiriodd y Cabinet yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu i'w ystyried ar ôl cymeradwyo y dylid awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Ddysgu a Diwylliant, i gynnal ymgynghoriad a fyddai'n cychwyn ar 5 Mawrth 2018 ac a fyddai'n para saith wythnos am y cynnig i sefydlu ysgol gynradd gyda 210 o leoedd a dosbarth meithrin rhan-amser a fyddai'n cynnwys 48 o leoedd yn Nhrwyn y Rhws, a symud Ysgol Gynradd Llancarfan i'r safle newydd. Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad.

Roedd y Rheolwr Gweithredol dros Strategaeth ac Adnoddau wedi rhoi cyflwyniad PowerPoint hefyd, y cyflwynwyd copi ohono yn ystod y cyfarfod er gwybodaeth i'r Aelodau. Dechreuodd y Rheolwr Gweithredol trwy nodi bod yr ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mai'r cynnig oedd ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro trwy:

- Greu ysgol gynradd newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd a dosbarth meithrin rhan-amser a fyddai'n cynnwys 48 o leoedd ar y tir i'r gogledd o'r rheilffordd, Y Rhws
- Symud staff a disgyblion o ysgol Gynradd Llancarfan i'r safle newydd ac
- Ymestyn ystod oedran yr ysgol

Roedd Ysgol Gynradd Llancarfan yn cynnwys yr adeilad ysgol gwreiddiol Fictoraidd sy'n cynnwys dwy ystafell ddosbarth. Roedd yr ysgol ar safle bach (a gaiff ei wrthbwyso rhyw ychydig trwy ddefnyddio cyrtiau cyfagos y clwb tenis) ac mae'r mynediad trwy'r pentref a'r lonydd sy'n arwain i Lancarfan yn anodd ac yn brysur iawn. Nid oedd y pedwar adeilad ar wahân a'r safle bach ar oleddf yn bodloni safonau canllawiau dylunio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ysgolion cynradd, a ddefnyddiwyd ar gyfer yr holl adeiladau newydd a adeiladwyd trwy gyfrwng rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Roedd yr ysgolion hyn yn cynnwys adeilad un neu ddau lawr hollol hygyrch a oedd yn darparu'r holl swyddogaethau addysgol gofynnol o fewn un adeilad, ar safle sy'n bodloni'r anghenion presennol o ran cwricwlwm yr awyr agored.

126 oedd capasiti Ysgol Gynradd Llancarfan. Roedd capasiti dros ben yn yr ysgol ar hyn o bryd, sef 19 lle (15%). Byddai'r capasiti hwn yn cynyddu i 28 lle (22%) fel y dangoswyd gan amcanestyniadau disgyblion yn yr adroddiad. Mae Bro Morgannwg wedi gwneud ymrwymiad i Lywodraeth Cymru i leihau nifer y lleoedd dros ben mewn

ysgolion.  Yn y sector cynradd, roedd hyn yn cyfateb â tharged y cytunwyd arno o 10%.  Roedd cost refeniw uchel gan Ysgol Gynradd Llancarfan, sef £4,490 fesul plentyn, o'i gymharu â'r gost gyfartalog yn y Fro, sef £3,697 fesul plentyn.  Llancarfan oedd y 5ed ysgol gynradd uchaf o ran y gost refeniw fesul plentyn.  Roedd mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan yn byw y tu allan i'r dalgylch.

Roedd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd gan y Cyngor (2011-2026) sydd ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad, Polisi MG1, yn neilltuo cyfanswm o 787 o anheddau newydd yn Y Rhws dros gyfnod y CDLl.  Roedd y dyraniadau yn cynnwys 87 o anheddau ar dir i'r de o'r Rheilffordd, a 700 o anheddau newydd ar dir i'r gogledd o'r Rheilffordd.  Roedd y dyraniad i'r de o'r Rheilffordd wedi cael ei gwblhau ac erbyn hyn, roedd yn llawn ac roedd plant oddi yno yn mynychu'r system ysgolion (cyfeirnod cynllunio:  2012/00937/FUL).

Roedd mwyafrif y plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhws yn byw yn ardal Y Rhws.  Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i adolygu nifer y mathau o ysgolion yn yr ardal, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn codi safonau mewn ysgolion.

Ar sail yr amcanestyniadau cyfredol, erbyn 2023, disgwylir y byddai diffyg o 90 o leoedd cynradd yn ardal Y Rhws.  Yn ogystal, roedd angen rhoi sylw i'r galw, fodd bynnag, byddai ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 lle yn arwain at gapasiti o 10% dros ben wrth ystyried y cynnydd rhagamcanol mewn niferoedd disgyblion o'r ddau ddatblygiad newydd yn Y Rhws, yn ychwanegol i niferoedd rhagamcanol y disgyblion a fyddai'n symud o Ysgol Gynradd Llancarfan.  Roedd adolygu anghenion ehangach gorllewin y Fro yn cynnig cyfle i sefydlu Ysgol newydd ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain, gan roi sylw i anghenion cymunedol a'r sialensiau sy'n ymwneud â chapasiti dros ben.

Lleolir Ysgol Gynradd Llancarfan 3.7 milltir o Ysgol Gynradd Y Rhws.  Y nifer ragamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Llancarfan ar gyfer 2023 oedd 98 disgybl, gyda 28 lle gwag (22%).

Roedd Ysgol Gynradd Y Rhws yn adeilad rhestredig gradd 2.  Roedd maint y safle yn gyfyngedig ac roedd y potensial i fanteisio ar gyfleoedd datblygu pellach yno yn gyfyngedig, ac ni fyddai modd iddi ddelio â chyfanswm y cynnydd rhagamcanol yn y galw am leoedd.  Roedd Llancarfan yn ysgol wledig fach gyda nifer derbyn o 18.  Felly, roedd angen addysgu dosbarthiadau oedrannau cymysg wrth reoli dosbarthiadau, ac roedd anawsterau ynghlwm wrth hyn o ran cynllunio a darparu'r cwricwlwm cenedlaethol.  Roedd nifer derbyn o 18 gyda dosbarthiadau oedrannau

cymysg yn ei gwneud hi'n anodd rheoli cyfyngiadau statudol o 30 ar gyfer maint dosbarthiadau hefyd.  Byddai symud yr ysgol i safle mwy o faint gyda dalgylch newydd a niferoedd cynaliadwy yn galluogi'r ysgol i barhau gyda'i llwyddiant, gan gynnig darpariaeth ar gyfer poblogaeth mwy o faint ar yr un pryd.

Er mwyn bodloni'r galw yn y dyfodol, sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau, a lleihau'r capasiti dros ben yn gyffredinol yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru, roedd yr adroddiad yn cynnig symud Ysgol Gynradd Llancarfan i ysgol newydd a mwy o faint a fyddai'n cynnwys 210 lle, yn natblygiad Trwyn y Rhws.  Byddai dalgylchoedd yn cael eu diffinio o'r newydd er mwyn dosbarthu dalgylch bresennol ysgol Llancarfan ymhlith ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair, Sain Tathan a St. Nicholas, gan ailalinio dalgylchoedd presennol yn Y Rhws hefyd.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r ffaith y byddai symud yr ysgol yn rhoi sylw i nifer o sialensiau:

3. Byddai'r staff a'r disgyblion ar safle presennol Llancarfan yn cael budd o gael adeilad ysgol newydd a fyddai'n cyd-fynd â safonau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.
4. Byddai sylw yn cael ei roi i swm cynyddol y capasiti dros ben yn Ysgol Llancarfan.
5. Byddai'r galw cynyddol am leoedd o fewn ardal Y Rhws yn cael ei fodloni.
6. Disgwyliwyd i ddiwygiadau i ddalgylchoedd o fewn Gorllewin y Fro gynyddu niferoedd y disgyblion mewn ysgolion eraill, gan wella cynaladwyedd yn y dyfodol a chyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau'r capasiti dros ben yn ei ysgolion.
7. Materion sy'n ymwneud â'r ffaith bod y safle yn fach ac yn gyfyngedig, megis darparu cyfleusterau chwaraeon y tu allan.
8. Byddai sylw yn cael ei roi i'r tagfeydd traffig i'r ysgol trwy'r pentref a'r lonydd.
9. Byddai darpariaeth feithrin yn cael ei sefydlu, gan gynorthwyo parhad a dilyniant o ran dysgu plant o'r adeg pan fyddent yn 3 oed, a byddai hyn yn cynorthwyo sefydlogrwydd o ran y niferoedd yn yr ysgol.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd Aelod at waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch Lleoedd dros Ben y Pwyllgor Craffu, a oedd yn nodi ei bod yn ymddangos mai'r cynnig a ystyrir yw'r cynnig terfynol o ganlyniad i waith y Grŵp hwnnw, a nododd ei fod yn cefnogi'r cynnig yn fawr, gan gydnabod y newidiadau o ran y ddemograffeg yn ardal Llancarfan.

Dywedodd Aelod y Ward leol ac Aelod o'r Pwyllgor bod ganddo ddau fater i'w codi ynghylch yr adroddiad, gan nodi bod yr adroddiad yn adlewyrchu persbectif hollol addysgol yn ei farn ef, ac na ystyriwyd yr effaith ar y gymuned leol.  Roedd pentref Llancarfan yn cael ei wasanaethu gan ganolfan ar hyn o bryd, a oedd yn cynnwys

ysgol, tafarn a neuadd gymunedol, a byddai cael gwared ar yr ysgol yn cael effaith niweidiol ar natur y pentref, ac ar gyfer Y Rhws, byddai'n creu llinell trwy ganol y pentref wrth i'r ysgol newydd a'r ysgol bresennol gystadlu yn erbyn ei gilydd.  Roedd Ysgol Gynradd Y Rhws yn Adeilad Rhestredig hefyd, y gallai gael budd gan fuddsoddiad arian Adran 106, ac yn ei farn ef, nododd y byddai'n well ganddo weld yr ysgol bresennol yn cael ei huwchraddio yn hytrach na sefydlu un newydd.  Roedd o'r farn hefyd ei bod yn amhriodol enwi'r ysgol newydd yn ysgol Llancarfan oherwydd y byddai'n cael ei lleoli yn Y Rhws, a gofynnodd i'r Cyngor ailystyried enw'r ysgol.  Fodd bynnag, gan ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai enwi'r ysgol yn fater i'r Corff Llywodraethu newydd, ac mai'r Cabinet fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol hefyd y byddai'r ysgol newydd yn ysgol mynediad un dosbarth, ac y profwyd mai 210 yw'r rhif mwyaf ffafriol mewn perthynas â chyllid a darparu addysg.  Ar ôl cael caniatâd i siarad, dywedodd yr Aelod Cabinet hefyd y byddent yn ystyried safbwyntiau'r preswylwyr, ac nad y diben oedd rhannu ardal Y Rhws, ond y byddai'n bwysig ymgynghori ac ystyried yr ymatebion ar ôl eu cael.  Roedd yn llwyr ymwybodol o'r ffaith bod biliau trwsio ar gyfer Ysgol Y Rhws ac ar hyn o bryd, roedd swyddogion yn ystyried amserlen drwsio er mwyn rhoi sylw i hyn.

Yn dilyn ymholiad ynghylch a fyddai cludiant i ddisgyblion o Lancarfan, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'r Cyngor yn bodloni'r gofynion hyn pan fo hynny'n briodol.

Dywedodd Aelod lleol ar gyfer Llanilltud Fawr ei bod yn dymuno tawelu meddwl yr Aelod dros Y Rhws trwy sôn am gynllun tebyg a gynhaliwyd yn ei hardal hi ar ôl pryder tebyg, fodd bynnag, roedd y ddwy ysgol yn cydweithio'n dda.  Gofynnodd Aelod hefyd a fyddai modd dosbarthu meini prawf Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain i holl Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth, ynghyd â manylion y dewisiadau eraill a ddiystyrwyd.

Gan gloi, dywedodd y Cadeirydd, wrth nodi pryderon Aelod y Ward leol, ei bod yn ymddangos bod mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig ac yn dilyn hyn

ARGYMHELLWYD

(1)  BOD y Pwyllgor Craffu yn cefnogi penderfyniadau'r Cabinet sef y dylid awdurdodi'r ymgynghoriad o 6 Mawrth, 2018 am gyfnod o 7 wythnos, am y cynnig i sefydlu ysgol a fydd yn cynnwys 210 lle a dosbarth meithrin a fydd yn cynnwys 48 lle rhan-amser yn Nhrwyn y Rhws, gan symud Ysgol Gynradd Llancarfan i'r safle newydd.

(2)  BOD sylwadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfarfod yn cael eu cyfeirio i'r Cabinet er mwyn iddo eu hystyried yn dilyn y broses ymgynghori.